Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
2/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
10/01/2018

# Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-78903-349-6

# Adolygiad o'r Sector Gofal Plant yng Nghymru

Sarah Crocker / Llywodraeth Cymru
Hannah Thomas / Llywodraeth Cymru
Nick Spyropoulos / Alma Economics
Shruti Pandya / Alma Economics
Aliya Saied-Tessier / Alma Economics
Sandu Gusanu / Alma Economics
Christina Olympiou / Alma Economics

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru.

I gael gwybodaeth bellach, cysyllter â:

Hannah Thomas
Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 060 4400
E-bost: talkchildcare@llyw.cymru

Brace Griffiths
Economi a Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 060 4400
E-bost: Brace.Griffiths@llyw.cymru

# Tabl cynnwys

Awdurdodau Lleol Cymru ........ 5
Acronymau ........ 6
**Crynodeb Gweithredol ........ 7**
**1. Cyflwyniad ........ 12**
Strwythur yr Adroddiad ........ 12
Methodoleg ........ 13
Adolygiad llenyddol ........ 13
Ffynonellau data ........ 13
Cyrraedd amcanestyniadau poblogaeth/lefel-sector o ddata seiliedig ar sampl ........ 17
Gwybodaeth ansoddol ........ 18
**2. Cefndir ........ 20**
Addysg blynyddoedd cynnar a chynnig gofal plant ........ 20
Dechrau'n Deg ........ 22
Y cynnig 3-4 oed yn Lloegr ........ 23
**3. Asesiad Economaidd ........ 24**
Effeithiau Uniongyrchol ........ 24
Strwythur cyflogaeth ........ 28
Lefelau cymwysterau ........ 32
Cadw a recriwtio gweithwyr ........ 34
Prentisiaethau ........ 37
Graddfeydd cyflog i weithwyr ........ 38
Incwm staff cyffredinol yn y sector gofal plant ........ 40
Effeithiau Anuniongyrchol ........ 41
Gofal plant ffurfiol ac anffurfiol ........ 42
Rhieni yn defnyddio gofal plant ........ 43
Incwm o gyflogaeth a hunangyflogaeth ........ 46
Unigolion a rwystrir rhag gweithio oherwydd gofalu am eu plant ........ 47
**4. Dadansoddiad darparwyr ........ 48**
Dosbarthiadau ........ 51
Trosolwg o'r lleoliadau ........ 54
Dosbarthiad sector ........ 61
Darpariaeth gwasanaeth a chapasiti presennol ........ 62
Rhestrau aros ........ 65
Lleoedd a ariennir ........ 68

Capasiti ar gyfer ehangu a chynnwys y galw cynyddol .....72
Heriau a chyfleoedd i'r sector.....74
Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC) .....74
Diwygiadau lles a threthi.....75
Brexit .....76
Iaith Gymraeg.....77
Anghenion dysgu ychwanegol (ADY).....77
Rheoliadau .....80
Y Cynnig Gofal Plant i Gymru .....82
**5. Costau, refeniw ac effeithlonrwydd.....86**
Cyfanswm costau cyffredinol .....86
Costau staff.....89
Costau yn ymwneud ag eiddo.....91
Costau prydau ac arlwyo.....92
Hyfforddiant.....94
Offer a deunyddiau .....95
Costau eraill.....95
Dyfodol costau .....95
Incwm.....100
Proffidioldeb.....102
Effeithlonrwydd .....104
Cymarebau staffio.....106
**6. Casgliad.....108**
Argymhellion .....109
Ymchwil pellach.....109
**Cyfeiriadau .....111**
**Atodiad 1 Mathau o ddarparwyr gofal plant .....114**
Gwarchod plant.....114
Gofal dydd.....114
Gofal dydd llawn.....115
Gofal sesiynol.....115
Gofal plant tu allan i'r ysgol .....115
Crèches.....115
Darpariaeth chwarae mynediad agored.....116

**Atodiad 2 Adolygiad llenyddol ........ 117**
Cefndir polisi ........ 117
Cyflenwad a'r galw am ofal plant ........ 118
Perthynas rhwng pris a gofal plant (DU) ........ 119
Effaith gofal plant am ddim ........ 121
Perthynas rhwng pris a gofal plant (UD a Canada) ........ 122
Amnewidiadwyedd rhwng gofal plant ffurfiol ac anffurfiol ........ 124
Cyflenwad gofal plant ........ 124
Tueddiadau cyflenwad yng Nghymru ........ 125
Effaith gofal plant ar gyflogaeth ........ 126

## Rhestr Tablau

**Tabl 1.** Nifer o ymatebion i Arolwg Gofal Plant Alma Economics ........ 15
**Tabl 2.** Nifer o unigolion yn gweithio yn y sector gofal plant yng Nghymru ........ 27
**Tabl 3.** Nifer o weithwyr (gan gynnwys hunangyflogedig) yn y gweithle yn ôl dosbarthiad AoLl ........ 29
**Tabl 4.** Cymwysterau NVQ – staff yn gweithio mewn lleoliadau gofal plant ........ 32
**Tabl 5.** Cymwysterau GDDP yn y sector gofal plant ........ 33
**Tabl 6.** Hyd yr amser gyda'r cyflogwr presennol yn ôl dosbarthiad AoLl ........ 34
**Tabl 7.** Cymhareb y nifer a gyflogir o'r newydd i'r nifer sy'n gadael – Ebrill 2015 i fis Mawrth 2016 ........ 36
**Tabl 8.** Amcangyfrif o raddfeydd cyflog staff yn y sector gofal plant, ac eithrio'r hunangyflogedig ........ 39
**Tabl 9.** Cyflog gros fesul awr i weithwyr yn unig ........ 39
**Tabl 10.** Amcangyfrif o gostau staff blynyddol (cyfanswm sector) yn ôl math o leoliad ........ 41
**Tabl 11.** Arolwg o Adnoddau Teulu - Dosbarthiad trefniadau plant ........ 43
**Tabl 12.** Nifer o rieni ac aelwydydd yn defnyddio gofal plant yng Nghymru ........ 44
**Tabl 13.** Statws presennol (hunan-gofnodedig) rhieni yn defnyddio gofal plant ffurfiol yng Nghymru ........ 45
**Tabl 14.** Statws presennol (hunan-gofnodedig) y rhiant sy'n ennill y cyflog isaf (ac eithrio rhieni heb unrhyw incwm cyflogedig/hunangyflogedig) ar aelwydydd yn defnyddio gofal plant ffurfiol yng Nghymru ........ 46
**Tabl 15.** Lleoedd sydd ar gael i blant 3-4 oed ar hyn o bryd ........ 73
**Tabl 16.** Lleoedd yn y dyfodol i blant 3-4 oed os y ceir amser i ymestyn ........ 74
**Tabl 17.** Ymatebion arolwg ar gostau rheoliadau ........ 81
**Tabl 18.** Cyfanswm costau yn ôl math o leoliad (cyfanswm sector) - 2015-2016 ........ 87

**Tabl 19.** Costau yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016 ................. 88
**Tabl 20.** Crynodeb o gostau ar gyfartaledd yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016 ................................................................................................ 88
**Tabl 21.** Crynodeb o gostau canolrif yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016 ................................................................................................ 89
**Tabl 22.** Costau staff yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016 ......... 90
**Tabl 23.** Costau rhent/eiddo yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016................................................................................................ 92
**Tabl 24.** Costau prydau ac arlwyo yn ôl math o leoliad ................................ 93
**Tabl 25.** Costau hyfforddiant staff................................................................. 94
**Tabl 26.** Gwarchodwyr plant: Amcanestyniad costau cyfartalog 2016-2021.. 97
**Tabl 27.** Darparwyr gofal dydd llawn: Amcanestyniad costau cyfartalog 2016-2021................................................................................................ 98
**Tabl 28.** Darparwyr gofal tu allan i'r ysgol: Amcanestyniad costau cyfartalog 2016-2021................................................................................................ 99
**Tabl 29.** Darparwyr gofal sesiynol: Amcanestyniad costau cyfartalog 2016-2021……………………………………………………………………………..100
**Tabl 30.** Ffynonellau incwm yn ôl math o leoliad ......................................... 101
**Tabl 31.** Elw yn ôl math o leoliad ................................................................. 103
**Tabl 32.** Cost fesul oriau-plant.................................................................... 104
**Tabl 33.** Cost fesul amcanestyniad oriau-plant - 2016-2021 ....................... 105
**Tabl 34.** Cymarebau staffio cyfartalog i ddarparwyr gofal plant yng Nghymru........... ........................................................................... 107

## Rhestr Mapiau

**Map 1.** Rhanbarthau Cymru........................................................................ 52
**Map 2.** ALlau Cymraeg wedi'u dosbarthu yn ôl trefol, gwledig, cymoedd ac eraill....... ................................................................................................ 53
**Map 3.** Darparwyr gofal plant yng Nghymru (ac eithrio gwarchodwyr plant) .. 54
**Map 4.** Gwarchodwyr plant yn ôl ALl ............................................................ 56
**Map 5.** Gofal dydd sesiynol yn ôl ALl ........................................................... 58
**Map 6.** Darparwyr gofal dydd llawn yn ôl ALl ................................................ 60
**Map 7.** Nifer o blant ar restrau aros yn ystod y tymor ................................... 66
**Map 8.** Rhestrau aros yn ôl nifer y plant yn ystod y tymor 0-12 oed .............. 67
**Map 9.** Nifer o ddarparwyr gofal plant (h.y. lleoliadau nas cynhelir) yn derbyn arian blynyddoedd cynnar ................................................................................ 69
**Map 10.** Nifer o ddarparwyr gofal plant wedi cofrestru ag AGGCC yn derbyn arian Dechrau'n Deg ........................................................................................ 71

# Awdurdodau Lleol Cymru



## Acronymau

| | |
|---|---|
| **AALl** | Awdurdod Lleol |
| **AAT** | Arolwg o Adnoddau Teulu |
| **ADY** | Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| **AGGCC** | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| **AoLl** | Arolwg o'r Llafurlu |
| **CBC** | Cyflog Byw Cenedlaethol |
| **CGE** | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| **CGMD** | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| **CWLWM** | Childcare Wales Learning and Working Mutually |
| **DHG** | Datganiad Hunansesu Gwasanaeth |
| **DDS** | Dosbarthiad Diwydiannol Safonol |
| **GDDP** | Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant |
| **ICC** | Isafswm Cyflog Cenedlaethol |
| **MCS** | Meithrinfa Cyfnod Sylfaen |
| **NSAF** | National Survey of America's Families |
| **NVQ** | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol |
| **OBR** | Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol |
| **PACEY Cymru** | Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| **SGC** | Safonau Gofynnol Cenedlaethol |
| **SPCC** | Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru |

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r sector gofal plant yn chwarae rôl allweddol yn natblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae Gofal Plant yn galluogi nifer fawr o rieni i weithio, ac mae'r rhieni hyn yn mynd ymlaen i gynhyrchu ar y cyd tua £1.2 biliwn mewn incwm[1] y flwyddyn, gan gefnogi twf economaidd a lleihau tlodi ar draws Cymru.

Yn gyffredinol, mae gweithlu'r sector gofal plant yn un cyflog isel, ond mae'n gyflogwr mawr o dros 17,000 o bobl. Tyfodd y sector dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae ganddo'r potensial i ehangu ymhellach. Er bod llawer o'r darparwyr yn ein harolwg (yn enwedig gwarchodwyr plant) yn pwysleisio bod rhwystrau a risgiau i ehangu, yn gyffredinol teimlai cyfranogwyr y sector y byddent yn gallu ateb y galw cynyddol petaent yn cael digon o amser i wneud yr addasiadau angenrheidiol (h.y. recriwtio staff newydd, uwchraddio eiddo).

Mae maint isel yr elw i'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn eu gwneud hwy'n agored i newidiadau sydyn o ran rheoleiddio ac ariannu - ac felly mae'n hanfodol bod newidiadau polisi yn cael eu cynllunio a'u gweithredu'n ofalus fel na fydd yn effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor y sector.

Cynnig Gofal Plant Cymru mae'n debyg fydd y prif yrrwr newid i'r sector gofal plant yn y blynyddoedd i ddod. Ar hyn o bryd, mae gan bob plentyn 3-4 oed yr hawl i isafswm o 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar yn ystod y tymor. Bydd y Cynnig Gofal Plant yn cyfuno'r oriau hyn gyda hyd at 20 awr ychwanegol o ofal plant yn ystod y tymor yn achos aelwydydd lle mae'r ddau riant yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Ar gyfer y 9 wythnos o wyliau ysgol, bydd plant 3-4 oed yn derbyn 30 awr o ofal plant. Cychwynnir cyflwyniad graddol o'r Cynnig Gofal Plant Cymru ym mis Medi 2017, ac mae disgwyl y bydd yn cynnwys Cymru gyfan erbyn 2020.

Bydd y Cynnig Gofal Plant Cymru arfaethedig yn creu ystod o gyfleoedd a heriau. Trwy ddeall y sector gofal plant, gall Llywodraeth Cymru ddatblygu

[1] Mae'r £1.2 biliwn yn cyfeirio at gyfanswm incwm o gyflogaeth a hunangyflogaeth y rhiant sy'n ennill isaf (gan gynnwys rhieni sengl) ar aelwydydd yng Nghymru sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai o'r rhieni hyn yn dal i allu gweithio yn absenoldeb gofal plant ffurfiol.

polisïau sy'n ceisio hwyluso darparu gofal plant hyblyg a fforddiadwy, o ansawdd uchel, mewn modd cynaliadwy a chost-effeithiol.

### Darparwyr gofal plant

Ym mis Rhagfyr 2016, roedd 4,012 o ddarparwyr gofal plant wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Gwarchodwyr plant yw’r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant (52%). Cyflenwir y gweddill o’r ddarpariaeth gofal plant mewn lleoliadau gofal dydd sesiynol (20%), lleoliadau gofal dydd llawn (17%), lleoliadau gofal tu allan i’r ysgol (10%), darpariaeth chwarae mynediad agored (1%) a crèches (0.5%)[2].

Cynyddodd cyfanswm nifer y lleoedd gofal plant yng Nghymru o 76,000 yn 2012 i 84,000 yn 2017. Lleoedd gofal dydd llawn a lleoedd gofal ar ôl ysgol a gynigir ac a ddefnyddir amlaf.

Amcangyfrifa Arolwg Gofal Plant Alma Economics[3] bod tua 65% o leoliadau gofal plant yn ddarparwyr preifat, 18% ohonynt yn wirfoddol (y mwyafrif yn ddarparwyr gofal sesiynol, e.e. grwpiau chwarae) a 12% yn gyhoeddus (sy'n debygol o fod yn ofal dydd llawn).

### Gweithlu gofal plant

Amcangyfrifir bod tua 17,300 o weithwyr gofal plant yng Nghymru, a disgwylir ehangu pellach yn y blynyddoedd i ddod[4]. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr gofal plant yn cael eu cyflogi gan fusnesau bach, neu maent yn hunangyflogedig (gwarchodwyr plant). Cyflogir tua 80 y cant o weithwyr ar sail ran-amser, yn gweithio llai na 35 awr yr wythnos[5].

[2] Cyfeiriadur AGGCC o leoliadau gofal dydd plant cofrestredig - Rhagfyr 2016.

[3] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[4] Datganiad Hunan-asesiad Gwasanaeth AGGCC 2016.

[5] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

Ceir tystiolaeth i awgrymu bod lefelau cymwysterau yn y gweithlu gofal plant wedi cynyddu dros y ddegawd ddiwethaf. Yn 2016, roedd gan dri chwarter y gweithwyr gymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 neu uwch[6].

Canfu Arolwg Gofal Plant Alma Economics[7] bod gweithwyr yn y sector yn derbyn cyflog cymharol isel, gyda thua hanner yr holl weithwyr yn ennill rhwng £7- £8 yr awr yn 2016-2017. Dim ond 12% o'r staff a oedd yn ennill mwy na £9.00 yr awr gros, sy'n awgrymu bod y cynlluniau i gynyddu Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC) i £9.00 erbyn 2020 yn debygol o gael effaith fawr ar y sector.

**Gwerth y sector**

Yn seiliedig ar y dadansoddiad sy'n defnyddio Arolwg o Adnoddau Teulu (2015/16), amcangyfrifir mai'r cyfanswm incwm o gyflogaeth a hunangyflogaeth fesul blwyddyn ar aelwydydd â phlant dibynnol 0-19 oed sy'n cael mynediad i ryw fath o ofal plant ffurfiol oedd tua £3.7 biliwn yn 2015 -16. Pan ystyrir rhieni gydag o leiaf un plentyn 3-4 oed, y ffigwr cyfatebol yw ychydig o dan £1.3 biliwn.

Mewn cartrefi dau-berson, gellir dadlau y byddai'r sawl sy'n ennill y cyflog uchaf yn gallu gweithio hyd yn oed yn absenoldeb gofal plant ffurfiol. Cyfanswm yr incwm o gyflogaeth/ hunangyflogaeth y rhieni sy'n ennill y cyflog isaf/ rhieni sengl plant dibynnol 0-19 oed yn 2015/16 oedd £1.2 biliwn, tra bo cyfanswm incwm rhieni sy'n ennill y cyflog isaf/ rhieni sengl gydag o leiaf un plentyn 3-4 oed tua £400 miliwn. Fodd bynnag, efallai y gall rhai o'r rhieni hyn ddal i allu gweithio yn absenoldeb gofal plant ffurfiol (e.e. trwy ddefnyddio gofal plant anffurfiol).

[6] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[7] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

Nododd tua 61,000 o rieni plant dibynnol yng Nghymru (tua 20% o'r holl rieni) eu bod yn cael eu rhwystro rhag gweithio oherwydd gofalu am eu plant - gyda 9 o bob 10 o'r rhain yn ferched[8].

O ran effeithiau uniongyrchol y sector gofal plant ar yr economi, amcangyfrifodd Arolwg Gofal Plant Alma Economics mai'r cyfanswm a wariwyd ar gostau staff yn 2015-2016 oedd tua £125 miliwn.[9] Fodd bynnag, gan nad yw nifer o warchodwyr plant yn cynnwys eu hincwm personol mewn costau staff, a'n bod wedi derbyn ymatebion cyfyngedig o'r crèches a lleoliadau chwarae mynediad agored, mae hyn yn debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel.

### Cost gofal plant

Yn 2015-2016, gwariwyd tua £190 miliwn ar gostau gweithredu (gan gynnwys costau staffio, cyfleustodau, rhent, glanhau, hyfforddi, arlwyo ac offer) gan y sector gofal plant yng Nghymru[10]. Roedd darparwyr gofal dydd llawn yn cyfrif am oddeutu dwy ran o dair o'r cyfanswm gwariant.

Amcangyfrifwn fod gwarchodwyr plant, lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal sesiynol wedi derbyn oddeutu £195 miliwn o incwm yn 2015-2016[10]. Yn 2016-2017, roedd tua chwarter y darparwyr a arolygwyd yn disgwyl gweithredu ar golled, sy'n gyson â data o'r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Roedd lleoliadau gofal dydd sesiynol a lleoliadau gofal dydd llawn yn fwy tebygol o adrodd colledion.

8 Arolwg o Adnoddau Teulu - 2015/16.

9 Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Mae'r data wedi cael ei addasu i fod yn gynrychioliadol o'r sector gofal plant yn ei gyfanrwydd. Maint sampl – 164. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

10 Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

## Argymhellion

Er mwyn deall y sector gofal plant a'i effaith yn well, argymhellir ymchwil pellach yn y meysydd canlynol:

i) effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol;

ii) cost rheoliadau a sut y gall effeithio ar ymddygiad darparwyr gofal plant;

iii) y nifer o bobl sy'n cael eu rhwystro rhag gweithio oherwydd diffyg mynediad digonol at ofal plant yng Nghymru; a

iv) gofynion hyfforddiant staff arbenigol i ofalu am blant gydag anghenion dysgu ychwanegol.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics i adolygu'r sector gofal plant ffurfiol yng Nghymru. Mae'r gwaith hwn yn rhan o raglen ymchwil ehangach i adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio newidiadau arfaethedig ym maes polisi gofal plant ar gyfer plant 3-4 oed. Rhydd yr adroddiad drosolwg o gyflwr presennol y sector gofal plant yng Nghymru a’r rhagolygon ar gyfer y dyfodol.

## Strwythur yr Adroddiad

1.2 Nod yr adroddiad hwn yw cynnig adolygiad o'r sector gofal plant yng Nghymru ac archwilio materion sy'n ymwneud â darparu gofal plant, gan gynnwys cynaliadwyedd, costau ac effeithlonrwydd. Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Cyflwyniad a Methodoleg:** Trafoda'r adran hon y ffynonellau data a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r dull methodolegol cyffredinol.
- **Cefndir:** Edrycha'r adran hon ar y materion allweddol sy'n rhoi cyd-destun i'r adroddiad.
- **Asesiad Economaidd:** Ceisia'r adran hon fesur gwerth economaidd y sector gofal plant yng Nghymru, gan gydnabod ei fod yn cefnogi nifer fawr o fusnesau a gweithwyr ar draws Cymru, ac yn galluogi rhieni i weithio.
- **Dadansoddiad darparwr:** Edrycha'r adran hon ar nodweddion presennol y sector, gan gynnwys capasiti, darparu gwasanaethau, a heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.
- **Dadansoddiad Cost:** Cynhwysa’r adran hon amcangyfrifon manwl o gostau darparwyr ac incwm yn y sector gofal plant.

## Methodoleg

1.3 Cafodd yr adolygiad ei lywio gan ddadansoddiad data sylfaenol ac eilaidd, ymchwil pen-desg, a chyfweliadau gydag ymarferwyr. Defnyddiwyd dulliau cymysg er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyfannol o'r materion sy'n effeithio ar ddarparwyr gofal plant yng Nghymru.

*Adolygiad llenyddol*

1.4 Y man cychwyn ar gyfer ein gwaith oedd archwilio tystiolaeth academaidd, polisi a sector-benodol bresennol. Adolygwyd y llenyddiaeth ar ystod o bynciau gan gynnwys ffactorau sy'n gysylltiedig â chyflenwad a galw, effaith gofal plant ar gyflogaeth ac incwm, heriau a chyfleoedd sy'n wynebu'r sector, a'r incwm posibl a grëir gan y sector gofal plant (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol). Ceir crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad o lenyddiaeth yn Atodiad 2.

*Ffynonellau data*

1.5 Defnyddiwyd pum prif ffynhonnell o ddata yn ein dadansoddiad:

- Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) cyfeiriadur o leoliadau gofal dydd plant cofrestredig fel yr oedd yn Rhagfyr 2016
- Datganiad Hunansesu Gwasanaeth (DHG) AGGCC 2015-2016
- Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017
- Arolwg o’r Llafurlu – Ionawr 2016 i fis Rhagfyr 2016
- Arolwg o Adnoddau Teulu 2015-2016

1.6 Mae AGGCC yn cofrestru ac yn arolygu lleoliadau gofal dydd i blant o dan 12 oed yn ôl y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Rheoliadau. Darperir gwybodaeth am enw, dosbarthiad y lleoliad (e.e. gofal dydd llawn, gofal sesiynol, gwarchodwr plant), cyfeiriad, rhif ffôn a lleoliad lleoliadau cofrestredig yng nghyfeiriadur o leoliadau gofal dydd plant

cofrestredig yr AGGCC. Ym mis Rhagfyr 2016, roedd 4,012 o leoliadau wedi eu cynnwys ar y cyfeiriadur.

1.7 Fel rhan o'u cofrestriad gydag AGGCC, mae'n ofynnol i Unigolion Cyfrifol neu Unigolion Cofrestredig gwblhau DHG blynyddol. Mae'r ffurflen yn casglu gwybodaeth fanylach am ystod o ffactorau gan gynnwys y defnydd o iaith, oriau gweithredu, cyfraddau sesiwn gofal plant, a staffio. Er ei fod yn darparu gwybodaeth, mae gan set ddata DHG gyfyngiadau penodol. Yn gyntaf, dim ond gan ddarparwyr gofal plant a gytunodd i rannu gwybodaeth y cawsom fynediad at ddata lefel unigol. Mewn rhai achosion, roedd y data hwn yn cynnwys manylion cyswllt, ond mewn achosion eraill roedd y manylion cyswllt wedi eu cuddio. Roedd tua 1,629 o gofnodion lefel unigol yn y set ddata, sef tua 40% o’r lleoliadau gofal plant cofrestredig yng Nghymru. O'r cofnodion hyn, rhoddodd 682 fanylion cyswllt a chaniatâd i ni gysylltu. Yn ogystal â'r uchod, cawsom fynediad at wybodaeth gyfanredol ar gyfer yr holl ddarparwyr cofrestredig a ymatebodd (tua 76% o gyfanswm nifer y darparwyr). Yn yr adroddiad, rydym yn gwahaniaethu rhwng data "lefel unigol" a data "lefel cyfanredol". Mae hefyd yn bwysig nodi, fel gydag unrhyw arolwg hunan-gofnodedig, y gall rhai rhagfarnau godi o ddehongliad yr atebydd o gwestiynau ac ymatebion amcangyfrifiedig. Roedd rhai ymatebion yn y DHG yn dangos diffyg cysondeb, ac felly mae dadansoddi rhai agweddau ar y data angen rhagor o fodelu/ glanhau data.

1.8 Dylid nodi bod set ddata DHG hefyd yn darparu gwybodaeth am y nifer o ddarparwyr yng Nghymru, ond mae'r niferoedd cyfanredol ychydig yn wahanol i gyfeiriadur darparwyr AGGCC. Mae'r anghysondeb yn eithaf bach, ond er mwyn cysondeb rydym wedi defnyddio'r cyfeiriadur cofrestredig fel y brif ffynhonnell ddata ar gyfer y nifer o ddarparwyr gofal plant yng Nghymru, gan ei fod â gwybodaeth fanylach.

1.9 I bontio'r bylchau gwybodaeth a chasglu gwybodaeth sydd wedi’i dargedu'n fwy manwl, cynhaliodd Alma Economics hefyd arolwg o

ddarparwyr gofal plant yng Nghymru. Gweinyddwyd Arolwg Gofal Plant Alma Economics ar-lein a’i hyrwyddo drwy dau ddull:

- Cyswllt e-bost unigryw a anfonwyd at y darparwyr gofal plant a gytunodd i ni gysylltu â hwy drwy gyfrwng set ddata DHG (628).
- Cyswllt e-bost generig wedi’i hyrwyddo gan CWLWM (Childcare Wales Learning and Working Mutually), sef cyfuniad o’r Mudiad Meithrin, Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (CGMD) Cymru, PACEY Cymru, a Cymdeithas Darparwyr Cyn-Ysgol Cymru. Cafodd y cyswllt ei hyrwyddo hefyd mewn digwyddiadau darparwyr a gynhaliwyd yn Ne, Gogledd a Gorllewin Cymru.

1.10 Roedd yr arolwg ar agor o 27 Chwefror 2017 tan 20 Mawrth 2017, a chawsom tua 500 o ymatebion gan 175 o warchodwyr plant, 167 o leoliadau gofal sesiynol, 122 o leoliadau gofal dydd llawn, 30 o leoliadau gofal tu allan i’r ysgol, 4 o leoliadau chwarae mynediad agored a 2 feithrinfa. Er bod y canlyniadau'r arolwg yn llawn gwybodaeth, mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau penodol.

**Tabl 1.** Nifer o ymatebion i Arolwg Gofal Plant Alma Economics

| Math o leoliad gofal plant | Nifer o leoliadau yng Nghymru, yn Rhagfyr 2016 | Nifer o ymatebion i Arolwg Gofal Plant Alma Economics | Canran y lleoliadau a ymatebodd i’r arolwg |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 2,081 | 175 | 8% |
| Crechè | 23 | 2 | 9% |
| Gofal sesiynol | 785 | 167 | 21% |
| Gofal dydd llawn | 668 | 122 | 18% |
| Gofal Tu Allan i’r Ysgol | 412 | 30 | 7% |
| Chwarae Mynediad Agored | 43 | 4 | 9% |

1.11 Cawsom lawer mwy o ymatebion gan rai mathau o leoliad nag eraill. Er enghraifft, ymatebodd tua 20% o'r holl leoliadau gofal sesiynol a gofal dydd llawn yng Nghymru i'r arolwg, tra bod y gyfradd ymateb ar gyfer mathau eraill o leoliad rhwng 7-9%. Hefyd, ychydig iawn o ymatebion a gawsom gan crèches a lleoliadau chwarae mynediad agored - er mae hyn yn adlewyrchu'r nifer cyfyngedig o'r mathau hyd o leoliad ar hyd a lled Cymru.

1.12 Roedd cyfyngiad arall yr arolwg yn ymwneud â chyfraddau cwblhau. Ni wnaeth tua 50% o'r ymatebwyr a ddechreuodd yr arolwg ateb y cwestiwn olaf. Mae hyn oherwydd amrywiaeth o ffactorau, mae'n debyg, gan gynnwys cyfyngiadau amser, anallu i ateb cwestiynau penodol, a'r fformat hunan-adrodd. Gan fod rhai o'r ymatebion a gwblhawyd yn rhannol yn cynnwys gwybodaeth gyfoethog, ni wnaethom eithrio ymatebion anghyflawn. Er mwyn annog ymatebion cywir, roedd modd hepgor y rhan fwyaf o gwestiynau.

1.13 Er ein bod wedi gobeithio y byddai'r arolwg yn ein galluogi i ddod i gasgliadau am y berthynas rhwng categorïau cost a nodweddion darparwr (e.e. anghenion ychwanegol, cyhoeddus/ preifat/ gwirfoddol), roedd materion ansawdd data yn ein hatal rhag archwilio rhai o'r materion hyn yn fanwl.

1.14 Mae'r Arolwg o'r Llafurlu (AoLl) yn astudiaeth arolwg o gyflogaeth yn y DU a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yr AoLl yw ffynhonnell cyfraddau cyflogaeth a diweithdra swyddogol y DU. Er mwyn cynyddu nifer yr arsylwadau a chaniatáu ar gyfer dadansoddi ar lefel is-sector, defnyddiwyd data chwarterol AoLl o Ionawr 2016 i Ragfyr 2016. Er bod y manylion yn yr AoLl yn cael eu hadrodd gyda lefel uchel o gywirdeb, mae'n bwysig nodi bod y duedd sy'n gysylltiedig â holl ddulliau samplo yn dal i fod yn bresennol. O ganlyniad, mae'r setiau data AoLl yn darparu amcangyfrifon yn hytrach na ffigyrau pendant.

1.15 Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu (AAT) yn arolwg barhaus o aelwydydd a gynhelir gan gonsortiwm, gan gynnwys y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol. Bu'r AAT yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ers 1994 gan roi gwybodaeth am incwm ac amodau byw ac adnoddau aelwydydd a theuluoedd yn y Deyrnas Unedig. Ar gyfer ein dadansoddiad, defnyddiwyd yr AoLl diweddaraf sydd ar gael, sy'n cynnwys blwyddyn ariannol 2015/16.

1.16 Noder bod yr holl amcangyfrifon drwy gydol yr adroddiad yn cael eu talgrynnu, a allai arwain at i golofnau beidio ag adio i'r cyfanswm, yn ogystal â mân anghysondebau sy'n ymddangos mewn tablau lle mae meintiau'n cael eu mynegi ar lefelau absoliwt, ac fel canrannau.

*Cyrraedd amcanestyniadau poblogaeth/lefel-sector o ddata seiliedig ar sampl*

1.17 Fel y trafodwyd uchod, mae bron pob un o'n ffynonellau gwybodaeth feintiol yn rhai seiliedig ar sampl, ac felly mae angen addasiadau i gyrraedd amcangyfrifon lefel sector/ lefel poblogaeth.

1.18 Cafodd y data a ryddhawyd o'r AoLl ac AAT eu pwysoli er mwyn rhoi cyfrif am ddyluniad y sampl a rhagfarn diffyg ymateb, gan ganiatáu gwneud amcangyfrifon ar gyfer y boblogaeth. Gellir gweld dogfennau manwl sy'n dangos sut yr amcangyfrifiwyd ac y defnyddiwyd y pwysoli hwn ar wefan Gwasanaeth Data'r DU.

1.19 Yn achos y DHG ac Arolwg Alma Economics roedd y dull fel a ganlyn. Yn anffodus, oherwydd y ffaith nad oedd yr arolygon hyn yn defnyddio sampl ar hap, ni allwn ddweud bod yr ymatebion a dderbyniwyd yn gynrychiadol o'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Gan ein bod yn gwybod o gofrestr yr AGGCC faint o leoliadau cofrestredig pob math o ddarparwr sy'n bodoli, rydym wedi cyfrifo rhai amcangyfrifon ar lefel sector drwy eu pwysoli'r ar gyfer diffyg ymateb. Fodd bynnag, nid yw'r amcangyfrifon hyn yn wirioneddol gynrychioliadol o ymddygiad y sector oherwydd y cyfyngiadau a drafodwyd. Felly dylai'r ffigyrau gael eu trin

fel rhai dangosol yn unig, ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

1.20 Ym mhob achos bron, cafodd y broses uchod ei gwneud ar wahân i bob math o ddarparwr (yn hytrach nag ar gyfer holl ddarparwyr gyda'i gilydd) i gyfrif am y cyfraddau ymateb gwahaniaethol rhwng gwahanol fathau o ddarparwyr.

1.21 Felly, er enghraifft, er mwyn amcangyfrif cyfanswm y costau i'r sector yn ei gyfanrwydd, yn gyntaf amcangyfrifiwyd y costau cyfartalog i warchodwyr plant yn unig ar sail yr ymatebion i'r arolwg, ac yna lluoswyd y cyfartaledd hwn gan y nifer o warchodwyr plant ar draws Cymru i gyrraedd cyfanswm y costau ar gyfer bob gwarchodwr plant gyda'i gilydd. Yna ailadroddwyd y broses hon ar wahân i bob math o ddarparwr arall (e.e. darparwyr gofal dydd llawn, gofal sesiynol, ayb), cyn adio'r holl wahanol amcangyfrifon math o ddarparwr at ei gilydd i gyrraedd y cyfanswm costau i'r sector yn ei gyfanrwydd.

1.22 Noder mai dim ond lle'r ydym yn weddol sicr bod maint y sampl ac ansawdd yr ymatebion yn ddigonol i ddod i gasgliadau cadarn yr ydym yn cyflwyno canfyddiadau. Mewn achosion lle y disgwyliwyd i'r canlyniadau fod yn amhenodol iawn ac o bosibl yn gamarweiniol, rydym naill ai wedi ymatal rhag cyflwyno amcangyfrifon o gwbl, neu rydym yn datgan yn glir yn y testun y dylai'r canlyniadau gael eu trin fel rhai dangosol yn unig.

*Gwybodaeth ansoddol*

1.23 Mae'r wybodaeth ansoddol y cyfeirir ati yn yr adroddiad hwn yn deillio o ddwy brif ffynhonnell: cyfweliadau gyda darparwyr gofal plant ac ymatebion testun agored yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics.

1.24 Cynhaliwyd 12 o gyfweliadau gyda chymysgedd o leoliadau gwarchodwyr plant, gofal dydd, gofal sesiynol, a gofal tu allan i'r ysgol o bob cwr o Gymru. Cyfwelwyd darparwyr o Gaerdydd, Ceredigion, Sir y Fflint, Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot, Sir Gaerfyrddin, Wrecsam

a Rhondda Cynon Taf. Er bod gan y cyfweleion a ddewiswyd nodweddion amrywiol (e.e. o ran lleoliad, math o ddarparwr, maint ayb), nid oedd yn fwriad gennym sicrhau sampl cynrychioliadol o'r boblogaeth o ddarparwyr yng Nghymru. O ganlyniad, mae unrhyw fewnwelediadau a gafwyd drwy gyfweliadau wedi cael eu trin yn ofalus, a cheir cyfeiriadau at wybodaeth ategol lle bo hynny'n bosibl.

1.25 Yn Arolwg Alma Economics, roedd hefyd adrannau lle y gallai ymatebwyr roi sylwadau testun agored. Darparwyd yr opsiwn hwn er mwyn cynnwys sylwadau ynghylch effaith bosibl y cynnig gofal plant a materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol. Er enghraifft, cawsom tua 100 o sylwadau ynglŷn â'r cynnig gofal plant yng Nghymru. Defnyddiwyd y sylwadau hyn ar y cyd â'r cyfweliadau i gael gwell dealltwriaeth o rai o'r materion sy'n dod i'r amlwg yn y sector.

## 2. Cefndir

2.1 Gan gydnabod bod gofal plant yn galluogi rhieni i weithio, yn cefnogi twf economaidd, ac yn helpu i ymdrin â thlodi ac anghydraddoldeb, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gofal plant o ansawdd uchel sy'n hyblyg ac yn fforddiadwy yn flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf (Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2016; Llywodraeth Cymru, 2016a)[11]. Yn arbennig, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i ehangu ei gynnig addysg a gofal plant am ddim ar gyfer rhieni plant 3-4 oed sydd mewn gwaith.

### Addysg blynyddoedd cynnar a chynnig gofal plant

2.2 Fel rhan o'r Cyfnod Sylfaen, mae plant 3-4 oed ar hyn o bryd yn cael o leiaf 10 awr o addysg gynnar am ddim bob wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. Cyflenwir yr hawl drwy farchnad gymysg o leoliadau nas cynhelir (h.y. darparwyr preifat, gwirfoddol ac annibynnol) a lleoliadau a gynhelir (h.y. darparwyr a ariennir gan y wladwriaeth). Yn wahanol i'r Alban a Lloegr, yng Nghymru ceir mynediad at addysg y blynyddoedd cynnar yn amlach trwy leoliadau ysgol a gynhelir yr Awdurdod Lleol (ALl). Yn wir, mewn rhai ALlau, dim ond trwy leoliadau a gynhelir y cyflenwir lleoedd a ariennir (Estyn, 2015). O'r lleoliadau addysg a gynhelir yng Nghymru, mae tua 83% (1321 o ysgolion) yn cynnig addysg blynyddoedd cynnar i blant dan 5[12]. Yn set ddata DHG, mae 16% o'r ymatebwyr (499 o leoliadau) yn darparu gwasanaethau addysg y blynyddoedd cynnar. Mae'r amrywiaeth rhwng ALlau hefyd yn ymestyn i nifer yr oriau a ariennir (h.y. mae rhai ALlau yn darparu mwy na 10 awr ar hyn o bryd) a'r cyfraddau ariannu (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, 2016; Paull a Xu, 2015). Mewn llawer o leoliadau a gynhelir, mae'r oriau yn cael eu cynnig dros bedwar neu bum niwrnod yn y bore neu'r prynhawn, a all greu problemau i rieni

[11] Am fwy o fanylion ar y cefndir polisi, gweler Atodiad 2.

[12] Disgyblion yn ôl ysgol ac oedran y grŵp - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), Gorffennaf 2016

sy'n gweithio gyda danfon a chasglu plant (Evans et al., 2016). Mae tua 93% o blant 3-4 oed yn cael mynediad at rywfaint o ddarpariaeth addysg gynnar mewn ysgolion a gynhelir[13].

2.3 I gefnogi teuluoedd yng Nghymru, ceir ymrwymiad i ddarparu oriau ychwanegol o ofal plant am ddim i blant 3-4 oed. Er bod manylion y polisi yn dal i gael eu llunio, disgwylir y bydd teuluoedd plant 3-4 oed yn gymwys i dderbyn 20 awr o ofal plant am 39 wythnos o'r flwyddyn a 30 awr o ofal plant am 9 wythnos y flwyddyn yn ystod gwyliau'r ysgol, yn ychwanegol at y 10 awr presennol o addysg Cyfnod Sylfaen. Nid yw cael mynediad at oriau’r Cyfnod Sylfaen yn rhagofyniad ar gyfer cael mynediad i'r oriau gofal plant. Er y bydd yr oriau ychwanegol yn cael eu darparu drwy farchnad gymysg, disgwylir i ddarparwyr preifat, gwirfoddol ac annibynnol fod yn gyfrifol am y gyfran fwyaf. Hefyd, bydd mwy o hyblygrwydd yn y modd y ceir mynediad at yr oriau, gyda'r opsiwn o ddefnyddio hyd at ddau leoliad cofrestredig. Awgryma’r cynigion presennol y bydd yr hawl yn cael ei gyfyngu i deuluoedd sy'n gweithio (h.y. rhiant sengl neu'r ddau riant yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar raddfa Cyflog Byw Cenedlaethol), gyda’r un o’r rhieni’n ennill dros £100,000. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid sylweddol i ehangu’r cynnig, gan gynnwys £10 miliwn ar gyfer cynllun peilot mewn 7 ALl yn dechrau yn 2017, a £20 miliwn mewn gwariant cyfalaf fesul blwyddyn o 2018 i 2019 ar gyfer buddsoddi mewn lleoliadau gofal plant (Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 2016)[14].

2.4 I ddeall effaith y cynnig ac i helpu dylunio rhaglen sy’n ddeniadol i’r sector, comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (SPCC) a Frontier Economics. Archwiliodd adroddiad SPCC effaith y cynnydd mewn hawliau plant 3-4 oed yng

[13] Mae'r amcangyfrif crwn hwn yn cymharu nifer y disgyblion 3 a 4 oed a gofnodwyd yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) ar 10 Ionawr 2017 (arolwg o ysgolion a gynhelir yng Nghymru) ac amcanestyniadau canol-blwddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2016. Mae CYBLD 2017 yn cofnodi oed disgyblion ar 31 Awst 2016.

[14] Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â gweithrediad y cynllun peilot yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/childcare/talk-childcare/pilot-areas/?lang=cy

Nghymru a daeth i'r casgliad, gyda'r gofynion cymhwyster gwaith, y byddai'r polisi yn costio tua £53 miliwn i Lywodraeth Cymru (gan gymryd y byddai 87% yn manteisio arno, ar gost cyflenwi o £4 yr awr) i £84 miliwn (gan gymryd y byddai 87% yn manteisio arno, ar gost cyflenwi o £5 yr awr) (Paull a Xu, 2015). Yn ogystal, byddai tua 20,000 o blant yn gymwys i gyfranogi. Fodd bynnag, dywed yr astudiaeth ei bod yn debygol mai bach iawn fydd yr effaith gyffredinol ar leihau tlodi a chyfranogiad mamau yn y gweithlu. Mae hyn oherwydd bod teuluoedd incwm is yn tueddu i wario llai ar ofal plant ffurfiol, a'u bod yn fwy dibynnol ar ofal anffurfiol a ddarperir gan deulu a ffrindiau. Hefyd, awgrymwyd bod angen newid mwy sylweddol o ran incwm i'w gwneud yn werth chweil i famau weithio, gan fod ffactorau eraill yn cael mwy o effaith (e.e. y gwerth a roddir ar ofalu am blant yn uniongyrchol, plant eraill sydd yn dal i fod angen gofal, ayb ). Yn ogystal, bydd unrhyw newid mewn costau gofal plant yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad taliadau o elfen gofal plant y Credyd Cynhwysol a thrwy'r cynllun Gofal Plant Di-Dreth, gan y gallai oriau gofal plant am ddim ychwanegol leihau'r swm a werir ar ofal plant gan rieni.

## Dechrau'n Deg

2.5 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi graddio Dechrau'n Deg yn raddol at i fyny - rhaglen yw hon i gefnogi plant sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Fel rhan o Dechrau'n Deg, mae teuluoedd gyda phlant 2-3 oed sy'n byw mewn ardaloedd targed yn cael mynediad cyffredinol i 12.5 awr o ofal plant yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn a 15 sesiwn o ofal plant hyblyg yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r hawl gofal plant yn rhan o becyn cymorth ehangach sy'n cynnwys datblygiad cynnar iaith, gwell ymweliadau iechyd, a chefnogaeth rhieni. Yn 2016-2017, cafodd 37,628 o blant fudd o'r rhaglen (Ystadegau Cymru, 2017). Yn debyg i'r hen gynnig i blant 3-4 oed, cyflenwir Dechrau'n Deg yn bennaf trwy leoliadau a gynhelir, gyda llai o leoliadau nas cynhelir yn cynnig lleoedd (Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, 2016).

### Y CYNNIG 3-4 OED YN LLOEGR

Gellir dysgu gwersi o gyflwyniad gofal plant am ddim ychwanegol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Bu darparwyr gofal plant a gwneuthurwyr polisi yn dilyn datblygiadau yn Lloegr oherwydd, er gwaethaf y gwahaniaethau yn y farchnad gofal plant, mae heriau gweithredu tebyg i'w hwynebu, yn enwedig o ran cyfraddau ariannu a hyrwyddo darpariaeth gynaliadwy.

Cefndir: O fis Medi 2017 bydd plant 3-4 oed yn Lloegr â hawl i 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim am 38 wythnos y flwyddyn. Bydd y hawl ar gael i deuluoedd lle mae'r ddau riant neu un rhiant (mewn cartrefi un rhiant) yn gweithio o leiaf yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu Gyflog Byw, ond gyda llai na £100,000 o incwm trethadwy (Yr Adran Addysg, 2017). Bydd rhieni nad ydynt yn bodloni'r gofynion cymhwysedd hyn yn dal i allu cael mynediad at y 570 awr o addysg gynnar am ddim neu ofal plant y flwyddyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd. Fel arfer, mae'r cynnig presennol yn Lloegr yn cael ei gymryd fel 15 awr yr wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. Cychwynnodd rhaglenni peilot ar gyfer y cynnig newydd ym mis Medi 2016 yn Swydd Hertford, Newham, Northumberland, Portsmouth, Swydd Stafford, Swindon, Wigan ac Efrog.

Mewnwelediad cychwynnol: Cyhoeddwyd y gwerthusiad swyddogol o'r rhaglen beilot yn Lloegr ym mis Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiadau rhagarweiniol yn rhoi syniad o rai heriau gweithredu a wynebir gan y rhaglenni peilot. Er enghraifft, yn Efrog, lle'r ehangwyd y cynllun peilot i bob darparwr a phlant cymwys, roedd y gyfradd ariannu peilot i ddechrau yn £3.95 am y 15 awr ychwanegol, ond parhaodd i gael ei hariannu ar £3.38 am y 15 awr gyntaf (Gaunt, 2016). Teimlai rhai bod y strwythur cyfraddau ariannu isel a chodi tâl anghyson yn anghynaliadwy ac yn ddiangen o gymhleth. Ar ôl ymgynghori â'r sector, cytunodd Cyngor Dinas Efrog a'r Adran Addysg i gynyddu'r gyfradd ariannu i £4 yr awr am bob 30 awr. Hefyd er mwyn gwella cynaliadwyedd, bu rhai lleoliadau yn codi tâl ar rieni am bethau ychwanegol, fel prydau bwyd a thripiau. Gall y materion sy'n deillio o'r cynlluniau peilot hyn roi syniad o rai o'r heriau a'r cyfleoedd a ddisgwylir.

# 3. Asesiad Economaidd

3.1 Yn yr adran hon rydym yn edrych ar werth economaidd y sector gofal plant yng Nghymru drwy archwilio effeithiau uniongyrchol (h.y. cyflogaeth yn y sector gofal plant ac incwm a enillir gan y rhai yn y sector gofal plant) ac effeithiau anuniongyrchol (h.y. cyflogaeth ac incwm a enillir gan y rhai sy'n defnyddio gofal plant er mwyn gweithio).

**Effeithiau Uniongyrchol**

3.2 Mae diffinio'r sector gofal plant yn fwy heriol nag yr ymddengys ar yr olwg gyntaf. Mae'r llinell rhwng addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn aml yn aneglur a gellir ei defnyddio yn gydgyfnewidiol mewn rhai cyd-destunau. At ddibenion yr adroddiad hwn, dynodir y sector gofal plant fel lleoliadau sydd wedi cofrestru gydag AGGCC sy'n gofalu am blant o dan 12 oed (gweler Atodiad 1 am ddiffiniadau mwy manwl o bob math o leoliad). Fodd bynnag, dylid nodi bod gan y diffiniad hwn gyfyngiadau gan nad oes angen i rai lleoliadau gofal plant gael eu cofrestru gydag AGGCC (er enghraifft, os yw gwarchodwyr plant yn darparu gofal am lai na 2 awr y dydd, neu fathau eraill o ofal plant anffurfiol).

3.3 Y ffynhonnell allweddol o wybodaeth am leoliadau cofrestredig yw set ddata Datganiad Hunansesu Gwasanaeth (DHG) yr AGGCC. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae’r wybodaeth a ddarperir gan DHG naill ai'n anghyflawn neu annibynadwy. O ganlyniad, defnyddiwyd ffynonellau eraill o wybodaeth hefyd er mwyn pontio'r bylchau gwybodaeth, gan gynnwys Arolwg Gofal Plant Alma Economics a’r Arolwg o’r Llafurlu. Dosbarthwyd Arolwg Gofal Plant Alma Economics i leoliadau wedi cofrestru ag AGGCC.

3.4 Mae gan yr Arolwg o’r Llafurlu sylfaen sampl gwahanol a gall roi golwg wahanol ar y sector gofal plant. Wrth edrych ar y set ddata, nodwyd tri dull o ynysu'r sector gofal plant:

I. Dosbarthiad sail diwydiannol: Mae'r dosbarthiad hwn yn seiliedig ar Ddosbarthiad Diwydiannol Safonol (DDS) y sefydliad y mae person yn gweithio iddo (p'un ai fel gweithiwr neu'n hunangyflogedig). Ar gyfer gofal plant, y ddau gategori DDS mwyaf perthnasol yw 'addysg cyn-gynradd' a 'gweithgareddau gofal dydd plant'. Mae'r dosbarthiad yn ein galluogi i adnabod gweithwyr megis gofalwyr plant a nyrsys meithrin sy'n gweithio yn y sector, ochr yn ochr â gweithwyr mewn rolau ategol (e.e. staff cegin ac arlwyo, staff ysgrifenyddol, ayb.)

II. Dosbarthiad sail galwedigaeth: Mae'r dosbarthiad hwn yn seiliedig ar ddosbarthiad galwedigaeth yr ymatebwyr i'r AoLl. Yn y cyd-destun hwn, mae ein cwmpas yn gyfyngedig i'r prif alwedigaethau canlynol: 'nyrsys meithrin a chynorthwywyr', 'gwarchodwyr plant a galwedigaethau cysylltiedig', a 'gweithwyr chwarae', waeth beth fo DDS yr endid y maent yn gweithio iddo.

III. Dosbarthiad ehangach: Tra bo gorgyffwrdd sylweddol rhwng y ddau ddosbarthiad, ceir hefyd nifer o bobl sydd ond yn perthyn i un dosbarthiad yn unig, nid y llall. Er enghraifft, nid yw'r diffiniad sail galwedigaeth yn cynnwys staff cymorth sy'n gweithio yn y sector (e.e. cogyddion meithrin), ac nid yw'r diffiniad sail diwydiannol yn cynnwys pobl sy'n gweithio i gyflogwr nad yw'n ddarparwr gofal plant yn bennaf, hyd yn oed os ydynt yn mewn galwedigaeth sy'n gysylltiedig â'r sector gofal plant (e.e. nyrsys meithrin, gwarchodwyr plant). Efallai mai un enghraifft fyddai canolfan gofal dydd a redir gan gyflogwr, neu crèche sy'n gweithio allan o westy, neu hyd yn oed ysgol gynradd sydd hefyd yn cyflwyno addysg cyn-gynradd ond yn cael ei ddosbarthu fel sefydliad 'addysg gynradd' at ddibenion AoLl. O ganlyniad, rydym hefyd yn cyflwyno dadansoddiad o safbwynt 'ehangach'; mae hwn yn ystyried y dosbarthiad dosbarthiad sail sector a'r dosbarthiad sail galwedigaeth.

3.5 Yn achos yr holl ddosbarthiadau, mae'n werth nodi mai dim ond ar brif swydd yr ymatebwyr yr ydym yn ffocysu, yn hytrach nag unrhyw swyddi ategol. Nid yw'r dosbarthiadau yn cyd-fynd yn llwyr â'r dosbarthiad a ddefnyddir gan AGGCC i adnabod y sector gofal plant. Fodd bynnag,

gall dadansoddiad o'r AoLl ddal i ddarparu mewnwelediad defnyddiol mewn rhai ardaloedd.

## Gweithwyr yn y sector Gofal Plant

3.6 Mae'r DHG yn cynnwys gwybodaeth am nifer yr aelodau o staff ym mhob lleoliad gofal plant cofrestredig, gan gynnwys gwarchodwyr plant. Yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn ffurflenni 2016, gellir amcangyfrif bod cyfanswm nifer y staff mewn lleoliadau cofrestredig tua 17,300[15]. Fodd bynnag, dylid tynnu sylw at y ffaith nad yw'r nifer hwn yn cynnwys gweithwyr mewn lleoliadau a gynhelir sydd ond yn darparu addysg, neu leoliadau blynyddoedd cynnar nad oes angen iddynt gofrestru gydag AGGCC.

3.7 Yn y cynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru, amcangyfrifodd Dallimore yn 2012 bod tua 23,300 o bobl yn gweithio ym maes gofal plant a lleoliadau Cyfnod Sylfaen yng Nghymru (yn cynnwys tua 5,800 o gynorthwywyr dosbarth y Cyfnod Sylfaen) (Llywodraeth Cymru, 2014).

3.8 Defnyddiwyd y data AoLl i ddeall proffil y gweithwyr hyn a'r math o ddiwydiannau y maent yn gweithio ynddynt. Fel yr amlinellwyd yn Nhabl 2, wrth archwilio dosbarthiad galwedigaethau, gwelir bod tua dwy ran o dair o'r gweithwyr yn nyrsys meithrin a chynorthwywyr. Hefyd mae tua 5,050 o unigolion yn gweithio yn y diwydiant addysg cyn-gynradd.

[15] DHG 2016 - data ar lefel cyfanredol. Noda set ddata DHG bod yna 13,143 o staff, yn seiliedig ar gyfradd ymateb o tua 76%. O allosod hyn i'r sector cyfan, rydym yn amcangyfrif bod cyfanswm nifer y staff tua 17,300.

**Tabl 2.** Nifer o unigolion yn gweithio yn y sector gofal plant yng Nghymru[16]

| Categori | Cyfanswm nifer |
|---|---|
| Dosbarthiad sail diwydiannol<br>Addysg cyn-gynradd[17]<br>Gweithgareddau gofal dydd plant [18] | 13,600<br>(5,050)<br>(8,500) |
| Dosbarthiad sail galwedigaeth<br>Nyrsys a chynorthwywyr meithrin<br>Gwarchodwyr plant a galwedigaethau cysylltiedig<br>Gweithwyr chwarae | 14,100<br>(9,150)<br>(2,750)<br>(2,200) |
| Dosbarthiad ehangach<br>(un ai sail sector neu sail galwedigaeth) | 18,000 |

3.9 Ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu Mawrth 2017, roedd y gweithlu gweithgar yng Nghymru rhwng 16 a 64 oed yn cynnwys tua 1,423,000 o unigolion[19]. O ganlyniad, ar sail data DHG, gallwn amcangyfrif bod gweithwyr mewn lleoliadau gofal plant, gan gynnwys gwarchodwyr plant, yn cyfrif am tua 1.2% o'r gweithlu yng Nghymru. Os edrychir ar y ffigyrau a adroddwyd gan Dallimore yn 2012, sy'n cynnwys cynorthwywyr Cyfnod Sylfaen, ac yn defnyddio'r amcangyfrif gweithgarwch economaidd perthnasol o'r amser hwnnw, mae gweithwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar yn cyfrif am tua 1.7% o'r gweithlu.

[16] Arolwg o'r Llafurlu, Ionawr – Rhagfyr 2016. Noder bod y ffigyrau hyn wedi'u haddasu i fod yn gynrychioladol o'r sector yn ei gyfanrwydd.

[17] Mae'r galwedigaethau sy'n dod o fewn y categori hwn yn cynnwys nyrsys a chynorthwywyr meithrin (3,700), cynorthwywyr addysgu (1,160) a chynorthwywyr cymorth addysg (160).

[18] Mae'r galwedigaethau sy'n dod o fewn y categori hwn yn cynnwys – nyrsys a chynorthwywyr meithrin (2,900), gwarchodwyr plant a galwedigaethau cysylltiedig (1,600), gweithwyr chwarae (1,450) ac eraill (gan gynnwys rhieni tŷ a wardeniaid preswyl, athrawon a gweithwyr proffesiynol addysgol eraill, galwedigaethau gwasanaeth cwsmeriaid, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal a gofalwyr cartref, nyrsys cynorthwyol a chynorthwywyr, a chynorthwywyr cegin ac arlwyo) (2,600). Mae pob rhif uchod yn cynrychioli unigolyn unigryw – h.y. at ddibenion dosbarthu, nid yw'n bosibl iwarchodwr plant, dyweder, hefyd fod yn weithiwr chwarae, neu i rywun weithio mewn dau sector. Mae ymatebwyr i'r AoLl yn dewis yr un sy'n gweddu orau i'w prif swydd.

[19] Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Crynodeb o Weithgarwch Economaidd blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017.

3.10 Er mwyn darparu rhywfaint o gyd-destun, mae hyn yn debyg yn fras i gyfran Lloegr. Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2017, roedd y gweithlu gweithgar yn Lloegr rhwng 16 a 64 oed yn cynnwys tua 27,044,400 o unigolion[20]. Amcangyfrifodd yr Arolwg Darparwyr Gofal Plant yn Lloegr 2016 bod 452,100 o staff blynyddoedd cynnar a gofal plant staff yn Lloegr, gan gynnwys 83,400 o staff derbyn. O ganlyniad, mae gweithwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar yn cyfrif am 1.7% o'r gweithlu yn Lloegr. Os eithrir y staff derbyn, mae'r ffigwr hwn yn nes at 1.4%.

*Strwythur cyflogaeth*

3.11 Mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal plant yn fusnesau bach neu'n weithredwyr hunangyflogedig. Cyflogir yn agos at hanner gweithwyr y sector mewn gweithleoedd gyda 1 i 10 o bobl. Ychydig o weithwyr gofal plant mewn cymhariaeth sydd yn cael eu cyflogi mewn gweithleoedd sydd â mwy na 50 o weithwyr.

[20] Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Crynodeb o Weithgarwch Economaidd blwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017


**Tabl 3.** Nifer o weithwyr (gan gynnwys hunangyflogedig) yn y gweithle yn ôl dosbarthiad AoLl[21]

| Nifer o weithwyr yn y gweithle *(gan gynnwys hunangyflogedig)* | *Dosbarthiad sail sector* | | *Dosbarthiad sail galwedigaeth* | | *Dosbarthiad ehangach (un ai sail sector neu sail galwedigaeth)* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 1-10 | 7,100 | 52% | 5,700 | 41% | 8,200 | 46% |
| 11-19 | 2,500 | 18% | 2,900 | 21% | 2,900 | 16% |
| 20-24 | 600 | 4% | 830 | 6% | 1,200 | 7% |
| 25-49 | 1,400 | 10% | 2,300 | 16% | 2,500 | 14% |
| 50-249 | 700 | 5% | - | - | 700 | 4% |
| Ddim yn gwybod, ond rhwng 50 - 499 | 130 | 1% | - | - | 130 | 1% |
| Ddim yn gwybod, ond dan 25 | 350 | 3% | 350 | 2% | 350 | 2% |
| Amherthnasol | 800 | 6% | 2,000 | 14% | 2,000 | 11% |

3.12 Mae'r set ddata DHG lefel unigol yn rhoi gwybodaeth am nifer y staff a gyflogir yn ôl y math o leoliad gofal plant. Mae lleoliadau gofal dydd llawn yn cyflogi tua hanner yr holl unigolion sy'n gweithio yn y sector gofal plant yng Nghymru. Gofal dydd sesiynol yw'r cyflogwr nesaf o ran maint yn y sector gofal plant yng Nghymru.

[21] Arolwg o’r Llafurlu, Ionawr – Rhagfyr 2016. Noder bod y ffigyrau hyn wedi’u haddasu i fod yn gynrychioladol o’r sector yn ei gyfanrwydd.

**Siart 1.** Gweithwyr gofal plant yn ôl math o leoliad[22]





3.13 Mae'r rhan fwyaf o weithwyr yn y sector gofal plant yn gweithio'n rhan-amser (llai na 35 awr yr wythnos) mewn wythnos gyfartalog. Nododd y darparwyr yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics[23] a ymatebodd i'r cwestiwn hwn bod oddeutu 20% o staff (ac eithrio'r hunangyflogedig) yn gweithio 35 awr neu fwy mewn wythnos gyfartalog yn ystod y tymor. Yn ystod y gwyliau, adroddwyd bod y gyfran o weithwyr sy'n gweithio dros 35 awr ychydig yn uwch nag yn ystod y tymor. Mae'n debygol mai'r oriau hirach o ofal sydd ei angen sy'n dylanwadu ar yr anghysondeb hwn, oherwydd absenoldeb oriau ysgol, a llai o alw am wasanaethau.

[22] DHG 2016 - data ar lefel cyfanredol. Noder bod y ffigyrau hyn wedi'u haddasu i fod yn gynrychioladol o'r sector yn ei gyfanrwydd; gweler yr adran fethodoleg am fwy o fanylion.

[23] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

**Siart 2.** Canran y gweithwyr sy'n gweithio llawn-amser a rhan-amser (ac eithrio gwarchodwyr plant)[24]




3.14 Yn ein sgyrsiau â darparwyr gofal plant, nododd nifer o gyflogwyr bod cynyddu costau staff (yn enwedig yn ymwneud â’r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r cynllun cofrestru pensiwn awtomatig) yn golygu bod contractau rhan-amser a chontractau oriau sero ar gynnydd. Gwelir bod y contractau hyblyg hyn yn galluogi darparwyr i reoli presenoldeb anghyson ac ymylon tynn yn fwy effeithiol, yn enwedig yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn ogystal, clywsom mewn cyfweliadau fod rhai darparwyr wedi cynyddu cyflogau, ond wedi gostwng oriau gwaith er mwyn cadw staff mwy profiadol. Er enghraifft, soniodd un darparwr ei fod wedi cyflwyno strwythur ffioedd newydd sy'n cynnig cyfraddau gostyngol i rieni am gasglu eu plant ynghynt, a oedd yn golygu y gallai

---

[24] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 302 responses. Ni chynhwyswyd gwarchodwyr plant oherwydd eu bod yn tueddu i fod yn hunangyflogedig - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

staff â chymwysterau uwch weithio gallai llai o oriau ac y gellid parhau i gynnal cymarebau staffio gan ddefnyddio staff llai cymwys gyda chyfraddau is fesul awr. Er bod y wybodaeth hon yn anecdotaidd, gall fod yn arwydd o duedd sy'n dod i'r amlwg ac mae angen ymcwhil pellach ar sut y bydd CBC yn effeithio ar gyflogaeth yn y sector gofal plant yng Nghymru.

*Lefelau cymwysterau*

3.15 Gan ddefnyddio data DHG, rydym yn amcangyfrif bod tua 60% o staff gofal plant gyda Chymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) Lefel 3. Er bod gan y rhan fwyaf o'r gweithlu NVQ, ychydig iawn sydd â chymhwyster uwch na Lefel 6.

**Tabl 4.** Cymwysterau NVQ – staff yn gweithio mewn lleoliadau gofal plant[25]

| | Nifer amcangyfrifiedig o staff yn dal bob lefel cymhwyster | Canran o staff yn dal bob lefel o gymhwyster |
|---|---|---|
| NVQ Lefel 1 | 100 | 1% |
| NVQ Lefel 2 | 1,700 | 10% |
| NVQ Lefel 3 | 10,000 | 58% |
| NVQ Lefel 4 | 700 | 4% |
| NVQ Lefel 5 | 1,600 | 9% |
| NVQ Lefel 6 | 750 | 4% |
| NVQ Lefel 7 | 170 | 1% |
| NVQ Lefel 8 | * | 0% |
| Heb nodi | 1,800 | 11% |
| Dim | 400 | 2% |

[25] DHG 2016 – Data cyfanredol. * Yn dynodi gwerth sy’n is na 5 a ataliwyd er preifatrwydd. Gan fod y gyfradd ymateb ar gyfer y set ddata DHG tua 76 y cant, mae'r data wedi cael ei addasu i roi amcangyfrif ar gyfer yr holl ddarparwyr gofal plant.

3.16 Yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics[26], gofynnwyd yn benodol am gymwysterau Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant (GDDP) i ddeall p'un a yw'r lefelau cymwysterau a nodwyd yn Nhabl 4 yn berthnasol i'r sector gofal plant. Roedd y canfyddiadau yn gyffredinol gyson. Mae gan tua 60% o weithwyr darparwyr a ymatebodd i'r arolwg gymhwyster Lefel 3 GDDP fel eu cymhwyster uchaf. Dangosodd canfyddiadau'r arolwg fod tri chwarter y sector â chymhwyster Lefel 3 GDDP ac uwch. Dim ond 7% o weithwyr oedd â chymwysterau amherthnasol i'r sector gofal plant. Roedd y rhan fwyaf o weithwyr oedd â Lefel 6 GDDP yn cael eu cyflogi mewn lleoliadau gofal dydd llawn.

**Tabl 5.** Cymwysterau GDDP yn y sector gofal plant [27]

| | Canran amcangyfrifiedig o staff gyda phob cymhwyster |
|---|---|
| GDDP - Lefel 2 | 13% |
| GDDP - Lefel 3 | 59% |
| GDDP - Lefel 4 | 5% |
| GDDP - Lefel 5 | 11% |
| GDDP - Lefel 6 | 1% |
| Cymhwyster arall | 7% |
| Anhysbys | 4% |

3.17 Mae ennill cymwysterau yn y sector gofal plant wedi bod yn cynyddu dros y ddegawd ddiwethaf yng Nghymru. Er enghraifft, mewn arolwg Gweithlu Blynyddoedd Cynnar a gynhaliwyd yn 2010, dim ond 52% o

[26] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[27] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Gan ddefnyddio ein sampl cyfrifiwyd y cyfartaledd ar gyfer y sampl a'i luosi gan gyfanswm y boblogaeth. Maint y sampl – 301 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

weithwyr a gofnodwyd â chymhwyster Lefel 3 (Cyngor Gofal Cymru, 2010). Erbyn 2014, roedd tua 57% o weithwyr yn dal cymhwyster Lefel 3 (Cyngor Gofal Cymru, 2014).

*Cadw a recriwtio gweithwyr*


3.18 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata AoLl, mae tua 40% o weithwyr yn y sector gofal plant wedi bod gyda'r un cyflogwr am bum mlynedd neu fwy, ac o gwmpas 75% gyda'r un cyflogwr am fwy na dwy flynedd. Mae tua un o bob pump o weithwyr wedi bod gyda'u cyflogwr presennol am lai na 6 mis.

**Tabl 6.** Hyd yr amser gyda'r cyflogwr presennol yn ôl dosbarthiad AoLl[28]

| Cyfnod amser | *Dosbarthiad sail galwedigaeth* | | *Dosbarthiad sail sector* | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Llai na 3 mis | 600 | 4% | 800 | 6% |
| 3 mis, llai na 6 | 600 | 4% | 700 | 5% |
| 6 mis, llai na 12 | 1,600 | 11% | 1,000 | 7% |
| 1 flwyddyn, llai na 2 | 1,000 | 7% | 600 | 5% |
| 2 flynedd, llai na 5 | 4,300 | 31% | 4,800 | 35% |
| 5 mlynedd, llai na 10 | 2,100 | 15% | 2,900 | 21% |
| 10 mlynedd, llai na 20 | 2,300 | 16% | 1,200 | 9% |
| 20 mlynedd neu fwy | 1,700 | 12% | 1,600 | 12% |

[28] Arolwg o'r Llafurlu, Ionawr – Rhagfyr 2016

**Siart 3.** Amcangyfrif o weithwyr yn cael eu recriwtio ac yn gadael – Ebrill 2015 i fis Mawrth 2016[29]




3.19 Casglodd Arolwg Gofal Plant Alma Economics[30] wybodaeth am y nifer a recriwtiwyd a’r nifer a adawodd y sector dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn gyffredinol, recriwtiodd y lleoliadau fwy o unigolion nag a adawodd. Y lleoliadau gofal tu allan i’r ysgol  a ddangosodd y cynnydd cyfrannol mwyaf mewn staff yn y flwyddyn ddiwethaf, fel y dangosir yn Nhabl 7.

[29] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Mae'r ffigyrau wedi cael eu haddasu i gynrychioli'r sector yn ei gyfanrwydd. Oherwydd meintiau sampl cyfyngedig, yr ydym wedi eu eithrio lleoliadau crèche, gwarchodwyr plant a lleoliadau darpariaeth chwarae mynediad agored. Dim ond cyfran fechan o warchodwyr plant sydd ag aelodau staff, felly ychydig iawn o ymatebion gawsom ni ganddynt. Maint y sampl – 300 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[30] Mae’r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

**Tabl 7.** Cymhareb y nifer a gyflogir o’r newydd i’r nifer sy’n gadael – Ebrill 2015 i fis Mawrth 2016[31]

| | Cymhareb amcangyfrifiedig o weithwyr yn gadael i’r nifer sy’n cael eu recriwtio |
|---|---|
| Gofal plant tu allan i’r ysgol | 1.7 |
| Gofal dydd llawn | 1.6 |
| Gofal sesiynol | 1.5 |

3.20 Nododd bron i chwarter yr ymatebwyr a oedd â gweithiwr wedi ymadael bod y gweithiwr dan sylw wedi mynd i weithio mewn sector ar wahân i ofal plant[32]. Bu colli staff i leoliadau addysg yn broblem barhaus ar gyfer y sector gofal plant (CGMD, 2017). Yn ein cyfweliadau â darparwyr gofal plant, ffactorau a gyfrannodd at i staff ymadael oedd, ymhlith eraill, cyfraddau cyflog, oriau gwaith a bwlch statws canfyddedig rhwng y sectorau addysg a gofal plant. Nododd rhai darparwyr rwystredigaeth bod anghysondeb yn parhau rhwng statws ymarferwyr addysg a gofal plant, er gwaethaf cynyddu lefelau cymwysterau a phroffesiynoldeb y sector gofal plant.

3.21 Hefyd roedd rhai darparwyr a gyfwelwyd fel rhan o'r ymchwil â chanfyddiad bod heriau penodol yn ymwneud â chadw aelodau staff iau, yn benodol graddedigion newydd. Roedd oriau gwaith cyfyngedig, diffyg contractau parhaol a chyfraddau cyflog isel yn faterion a oedd yn effeithio ar gadw pobl ifanc. Teimlai rhai darparwyr hefyd bod recriwtiaid newydd nad oedd ganddynt ddigon o brofiad ymarferol yn ei chael yn anodd addasu i'r amgylchedd gwaith, sydd yn aml yn feichus.

[31] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Cafwyd y gymhareb trwy ddefnyddio’r data yn Siart 3 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[32] Arolwg Gofal Plant Alma Economics Maint 2017. Sampl - 288 - mae’r ffigyrau yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

Mae angen ymchwil pellach i ddeall i ba raddau y mae'r materion hyn yn bodoli ar draws Cymru.

3.22 Nododd y lleoliadau cyfrwng Cymraeg a gyfwelwyd gennym fod recriwtio staff cymwys gyda'r sgiliau iaith Gymraeg angenrheidiol yn arbennig o heriol. Fel y trafodir yn fanylach ym Mhennod 4, gyda'r ehangu a ddisgwylir mewn darpariaeth Gymraeg, bydd hyn yn debygol o ddod yn fater pwysicach yn y dyfodol. Nid yw tua 55% o weithwyr sy'n gweithio mewn galwedigaethau sy'n gysylltiedig â gofal plant yn siarad Cymraeg, a dim ond 27% sy'n siarad Cymraeg yn ddyddiol[33].

3.23 Roedd tua un rhan o dair o ymatebwyr yr arolwg yn ei chael yn anodd recriwtio staff â chymwysterau lefel Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 2 neu Lefel 3 llawn. Mewn rhai achosion, dywedodd ymatebwyr bod rhaglenni prentisiaeth wedi helpu gyda recriwtio ar gyfer swyddi Lefel 2 a Lefel 3, ond mae materion y tynnwyd sylw atynt yn flaenorol o safbwynt dechreuwyr newydd a gofynion sector ac iaith, ochr yn ochr â ffactorau daearyddol penodol, yn creu heriau recriwtio i ddarparwyr.

3.24 Mae angen ymchwil pellach i nodi heriau penodol sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff mewn tirwedd sy'n esblygu'n gyflym.

*Prentisiaethau*

3.25 Yn seiliedig ar ymatebion i Arolwg Gofal Plant Alma Economics, rydym yn amcangyfrif bod gan tua 14% o'r holl leoliadau gofal plant ar hyn o bryd brentisiaid neu hyfforddeion[34]. Lleoliadau gofal dydd llawn sy'n cymryd y nifer fwyaf o brentisiaid neu hyfforddeion, gyda lleoliadau gofal tu allan i'r ysgol yn dilyn.

[33] Arolwg o'r Llafurlu, Ionawr – Rhagfyr 2016, seiliedig ar ddiffiniad sail-galwedigaeth.

[34] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 301 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

3.26 Awgryma data arolwg AoLl bod tua 10% o'r gweithlu gofal plant wedi cwblhau prentisiaeth ganolradd neu uwch[35].

*Graddfeydd cyflog i weithwyr*

3.27 Hefyd mae Arolwg Gofal Plant Alma Economics[36] yn darparu mewnwelediad i raddfeydd cyflog gweithwyr yn y sector gofal plant. Amcangyfrifir bod ychydig dros hanner y staff mewn lleoliadau gofal plant yn ennill cyflog gros fesul awr o rhwng £7.01 a £8.00. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC), a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2016. Mae CBC Ebrill 2017 yn gosod isafswm cyflog fesul awr o £7.50 i weithwyr 25 oed a throsodd. Mae cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn dal yn berthnasol i weithwyr o dan 25.[37] Amcangyfrifa Arolwg Gofal Plant Alma Economics bod tua 17% o'r sector yn ennill llai na £7.00 yr awr gros. Mae'r gweithwyr a gynhwysir yn braced hwn yn debygol o fod yn wirfoddolwyr, prentisiaid a gweithwyr o dan 25 oed. Mae dadansoddiad o ddata AoLl yn awgrymu bod tua 30% o'r gweithlu o dan 25[35].

3.28 Amcangyfrifa Arolwg Gofal Plant Alma Economics[36] mai dim ond 12% o staff sy'n ennill mwy na £9.00 yr awr gros, sy'n awgrymu nid yn unig bod y sector gofal plant yn sector cyflog isel, ond hefyd bod cynlluniau i gynyddu'r CBC i £9.00 erbyn 2020 yn debygol o gael effaith fawr. Trafodir y materion hyn yn fanylach yn yr adran dadansoddiad darparwyr.

3.29 Yn ddiddorol, awgryma'r data AoLl bod cyfran uwch o weithwyr yn ennill llai na'r trothwy CBC o gymharu â chanlyniadau'r arolwg.

[35] Arolwg o'r Llafurlu, Ionawr – Rhagfyr 2016.

[36] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[37] Cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o fis Ebrill 2017: £7.05 i weithwyr 21 a 24 oed; £5.60 i weithwyr 18 i 20 oed; £4.05 i weithwyr o dan 18 oed a £3.50 i brentisiaid.

**Tabl 8.** Amcangyfrif o raddfeydd cyflog staff yn y sector gofal plant, ac eithrio’r hunangyflogedig[38]

| Graddfa gyflog *(fesul awr gros)* | Canran y staff |
|---|---|
| Llai na £5.00 | 3% |
| £5.00 - £6.00 | 4% |
| £6.01 - £7.00 | 10% |
| £7.01 - £8.00 | 56% |
| £8.01 - £9.00 | 16% |
| £9.01 - £10.00 | 6% |
| £10.01 - £25.00 | 6% |
| £25.00 - £40.00 | 0% |
| £40.00 + | 0% |

**Tabl 9.** Cyflog gros fesul awr i weithwyr yn unig[39]

| Band cyflog | Dosbarthiad sail galwedigaeth | Dosbarthiad sail sector | Diffiniad ehangach (*Un ai dosbarthiad sector neu alwedigaeth)* |
|---|---|---|---|
| Llai na £5 | 3% | 10% | 10% |
| £5 - £6 | 24% | 29% | 20% |
| £6.01 - £7 | 18% | 20% | 21% |
| £7.01 - £8 | 25% | 23% | 21% |
| £8.01 - £9 | 10% | 4% | 8% |
| £9.01 - £10 | 5% | 0% | 4% |
| £10.01 - £11 | 11% | 6% | 10% |
| £11.01 - £12 | 4% | 4% | 3% |
| Mwy na £12 | 0% | 4% | 3% |

[38] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Mae’r canlyniadau yn eithrio’r hunangyflogedig oherwydd bod y canfyddiad o gyflog yn wahanol i warchodwyr plant (e.e. efallai na fydd rhai yn ystyried eu helw yn gyflog) - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[39] Arolwg o’r Llafurlu, Ionawr – Rhagfyr 2016. Noder bod AoLl yn cofnodi manylion incwm i weithwyr yn unig, ac eithrio’r hunangyflogedig, ac ar ben hynny bod nifer o weithwyr wedi dewis peidio ag ymateb i’r cwestiynau incwm - felly dylid ystyried y ffigyrau fel rhai dangosol.

3.30 Awgryma dadansoddiad yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant bod 20,000 o weithwyr meithrin yn cael eu talu dan lefel yr isafswm cyflog cyfreithiol yn Lloegr (Jarvie, 2017). Nid oes fawr o dystiolaeth sy'n benodol i Gymru ar y materion hyn, felly mae angen ymchwiliad manylach i ddeall y graddau y mae tandaliad yn berthnasol i'r sector gofal plant yng Nghymru.

3.31 Mae'n ddiddorol nodi, yn seiliedig ar yr arolwg AoLl, bod gweithwyr sydd â chymwysterau NVQ Lefel 2 yn derbyn tua'r un cyflog gros yr awr â’r rhai sydd â chymwysterau NVQ Lefel 3, a hyd yn oed y rhai sydd ag NVQ Lefel 4 ac uwch: mae’r tri grŵp yn ennill rhwng £7.10 a £7.60 yr awr ar gyfartaledd. Fodd bynnag, roedd y rheiny â chymwysterau is na NVQ Lefel 2, yn ennill llawer llai na hynny ar gyfartaledd - £3.60 yr awr. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o weithwyr yn y sector heb o leiaf cymhwyster Lefel 2 yn ifanc a gyda phrofiad gwaith cyfyngedig.

*Incwm staff cyffredinol yn y sector gofal plant*

3.32 Yn seiliedig ar Arolwg Gofal Plant Alma Economics, cyfanswm yr amcangyfrifiad gwariant ar gostau staff yn 2015-2016 oedd tua £125 miliwn[40]. Fodd bynnag, mae gan y ffigwr hwn ddau gyfyngiad allweddol: i) ni chawsom unrhyw ddata cost o crèches ac ychydig iawn o leoliadau chwarae mynediad agored, er y dylid nodi mai ychydig iawn o'r darparwyr hyn sydd yn y sector yn y lle cyntaf, a ii) mae’r data a dderbyniwyd gan warchodwyr plant yn anghyson ac ni wnaeth llawer ohonynt gynnwys eu hincwm personol mewn costau staff. Gan ystyried y ffactorau hyn, mae’n debygol bod hwn yn amcangyfrif rhy isel. Amcangyfrifa'r arolwg bod lleoliadau gofal dydd llawn yn gwario llawer mwy ar gostau staff na mathau eraill o ddarparwyr, gan gyfrif am tua 70% o'r swm cyffredinol a werir ar staff yng Nghymru.

[40] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Mae’r data wedi cael ei addasu i fod yn gynrychioliadol o’r sector gofal plant yn ei gyfanrwydd. Maint sampl – 164 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

**Tabl 10.** Amcangyfrif o gostau staff blynyddol (cyfanswm sector) yn ôl math o leoliad[41]

| Math o leoliad | Cyfanswm costau staff |
|---|---|
| Gwarchodwyr plant | £3,900,000 |
| Gofal dydd llawn | £88,400,000 |
| Gofal Tu Allan i’r Ysgol | £8,600,000 |
| Gofal sesiynol | £22,300,000 |

3.33 Er mwyn gosod y ffigwr hwn yn ei gyd-destun, rydym yn amcangyfrif o Arolwg Gofal Plant Alma Economics[42] bod tua £190 miliwn wedi ei wario yn 2015-2016 ar gostau gweithredu (gan gynnwys costau staffio, cyfleustodau, rhent, glanhau, hyfforddi, arlwyo ac offer) gan y sector gofal plant yng Nghymru. Yn ogystal, rydym yn amcangyfrif bod gwarchodwyr plant, lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal sesiynol wedi derbyn tua £195 miliwn mewn incwm yn 2015-2016[43]. Archwilir y ffigyrau hyn yn fanylach yn Adran 5.

## Effeithiau Anuniongyrchol

3.34 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr incwm o gyflogaeth aelwydydd sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol, ac mae'n seiliedig ar ddata diweddaraf AAT (2015-16).

3.35 Mae dwy ystyriaeth bwysig ar gyfer y dadansoddiad hwn. Yn gyntaf, mae'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn rhoi cipolwg ar y farchnad lafur

[41] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Mae’r data wedi cael ei addasu i fod yn gynrychioliadol o’r sector gofal plant yn ei gyfanrwydd. Maint sampl – 164 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[42] Mae’r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[43] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys yr incwm amcangyfrifedig o warchodwyr plant, darparwyr gofal dydd llawn, gofal sesiynol yn ogystal â darparwyr tu allan i’r ysgol. Maint sampl – 151 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

ar adeg benodol mewn amser, ac nid ydynt yn dal effeithiau deinamig. Er enghraifft, mae unigolyn a adawodd y farchnad lafur am nifer o flynyddoedd yn y gorffennol i fagu eu plant yn ôl pob tebyg yn ennill cyflog is heddiw nag y byddent gyda mwy o brofiad - felly er eu bod bellach yn ôl yn y gweithlu ac nad yw eu plant bellach yn ddibynnol, mae eu hanes cyflogaeth yn y gorffennol yn dal yn bwysig. Ar y llaw arall, efallai bod unigolion heddiw sy'n elwa o ofal plant ffurfiol ag incwm cymharol isel, ond gallant fynd ymlaen i fod yn enillwyr uwch yn y dyfodol o ganlyniad i ennill profiad gwaith heddiw. O ganlyniad, nid yw'r dadansoddiad yn cyflwyno darlun llawn o effaith debygol gofal plant ar draws amser.

3.36 Yr ail ffactor i gadw mewn cof yw nad ydym yn gwneud unrhyw ragdybiaethau ynghylch sut y byddai canlyniadau'r farchnad lafur wedi bod yn wahanol yn absenoldeb gofal plant ffurfiol. Efallai bod llawer o unigolion sy'n dibynnu ar ofal plant ffurfiol i weithio wedi gallu dod o hyd i ffyrdd eraill o wneud hynny os nad oedd gofal plant ffurfiol ar gael iddynt neu fod ei gost yn waharddol. Er bod gofal plant ffurfiol yn chwarae rôl hanfodol, ni ddylid cymryd yn ganiataol yn ei absenoldeb y bydd pob unigolyn sy'n dibynnu arno ar hyn o bryd yn gadael y llafurlu.

*Gofal plant ffurfiol ac anffurfiol*

3.37 Mae'r AAT yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau gofal plant gwahanol, yr ydym yn eu dosbarthu'n rhai ffurfiol (e.e. meithrinfa ddydd, crèche, gwarchodwr plant) neu anffurfiol (e.e. neiniau a theidiau, brawd plentyn, nani/ au pair). Mae'r tabl isod yn rhoi rhagor o fanylion am y dosbarthiad a ddefnyddir. Mae'n ddiddorol nodi yr ymddengys bod yr ystod o opsiynau gofal plant a darparwyr a gynhwysir dan 'ofal plant ffurfiol' yn ehangach na hynny a gwmpesir gan DHG: nid yw ysgolion preswyl a chanolfannau teulu/ cyfunol yn cael eu cynnwys yn benodol yn DHG, ac mae rhai o'r categorïau yn yr AAT yn fwy penodol (e.e. cynlluniau gwyliau yn cael eu cynnwys mewn categori ar wahân).

**Tabl 11.** Arolwg o Adnoddau Teulu - Dosbarthiad trefniadau plant

| Ffurfiol | Anffurfiol |
|---|---|
| Grŵp chwarae neu cyn-ysgol | Nain a taid |
| Meithrinfa ddydd neu crèche | Rhiant dibreswyl/ cyn-gymar/ cyn-bartner |
| Ysgol feithrin | Brawd neu chwaer y plentyn |
| Ysgol babanod (Derbyn) | Perthnasau eraill |
| Ysgol babanod (Meithrinfa) | Nani/Au pair |
| Ysgol gynradd (Derbyn) | Ffrindiau neu gymdogion |
| Ysgol gynradd (Meithrinfa) | Pobl eraill nad ydynt yn berthnasau (yn cynnwys gwarchod plant/'babysitter') |
| Clwb tu allan i'r ysgol | |
| Cynllun gwyliau | |
| Canolfan teulu/cyfunol | |
| Ysgol breswyl | |
| Gwarchodwr plant | |
| Ffurfiol arall | |

*Rhieni yn defnyddio gofal plant*

3.38 Yng Nghymru, mae 220,000 o rieni plant 0-19 oed (oddeutu un o bob tri[44]) yn defnyddio rhyw ffurf ar ofal plant ffurfiol. Gan gyfyngu ein dadansoddiad i rieni gydag o leiaf un plentyn 3-4 oed, mae 92,000 o rieni'n defnyddio gofal plant ffurfiol allan o gyfanswm o tua 130,000 o rieni – h.y. tua 70% o'r cyfanswm.

[44] Mae tua 620,000 o rieni gydag o leiaf un plentyn dibynnol 0-19 oed yng Nghymru. Sylwch oherwydd y ffordd y mae'r AAT wedi ei gynllunio a'r modd yr amcangyfrifir y swm, bod yr amcangyfrif hwn yn eithrio rhieni nad ydynt yn byw yn yr un cartref â'u plant.

**Tabl 12.** Nifer o rieni ac aelwydydd yn defnyddio gofal plant yng Nghymru[45]

| | Yn defnyddio gofal plant ffurfiol | Yn defnyddio gofal plant anffurfiol | Ffurfiol ac anffurfiol | Naill ai ffurfiol neu anffurfiol |
|---|---|---|---|---|
| *Nifer o rieni yn defnyddio gofal plant* (o leiaf un plentyn 0-19 oed) | 220,000 | 226,000 | 114,000 | 332,000 |
| *Nifer o rieni yn defnyddio gofal plant* (o leiaf un plentyn 3-4 oed) | 92,000 | 40,000 | 35,000 | 96,000 |
| *Nifer o aelwydydd yn defnyddio gofal plant* (o leiaf un plentyn 0-19 oed) | 136,000 | 133,000 | 69,000 | 199,000 |
| *Nifer o aelwydydd yn defnyddio gofal plant* (o leiaf un plentyn 3-4 oed) | 56,000 | 25,000 | 23,000 | 59,000 |

3.39 Fel y dangosir yn Nhabl 12, mae tua 72% o rieni plant 0-19 oed sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol naill ai mewn cyflogaeth ran-amser neu lawn-amser (gan gynnwys yr hunangyflogedig), sef tua 158,500 o rieni. Y nifer cyfatebol o rieni cyflogedig a hunangyflogedig plant 3-4 oed yw 53,500 (mae 58% o rieni plant 3-4 oed yn defnyddio gofal plant ffurfiol). Mae'n ddiddorol nodi, yn ôl y disgwyl, nad yw cyfran uwch o rieni plant iau mewn gwaith a’u bod yn gofalu am y cartref teuluol. Mae rhieni sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol yn cael eu cyflogi mewn ystod eang o alwedigaethau, gan adlewyrchu’n fras y farchnad lafur ehangach yng Nghymru.

[45] Arolwg o Adnoddau Teulu - 2015/16. Wedi talgrynnu i’r 000’oedd agosaf.

**Tabl 13.** Statws presennol (hunan-gofnodedig) rhieni yn defnyddio gofal plant ffurfiol yng Nghymru[46]

| | Rhieni plant 0-19 oed yn defnyddio gofal plant ffurfiol | | Rhieni plant 3-4 oed yn defnyddio gofal plant ffurfiol | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Gweithiwr yn gweithio llawn-amser | 110,000 | 50.2% | 40,000 | 43.9% |
| Gweithiwr yn gweithio rhan-amser | 37,000 | 16.9% | 10,000 | 10.7% |
| Hunangyflogedig yn gweithio llawn-amser (gan gynnwys gweithwyr teuluol) | 7,000 | 3.1% | 2,500 | 2.5% |
| Hunangyflogedig yn gweithio rhan-amser (gan gynnwys gweithwyr teuluol) | 4,500 | 2.0% | 1,000 | 1.3% |
| Diwaith | 12,000 | 5.4% | 7,000 | 7.8% |
| Edrych ar ôl y cartref teuluol | 41,000 | 18.6% | 25,000 | 27.4% |
| Sâl hirdymor neu anabl | 6,000 | 2.7% | 5,000 | 5.1% |
| Ddim mewn gwaith cyflogedig am ryw reswm arall (yn cynnwys myfyrwyr, dan hyfforddiant) | 3,000 | 1.2% | 1,000 | 1.2% |
| Cyfanswm | 220,000 | 100% | 92,000 | 100% |

3.40 Mewn cartrefi dau-berson, gellir dadlau y byddai'r sawl sy'n ennill y cyflog uchaf yn gallu gweithio hyd yn oed yn absenoldeb gofal plant ffurfiol, ac felly mae Tabl 14 yn ailadrodd y dadansoddiad uchod ond yn cynnwys y rhiant sy'n ennill y cyflog isaf ar bob aelwyd yn unig (gan gynnwys rhieni sengl)[47]. Fodd bynnag, gall rhai o'r rhieni hyn ddal i allu gweithio yn absenoldeb gofal plant ffurfiol (e.e. trwy ddefnyddio gofal plant anffurfiol).

[46] Arolwg o Adnoddau Teulu - 2015/16. Numbers may not add up to total due to rounding.

[47] Noder nad yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys rhieni sy'n ennill y cyflog isaf gydag incwm cyflogaeth sero neu hunangyflogaeth – e.e. y rhai sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.

3.41 Mae’n agos i 60% (46,000) o rieni plant 0-19 oed sy’n ennill y cyflog isaf ac sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol yn gweithio'n llawn amser (boed fel gweithwyr neu'n hunangyflogedig), gyda'r gweddill mewn gwaith rhan-amser. Yn achos rhieni gydag o leiaf un plentyn 3-4 oed yn ennill y cyflog isaf sy'n defnyddio gofal plant ffurfiol, mae 15,000 mewn gwaith llawn-amser (yn agos at 70%)[48].

**Tabl 14.** Statws presennol (hunan-gofnodedig) y rhiant sy’n ennill y cyflog isaf (ac eithrio rhieni heb unrhyw incwm cyflogedig/hunangyflogedig) ar aelwydydd yn defnyddio gofal plant ffurfiol yng Nghymru[49]

| | Rhieni plant 0-19 oed yn defnyddio gofal plant ffurfiol (rhiant sy’n ennill y cyflog isaf yn unig) | | Rhieni plant 3-4 oed yn defnyddio gofal plant ffurfiol (rhiant sy’n ennill y cyflog isaf yn unig) | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| Gweithiwr yn gweithio llawn-amser | 42,000 | 53.2% | 14,000 | 63.6% |
| Gweithiwr yn gweithio rhan-amser | 32,000 | 40.5% | 6,000 | 27.3% |
| Hunangyflogedig yn gweithio llawn-amser (gan gynnwys gweithwyr teuluol) | 4,000 | 5.1% | 1,000 | 4.6% |
| Hunangyflogedig yn gweithio rhan-amser (gan gynnwys gweithwyr teuluol) | 1,000 | 1.3% | 1,000 | 4.6% |
| Cyfanswm | **79,000** | **100%** | **22,000** | **100%** |

### *Incwm o gyflogaeth a hunangyflogaeth*

3.42 Cyfanswm incwm cyflogaeth a hunangyflogaeth (gros) fesul blwyddyn aelwydydd â phlant dibynnol 0-19 oed sy’n cael mynediad at ryw fath o

[48] Noder nad yw’r dadansoddiad hwn yn cynnwys rhieni sy'n ennill y cyflog isaf gydag incwm cyflogaeth sero neu hunangyflogaeth – e.e. y rhai sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.

[49] Arolwg o Adnoddau Teulu - 2015/16. Sylwer bod rhieni sengl yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad. Mewn cartrefi lle mae'r ddau riant yn ennill yr un fath (e.e .oherwydd eu bod gan y ddau sero incwm o gyflogaeth neu hunangyflogaeth) cynhwysir y ddau riant. Efallai na fydd y niferoedd yn adio i’r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

ofal plant ffurfiol oedd tua £3.7 biliwn yn 2015/16[50]. Os ydym ond yn edrych ar rieni gydag o leiaf un plentyn 3-4 oed, roedd y ffigwr cyfatebol ychydig o dan £1.3 biliwn[51].

3.43 Roedd cyfanswm incwm cyflogaeth/ hunangyflogaeth rhieni yn ennill y cyflog isaf/ rhieni sengl plant dibynnol 0-19 oed yn 2015/16 yn £1.2 biliwn gros, tra bod cyfanswm incwm rhieni yn ennill y cyflog isaf/ rhieni sengl gydag o leiaf un plentyn 3-4 oed tua £400 miliwn gros.

*Unigolion a rwystrir rhag gweithio oherwydd gofalu am eu plant*

3.44 Yn seiliedig ar yr AAT, dywedodd tua 61,000 o rieni plant dibynnol yng Nghymru eu bod yn cael eu rhwsytro rhag gweithio oherwydd gofalu am eu plant - gyda 9 allan o 10 o'r rhain yn ferched. O'r cyfanswm hwn, roedd tua 25,000 yn cael mynediad i o leiaf rhywfaint o ofal plant ffurfiol, 6,000 yn defnyddio rhyw fath o ofal plant anffurfiol, tra bod 3,000 o rieni yn defnyddio gofal plant ffurfiol ac anffurfiol i ryw raddau ond yn dal i ddweud eu bod yn cael eu rhwystro rhag gweithio oherwydd gofalu am eu plant. Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod nifer sylweddol o rieni sy'n gwneud defnydd o ofal plant ffurfiol yn dal i gael eu rhwystro rhag gweithio oherwydd gorfod gofalu am eu plant - boed oherwydd nad oes gofal plant ffurfiol ar gael ar gyfer y nifer ofynnol o oriau, neu p'un a yw'n fforddiadwy iddynt gaffael y swm o ofal plant sydd ei angen.

3.45 Gan ailadrodd y dadansoddiad uchod ddim ond ar gyfer rhieni gydag o leiaf un plentyn 3-4 oed, dywed 16,000 o rieni eu bod yn cael eu rhwystro rhag gweithio oherwydd gofalu am eu plant. Yn ddiddorol, mae mwyafrif helaeth y rhieni hyn (13,000) yn defnyddio rhyw fath o ofal plant ffurfiol, a dim ond tua 1,000 ohonynt sy'n defnyddio gofal plant anffurfiol.

[50] Arolwg o Adnoddau Teulu - 2015/16.

[51] Arolwg o Adnoddau Teulu - 2015/16.

# 4. Dadansoddiad darparwyr

## Tueddiadau hanesyddol


4.1 Dros yr 20 mlynedd diwethaf yn y Deyrnas Unedig, mae gofal plant wedi symud o fater ymylol a reolir gan ALlau i ganol y ddadl wleidyddol ar lefel genedlaethol. Fel y nodwyd gan Rutter (2016), mae nifer y lleoedd meithrin yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu o 59,000 yn 1990 i 1.7 miliwn o 2016. Cyfrannodd ffactorau amrywiol at y gwaith o drawsnewid y farchnad, gan gynnwys galw cynyddol oherwydd cydraddoldeb rhyw a thystiolaeth gynyddol o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol darpariaeth gofal plant a blynyddoedd cynnar o ansawdd (Dallimore, 2014; Rutter, 2016).

4.2 Cynyddodd y nifer o leoedd gofal plant a gyflenwir yn ôl lleoliadau yng Nghymru o 76,033 yn 2012 i 84,013 yn 2017, cynnydd o 10% (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2016). Mae'n bwysig nodi bod y terfyn oedran ar gyfer cofrestru gofal plant a chwarae wedi ei ymestyn o 8 i 12 oed ym mis Ebrill 2016, felly gall y cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf gael ei briodoli’n rhannol i'r newid hwn. Hefyd mae’r ffigyrau a gyflwynwyd ar gyfer 2017 yn seiliedig ar ganfyddiadau dros dro - cyhoeddir y bwletin AGGCC swyddogol ym mis Mehefin 2017. Er gwaethaf y materion hyn, gallwn ddal i adnabod tueddiadau cyffredinol.

4.3 Bu nifer y lleoedd a ddarperir gan ddarparwyr gofal tu allan i’r ysgol a gofal dydd sesiynol yn sefydlog i raddau helaeth, gyda gostyngiad bychan iawn yn ddiweddar. Hefyd bu gostyngiad sylweddol yn nifer y lleoedd a ddarperir gan crèches a chynnydd yn nifer y lleoedd a ddarperir gan warchodwyr plant. Rhwng 2012 a 2017 cyflenwyd tua 4,450 o leoedd ychwanegol gan warchodwyr plant, cynnydd o tua 27%. Er y gall peth o'r cynnydd hwn gael ei briodoli i'r newid yn y terfyn oedran cofrestru, awgrymwyd hefyd bod “Adeiladu Dyfodol Gwell: Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant" wedi annog y gwaith o ddatblygu lleoliadau nas cynhelir yng Nghymru (Dallimore, 2014). Dros y 5

mlynedd diwethaf cafwyd hefyd gynnydd cymedrol yn nifer y lleoedd a ddarperir gan leoliadau gofal dydd llawn.

**Siart 4.** Nifer o leoedd gofal plant yn ôl math o leoliad yng Nghymru - 2012 i 2017[52]





| | Mawrth 2012 | Mawrth 2013 | Mawrth 2014 | Mawrth 2015 | Mawrth 2016 | Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 25,248 | 26,318 | 27,023 | 27,505 | 28,622 | 29,732 |
| Gofal dydd sesiynol | 17,589 | 17,240 | 17,351 | 17,678 | 17,211 | 16,801 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | 16,886 | 16,547 | 16,747 | 16,808 | 16,518 | 16,660 |
| Gwarchodwyr plant | 12,081 | 11,862 | 12,739 | 12,720 | 15,552 | 16,531 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 3,427 | 3,228 | 2,087 | 2,187 | 2,348 | 3,584 |
| Crèche | 802 | 749 | 643 | 683 | 589 | 705 |
| Cyfanswm | 76,033 | 75,944 | 76,590 | 77,581 | 80,840 | 84,013 |

4.4 Er bod nifer cyffredinol y lleoedd gofal plant wedi cynyddu, mae nifer y darparwyr wedi aros fwy neu lai yr un fath. Mae hyn yn dangos bod nifer y lleoedd gofal plant a ddarperir gan y lleoliad cyfartalog wedi cynyddu ers 2012. Fel y dangosir yn Siart 5, y gwahaniaeth mwyaf amlwg fu yn achos darpariaeth chwarae mynediad agored a meithrinfeydd. Mae’r ddau leoliad hwn wedi haneru bron o ran nifer rhwng 2012 a 2017.

[52] Data gweinyddol AGGCC. Mae cyfanswm nifer y lleoliadau yn y set ddata gweinyddol AGGCC ychydig yn wahanol i'r cyfansymiau a ddarparwyd gan gyfeiriadur AGGCC o leoliadau gofal dydd plant cofrestredig oherwydd bod y cyfnod adrodd yn wahanol a bod y cyfeiriadur yn ystyried unrhyw gofrestriadau, ataliadau a diddymiadau newydd. Rydym yn defnyddio'r data o'r cyfeiriadur o leoliadau cofrestredig fel ag yr oedd yn Rhagfyr 2016 am y rhan fwyaf o'n dadansoddiad, gan ei fod yn cynnwys mwy o fanylder. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio data gweinyddol yn yr adran hon o ganlyniad i argaeledd data tueddiadau.


**Siart 5.** Nifer o leoliadau gofal plant yng Nghymru – 2012 i 2017[53]




| | Mawrth 2012 | Mawrth 2013 | Mawrth 2014 | Mawrth 2015 | Mawrth 2016 | Mawrth 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 2,348 | 2,289 | 2,456 | 2,437 | 2,416 | 2,340 |
| Gofal dydd sesiynol | 798 | 772 | 777 | 785 | 764 | 748 |
| Gofal Dydd Llawn | 600 | 626 | 648 | 653 | 677 | 708 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | 500 | 479 | 474 | 472 | 445 | 445 |
| Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored | 91 | 88 | 58 | 59 | 56 | 52 |
| Crèche | 46 | 42 | 33 | 33 | 28 | 28 |
| Cyfanswm | 4,383 | 4,296 | 4,446 | 4,439 | 4,386 | 4,321 |

4.5 Wrth gymharu nifer y lleoliadau i nifer y lleoedd a ddarperir, mae'n amlwg bod lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal sesiynol yn darparu ar gyfer niferoedd mwy o blant, tra bod gwarchodwyr plant yn darparu ar gyfer llai o blant. Rydym yn edrych ar y materion hyn yn fanylach yn nes ymlaen yn y bennod hon.

**Siart 6.** Cyfanswm nifer o leoedd gofal plant and leoliadau gofal plant yng Nghymru – 2012 i 2017[54]




[53] Data gweinyddol AGGCC.


[54] Data gweinyddol AGGCC.

## Dosbarthiadau


4.6 Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar y dosbarthiad o ddarparwyr a nodweddion eraill yn ôl rhanbarth a dosbarthiad trefol/ gwledig. Mae Cyfeiriadur o Leoliadau Gofal Dydd Plant Cofrestredig AGGCC yn defnyddio tri rhanbarth eang i ddosbarthu i ddarparwyr: Gogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam), De-ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Thorfaen) a De-orllewin Cymru (Penybont-ar-Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe).

4.7 I archwilio materion yn ymwneud â nodweddion trefol/gwledig, rydym yn defnyddio dosbarthiadau lefel ALl Ystadegau Cymru (2008) sy'n grwpio ALlau i mewn 4 categori: gwledig, trefol, cymoedd ac eraill. Mae ALlau gwledig â dwysedd poblogaeth is na chyfartaledd Cymru o 140 o bobl fesul cilomedr sgwâr. Mae'r ALlau'r Cymoedd yn rhan o ardal gweithredu Blaenau'r Cymoedd. Mae'r 3 ALl trefol yn cynnwys y tri anheddiad mwyaf yng Nghymru. Nid yw'r rhai a ddosbarthwyd fel 'arall' yn cael eu cynnwys yn y diffiniadau uchod. Dylid nodi bod y dull hwn yn amhenodol ac mae'n anochel y bydd ardaloedd sy'n fwy poblog neu'n llai poblog o fewn pob Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, oherwydd natur y data y mae gennym fynediad ato, y dull mwyaf cyson yw trafod y materion hyn ar lefel ALl.

**Map 1.** Rhanbarthau Cymru



**Map 2.** ALlau Cymraeg wedi'u dosbarthu yn ôl trefol, gwledig, cymoedd ac eraill[55]





[55] Ystadegau Cymru (2008).

## Trosolwg o'r lleoliadau

Fel yr amlygwyd ym Mhennod 1, mae'r sector gofal plant yng Nghymru yn eang iawn, yn cynnwys busnesau bach, canolig a mawr gyda gwahanol ddarpariaeth gwasanaeth a chapasiti. O fis Rhagfyr 2016, roedd 4,012 o ddarparwyr gofal plant wedi eu cofrestru ag AGGCC. Mae'r cyfanswm yn cynnwys 2,081 o warchodwyr plant (52% o'r holl leoliadau), 785 o ddarparwyr gofal dydd sesiynol (20%), 668 o ddarparwyr gofal dydd llawn (17%), 412 o ddarparwyr gofal tu allan i'r ysgol (10%), 43 darpariaeth darpariaeth chwarae mynediad agored, (1%), a 23 crèche (0.5%).

**Map 3.** Darparwyr gofal plant yng Nghymru (ac eithrio gwarchodwyr plant)[56]




[56] Cyfeiriadur Lleoliadau Gofal Dydd Plant Cofrestredig AGGCC – Rhagfyr 2016. Nid yw gwarchodwyr plant wedi cael eu cynnwys gan nad oes gennym fynediad at eu data lleoliad.

4.8 Fel y gwelir yn Map 3, ceir gofal dydd sesiynol, gofal tu allan i'r ysgol a lleoliadau gofal dydd llawn ym mhob rhan o Gymru. Ar y llaw arall, mae Chwarae Mynediad Agored a crèches wedi eu canoli mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd â dwysedd posblogaeth uwch.


*Gwarchodwyr plant*

4.9 Yn Ne-ddwyrain Cymru, mae tua 60% o ddarparwyr gofal plant yn warchodwyr plant, sy'n llawer uwch nag yng Ngogledd Cymru (42%) neu yn Ne-orllewin Cymru (50%). Mae chwarter o'r holl warchodwyr plant yng Nghymru wedi eu lleoli yn y tri ALl a ddosberthir fel rhai trefol. Efallai bod y crynodiad uwch o ardaloedd gwledig yng Ngogledd a De Ddwyrain Cymru yn esbonio'r anghysondeb hwn. Nodwyd y gall darparu gwasanaethau gofal plant cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig fod yn heriol oherwydd materion megis cyfleoedd cyflogaeth wledig (gan gynnwys cyfraddau cyflog a chyflogaeth dymhorol) a phoblogaethau gwasgaredig (Dallimore, 2014). Gan fod gwarchodwyr plant yn cyflenwi llai o leoedd, maent yn fwy sensitif i newid ac mae'r heriau a wynebir gan ddarparwyr gofal plant gwledig yn debygol o fod yn fwy amlwg.

4.10 Mae hefyd yn bwysig nodi bod Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, sydd â'r gyfran uchaf o ardaloedd difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, hefyd â'r nifer isaf o warchodwyr plant[57].

[57] Llywodraeth Cymru – Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Dadansoddiad Awdurdod Lleol. Mae 23% o Ardaloedd Haen Is Cynnyrch Ehangach (LSOAs) ym Mlaenau Gwent a 22% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Merthyr Tudful yn cael eu cynnwys yn y 10% o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

**Map 4.** Gwarchodwyr plant yn ôl ALI[58]




[58] Cyfeiriadur Lleoliadau Gofal Dydd Plant Cofrestredig AGGCC Rhagfyr 2016.


*Gofal dydd sesiynol*

4.11 Mewn rhanbarthau gyda nifer uwch o ALlau gwledig, megis Gogledd Cymru a’r De-orllewin, tueddir i gael nifer ychydig yn uwch o ddarparwyr gofal dydd sesiynol. Mae tua chwarter yr holl ddarparwyr gofal plant yng Ngogledd Cymru yn ofal dydd sesiynol o gymharu â chweched ran o'r holl ddarparwyr gofal plant yn Ne-ddwyrain Cymru[59]. Fel gyda gwarchodwyr plant, ym Mlaenau Gwent y ceir y nifer isaf o leoliadau gofal dydd sesiynol, yn enwedig o ystyried bod poblogaeth plant 0 i 4 oed yn debyg i Ferthyr Tudful (3,808 ym Mlaenau Gwent o gymharu â 3,755 ym Merthyr Tudful)[60]. Yng Ngwynedd ac Ynys Môn y ceir y nifer isaf o blant 0 i 4 oed o gymharu â nifer y lleoliadau gofal sesiynol. Mae’n debygol fod hyn o ganlyniad i grynodiad Cylchoedd Meithrin mewn ardaloedd sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg.

[59] Cyfeiriadur Lleoliadau Gofal Dydd Plant Cofrestredig AGGCC Rhagfyr 2016

[60] Swyddfa Ystadegau Gwladol Amcanestyniadau Poblogaeth Canol-Blwyddyn, 2016.

**Map 5.** Gofal dydd sesiynol yn ôl ALI[61]





[61] Cyfeiriadur Lleoliadau Gofal Dydd Plant Cofrestredig AGGCC Rhagfyr 2016.

*Gofal dydd llawn*

4.12 Mae lleoliadau gofal dydd llawn yn cyfrif am tua 17% o ddarparwyr gofal plant yng Ngogledd a De-orllewin Cymru a 15% o ddarparwyr gofal plant yn Ne-ddwyrain Cymru.[62] Mae lledaeniad lleoliadau gofal dydd llawn yn tueddu i fod yn fwy gwastad na mathau eraill o leoliadau, gydag ystod llai eithafol wrth gymharu nifer y plant 0 i 4 oed gyda nifer o ddarparwyr gofal dydd llawn ym mhob ALl. Yng Nghaerffili, Caerdydd a Rhondda Cynon Taf, sydd i gyd yn Ne-ddwyrain Cymru, y ceir y nifer isaf o leoliadau gofal dydd llawn fel cyfran o nifer y plant 0 i 4 oed ym mhob ALl.

[62] Cyfeiriadur Lleoliadau Gofal Dydd Plant Cofrestredig AGGCC Rhagfyr 2016.

**Map 6.** Darparwyr gofal dydd llawn yn ôl ALI[63]





[63] Cyfeiriadur Lleoliadau Gofal Dydd Plant Cofrestredig AGGCC Rhagfyr 2016.

*Dosbarthiad sector*

4.13 Hefyd edrychodd Arolwg Gofal Plant Alma Economics ar y gyfran o leoliadau a ddosberthir fel darparwyr cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae darparwyr cyhoeddus ym mherchnogaeth lawn llywodraeth ganolog neu leol, mae darparwyr preifat yn unigolion hunangyflogedig neu fusnesau masnachol, a darparwyr gwirfoddol yw rhai nid-er-elw. Os nad oedd ymatebwyr yn ffitio i mewn i'r categorïau hyn (e.e. os oeddent yn rhy fach i fod yn gymwys i gael statws elusennol), roedd yr opsiwn "arall" ar gael - fodd bynnag, roedd y data a gasglwyd ar gyfer y categori hwn yn rhy gyfyng i ddarparu unrhyw fewnwelediad ystyrlon. Trwy allosod yr ymatebion i'r arolwg[64], rydym yn amcangyfrif bod 12% o leoliadau gofal plant yn gyhoeddus, 18% yn wirfoddol a 65% yn breifat. Mae'r rhan fwyaf o leoliadau gofal sesiynol yn wirfoddol, tra bod lleoliadau gofal dydd llawn yn amlach yn lleoliadau preifat. Roedd y dosbarthiad rhwng lleoliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn fwy gwastad yn achos lleoliadau tu allan i'r ysgol.

[64] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

**Siart 7.** Nifer amcangyfrifiedig o ddarparwyr gofal plant cyhoeddus/ preifat/ gwirfoddol yn ôl math o leoliad[65]




## Darpariaeth gwasanaeth a chapasiti presennol

4.14 Y ffynhonnell fwyaf cynhwysfawr sydd gennym am ddarparwyr gwasanaethau yn ôl lleoliadau gofal plant yng Nghymru yw set ddata DHG AGGCC. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae cyfyngiadau i'r set ddata hon, gan gynnwys rhai anghysondebau yn y ffordd y caiff data ei adrodd a chyfradd ymateb o 76%.

4.15 Fel yr amlinellir yn Siart 8, tuedda'r galw mwyaf ar draws Cymru i fod ar gyfer gofal dydd llawn a gwasanaethau gofal ar ôl ysgol. Yn achos y ddau wasanaeth hwn, ochr yn ochr â sesiynau bore, mae nifer y lleoedd a ddefnyddir yn ystod y tymor yn fwy na nifer y lleoedd a gynigir. Gall hyn ddangos bod rhai lleoedd yn cael eu defnyddio'n hyblyg (e.e. darpariaeth afreolaidd) i ateb y galw.


4.16 Yn ogystal, mae llawer mwy o leoedd hanner diwrnod mewn meithrinfeydd (yn y bore a'r prynhawn) a lleoedd gofal cyn-ysgol yn cael eu cynnig nag sy'n cael eu defnyddio mewn gwirionedd. Gall yr

[65] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Mae'r data wedi cael ei addasu i fod yn gynrychioliadol o'r sector gofal plant yn ei gyfanrwydd. Rydym wedi eithrio crèches a lleoliadau chwarae mynediad gored oherwydd maint bychan y sampl. Maint sampl – 508. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

hoffter am ofal sesiynol ar gyfer sesiynau byrrach gyfrannu at y gwahaniaeth hwn.

4.17 Tuedda'r gwasanaethau a ddarperir gan ddarparwyr gofal dydd llawn i gynnig mwy o leoedd nag a ddefnyddir. Cefnogir hyn gan yr ymatebion i Arolwg Alma Economics[66] a oedd yn dangos bod gan 80% o ddarparwyr gofal dydd llawn gapasiti i ddarparu lleoedd ychwanegol o gymharu â 50% o warchodwyr plant ar hyn o bryd.

**Siart 8.** Nifer o leoedd a gynigir ac a ddefnyddir yn ystod y tymor yn ôl lleoliadau gofal plant[67]




[66] Mae’r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[67] DHG 2016 - data cyfanredol. Nid yw’r data hwn wedi cael ei addasu ar gyfer diffyg ymateb, ac felly mae’n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel. Mae gwarchodwyr plant yn darparu gofal dydd llawn, hanner diwrnod AM, hanner diwrnod PM, cyn ysgol, ar ôl ysgol, cofleidiol ac arall. Mae lleoliadau gofal dydd llawn yn darparu meithrinfa diwrnod llawn, ar ôl ysgol, cofleidiol, cyn ysgol, ar ôl ysgol, cylch chwarae AM, cylch chwarae PM, crèche, cinio ac arall. Mae crèches yn darparu gofal dydd llawn, crèche ac arall. Mae lleoliadau chwarae mynediad agored yn darparu cyn ysgol, ar ôl ysgol, cynllun chwarae ac arall. Mae gofal tu allan i'r ysgol yn darparu gofal cyn ysgol, ar ôl ysgol, cynllun chwarae ac arall. Mae gofal dydd sesiynol yn darparu gofal cofleidiol, cinio, boreau, prynhawniau ac arall.

4.18 Yn ein sgyrsiau â darparwyr gofal plant gwelwyd bod galw cynyddol am ofal cofleidiol, gwasanaethau ar ôl ysgol a darpariaeth gofal plant hyblyg arall o ganlyniad i newidiadau mewn patrymau gwaith a strwythur y teulu. Hefyd, nododd nifer o ddarparwyr bod rhieni gydag oriau gwaith afreolaidd, megis gweithwyr shifft, yn cael trafferth i gael mynediad i ddarpariaeth briodol. Yn arolwg gofal plant blynyddol yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant, adroddwyd nad oedd gan unrhyw ALlau yng Nghymru ofal plant digonol dros y ddwy flynedd ddiwethaf i rieni sydd ag oriau gwaith annodweddiadol (Harding et al., 2017; Rutter, 2016a). Ar y llaw arall, bu cyfraddau digonolrwydd i rieni sy'n gweithio'n llawn-amser yn cynyddu'n raddol, gyda thua 41% o awdurdodau lleol yn adrodd digon o ofal yn 2017.

4.19 Yn ystod gwyliau'r ysgol, roedd tua 47,580 o leoedd yn cael eu cynnig ar draws pob gwasanaeth, gyda thua 12,930 o blant yn defnyddio’r gwasanaethau yn ôl DHG[68]. Nid oedd tua 40% o'r ymatebwyr i Arolwg Gofal Plant Alma Economics yn agor yn ystod gwyliau'r ysgol ac roedd 7% yn ychwanegol yn cynnig llai o ddarpariaeth nag yn ystod y tymor[69].

4.20 Yn achos gofalwyr sesiynol, un rheswm allweddol dros y gwahanol lefelau o ddarpariaeth oedd nad oedd adeiladau ar gael - mae llawer o leoliadau yn gysylltiedig ag ysgolion, sy'n golygu nad ydynt yn gallu aros ar agor yn ystod y gwyliau. Nododd eraill bod y galw yn aml yn is yn ystod gwyliau ysgol oherwydd clybiau gwyliau a dewis gofal teuluol. Ar gyfer lleoliadau bach a gwarchodwyr plant, roedd yr awydd i gymryd amser i ffwrdd i fod gyda'u teulu yn rheswm allweddol arall ar gyfer cau yn ystod gwyliau'r ysgol[70].

[68] DHG 2016 - data cyfanredol. Mae’r data hwn wedi ei addasu i fod yn gynrychioladol o’r sector yn ei gyfanrwydd.

[69] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 513 o ymatebwyr - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[70] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 513 o ymatebwyr - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.


## Rhestrau aros

4.21 Er y gall rhestrau aros fod yn ganllaw i ddeall y galw heb ei ddiwallu yn y sector gofal plant, mae'n farn weddol gul sy'n debygol o arwain at amcangyfrif rhy isel. Nid yw rhestrau aros yn rhoi cyfrif llawn am amrywiaeth o faterion, megis teuluoedd nad ydynt o bosibl yn cael eu dewis meithrinfa neu sy’n gorfod teithio pellteroedd hir i gael darpariaeth briodol. Ar ben hynny, dylai data yn ymwneud â rhestrau aros gael ei drin yn ofalus oherwydd gall rhieni ychwanegu eu henwau at restr ond canfod darpariaeth yn rhywle arall, neu efallai y byddant yn ychwanegu eu henwau at restrau lluosog, gan greu problem gyda chyfrif dwbl. Yn yr adrannau canlynol, dylid nodi ein bod yn cyflwyno data crai (h.y. heb ei addasu ar gyfer diffyg ymateb) o DHG, sy'n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel gan mai dim ond 75% o leoliadau cofrestredig a ymatebodd i'r arolwg DHG.

4.22 Fel y gwelir ym Map 7, yng Nghaerdydd, Sir Gaerfyrddin a Rhondda Cynon Taf y ceir y rhestrau aros hwyaf ar gyfer darpariaeth yn ystod y tymor. Hefyd adolygwyd y rhestrau aros ar gyfer darpariaeth gwyliau, ond mae'r rhain yn llawer is ar draws yr holl Awdurdodau Lleol - yn wir, dim ond 42 o leoliadau ledled Cymru oedd â rhestr aros ar gyfer darpariaeth yn ystod gwyliau.


4.23 Pan roddir y rhestrau aros hyn mewn persbectif drwy gymryd i ystyriaeth y nifer o blant 0-12 oed, mae'n amlwg bod Caerdydd, Sir Fynwy, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin â rhestrau aros arbennig o hir ar gyfer y tymor. A gosod Caerdydd o’r neilltu, mae’r ALlau hyn fel rheol yn cael eu dosbarthu fel ardaloedd gwledig, sy'n gyson â'n dadansoddiad blaenorol. Mae’n debyg fod llai o ddarparwyr mewn lleoliadau gwledig, yn benodol gwarchodwyr plant, yn cyfrannu at restrau aros hwy. Ar gyfer Caerdydd, nid yw'n glir pa ffactorau sy’n creu rhestrau aros hir, ond amlygwyd fforddiadwyedd gwasanaethau yn yr ALl fel problem mewn asesiad digonolrwydd diweddar (Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd, 2017).

**Map 7.** Nifer o blant ar restrau aros yn ystod y tymor[71]




[71] DHG 2016 - data cyfanredol. Nid yw'r data hwn wedi cael ei addasu ac mae'n cynrychioli tua 75% o ddarparwyr yng Nghymru.

## **Map 8.** Rhestrau aros yn ôl nifer y plant yn ystod y tymor 0-12 oed[72]




[72] Ystadegau poblogaeth o amcanestyniadau poblogaeth canol-blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2015. Data rhestrau aros o DHG 2016 - data lefel cyfanredol.

## Lleoedd a ariennir

4.24 Fel y soniwyd eisoes, mae amrywiaeth eang o ran y modd y caiff addysg y blynyddoedd cynnar a darpariaeth Dechrau'n Deg eu darparu ledled Cymru. Mae rhai awdurdodau lleol yn cyflawni'r oriau yn bennaf drwy leoliadau a gynhelir, tra bod eraill yn defnyddio lleoliadau nas cynhelir i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg.


4.25 Ledled Cymru, mae tua 500 o leoliadau gofal plant wedi cofrestru ag AGGCC i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar[73]. Yn ôl set ddata DHG, darperir addysg blynyddoedd cynnar yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot drwy leoliadau a gynhelir yn unig. Yng Ngogledd Cymru a De-orllewin Cymru mae'n fwy tebygol bod â lleoliadau nas cynhelir yn darparu addysg blynyddoedd cynnar drwy ddarpariaeth gofal dydd sesiynol a gofal dydd llawn. Efallai y bydd yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys gwasgariad poblogaeth, yn gwneud y rhanbarthau hyn yn fwy tebygol o ddefnyddio lleoliadau nas cynhelir ar gyfer darparu gwasanaethau. Fodd bynnag, mewn cyfweliadau gyda darparwyr gofal plant, awgrymodd rhai bod y cyd-destun lleol ac ymagwedd tuag at ddatblygiadau sector preifat o fewn ALlau hefyd yn ffactorau pwysig.

4.26 Yn y blynyddoedd diweddar, ymddengys fod digonolrwydd addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru wedi gostwng ychydig. Nododd yr Arolwg Gofal Plant 2017 gan yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant bod tua 41% o awdurdodau lleol â gofal plant digonol ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar, gostyngiad o 10% ers 2016 (Harding et al., 2017; Rutter, 2016a).[74]

[73] DHG 2016 - data cyfanredol.

[74] Ffigyrau dros dro yw ffigyrau 2017 a dylid eu trin â gofal oherwydd nad oedd rhai asesiadau wedi'u cwblhau.

**Map 9.** Nifer o ddarparwyr gofal plant (h.y. lleoliadau nas cynhelir) yn derbyn arian blynyddoedd cynnar[75]





[75] DHG 2016 - data cyfanredol. Ei fformat a adroddir yw'r data hwn ac mae'n cynrychioli 76% o ddarparwyr gofal plant.

4.27 O ran Dechrau'n Deg, mae tua 453 o ddarparwyr gofal plant yn set ddata DHG AGGCC sy'n derbyn cyllid gan y rhaglen[76]. Caiff darpariaeth Dechrau'n Deg ei thargedu ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, felly nid yw'n syndod bod crynodiad uwch o ddarparwyr mewn ALlau fel Caerffili a Rhondda Cynon Taf. Yn 2017, dim ond 45% o'r ALlau oedd â darpariaeth ddigonol ar gyfer plant 2 oed sydd â hawl i Dechrau'n Deg (Harding et al., 2017).

[76] DHG 2016 – data cyfanredol.

**Map 10.** Nifer o ddarparwyr gofal plant wedi cofrestru ag AGGCC yn derbyn arian Dechrau’n Deg[77]




[77] DHG 2016 – data cyfanredol.

## Capasiti ar gyfer ehangu a chynnwys y galw cynyddol

4.28 Mae ceisio penderfynu ar gapasiti'r sector gofal plant i ehangu yn y dyfodol yn heriol oherwydd amryw o ffactorau anhysbys gan gynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt: y gwasanaethau sydd eu hangen, cyfraddau ariannu, argaeledd cyllid cyfalaf, digonolrwydd staff a materion ardal-benodol (e.e. darparwyr newydd, modelau ariannu ALlau ayb).

4.29 Ar hyn o bryd, mae darparwyr gofal plant yng Nghymru yn gofalu am oddeutu 35,000 o blant 3 i 4 oed yn ystod y tymor, gyda thua 40% o'r ddarpariaeth hon yn cael ei chyflenwi gan warchodwyr plant, 30% gan gofal dydd sesiynol a 20% gan ofal dydd llawn[78]. Er mwyn deall pa fathau o leoliadau fyddai fwyaf tebygol o gynnwys y galw ychwanegol, gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics[79] faint o leoedd ychwanegol a ellid eu cyflenwi ar hyn o bryd i blant 3-4 oed. Ymatebodd lleoliadau gofal dydd llawn gyda'r nifer uchaf o leoedd ar gyfartaledd, ac yna lleoliadau gofal sesiynol. Drwy allosod cyfartaleddau yn ôl nifer y lleoliadau gofal plant yng Nghymru, rydym yn amcangyfrif y gellid cyflenwi tua 16,200 o leoedd ychwanegol i blant 3-4 oed drwy ddefnyddio'r ddarpariaeth bresennol. Fodd bynnag, nid yw'r nifer hwn yn rhoi darlun cyflawn o gapasiti gan nad oes gennym ddigon o wybodaeth fanwl am y mathau o wasanaethau sydd eu hangen gan deuluoedd (e.e. gofal dydd llawn, cyn ysgol, ar ôl ysgol, cynllun chwarae) a lleoliad y lleoedd sydd ar gael (e.e. gallant fod mewn ardaloedd gyda galw isel).

[78] DHG 2016 – lefel data unigolion. Wedi ei addasu i fod yn gynrychioladol o'r sector yn ei gyfanrwydd.

[79] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

**Tabl 15.** Lleoedd sydd ar gael i blant 3-4 oed ar hyn o bryd[80]

| Math o ddarparwr | Nifer cyfartalog o leoedd sydd ar gael | Nifer amcangyfrifiedig o leoedd |
|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 1.04 | 2,200 |
| Gofal dydd llawn | 9.78 | 6,500 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | 6.63 | 2,700 |
| Gofal sesiynol | 6.12 | 4,800 |
| Cyfanswm | | 16,200 |

4.30 Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr i Arolwg Gofal Plant Alma Economics y byddent yn anfodlon neu'n methu ag ehangu eu gwasanaethau petai cynnydd mewn galw ar gyfer plant 3-4 oed[81]. Yn ogystal, adroddodd tua hanner yr ymatebwyr y byddai'r costau o geisio sicrhau adeiladau mwy yn atal eu lleoliad rhag cynnig lleoedd newydd ar gyfer plant 3-4 oed. Gan fod llawer o leoliadau yn gweithredu ar faint elw isel ac yn sensitif i newid, byddai ehangu adeiladau i ddarparu ar gyfer plant ychwanegol yn beryglus, hyd yn oed os yw'r galw yno (Butler and Rutter, 2016).

4.31 Gan ganolbwyntio ein sylw ar ymatebwyr yr arolwg a fyddai'n fodlon ac yn gallu ehangu eu darpariaeth yn y dyfodol, y lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal sesiynol sydd fwyaf tebygol o gyflenwi lleoedd newydd. Mae gan warchodwyr plant gapasiti llawer mwy cyfyngedig ar gyfer ehangu, mae'n debyg oherwydd eu model sy'n seiliedig ar wasanaethu sylfaen cleientiaid fechan, a gweithio allan o eiddo domestig. Rydym yn amcangyfrif y gallai darparwyr presennol ddarparu hyd at 17,800 o leoedd newydd ar gyfer plant 3-4 oed, ond unwaith eto

[80] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl - 491 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[81] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl - 450 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

mae gan y ffigwr hwn ystod o gyfyngiadau fel yr amlygwyd yn flaenorol, a dylid ei ddehongli yn unol â hynny.

**Tabl 16.** Lleoedd yn y dyfodol i blant 3-4 oed os y ceir amser i ymestyn[82]

| Math o ddarparwr | Nifer cyfartalog o leoedd | Nifer amcangyfrifiedig o leoedd |
|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | 0.7 | 1,400 |
| Gofal dydd llawn | 11.4 | 7,600 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | 8.0 | 3,300 |
| Gofal sesiynol | 7.0 | 5,500 |
| Cyfanswm | | 17,800 |

## Heriau a chyfleoedd i'r sector

4.32 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg byr o rai o'r heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg sy'n debygol o effeithio ar y sector gofal plant yn y blynyddoedd i ddod.

### *Cyflog Byw Cenedlaethol (CBC)*

4.33 Disgwylir i gyflwyniad y Cyflog Byw Cenedlaethol gael effaith ddwys ar y sector gofal plant yng Nghymru. Yn Ebrill 2017, roedd y Cyflog Byw Cenedlaethol presennol yn £7.50 yr awr i bob unigolyn 25 oed a throsodd (gyda'r bwriad o gynyddu'r raddfa i tua £9 yr awr erbyn 2020). Fel y nodwyd gan y Comisiwn Cyflogau Isel (CCI) (2016), mae'r CBC yn newid sylweddol i'r farchnad lafur, busnesau a gweithwyr oherwydd yr effaith a gaiff ar gyflog, prisiau a gwahaniaethau tâl ar draws Cymru. Yn benodol, mae'r CCI yn nodi mewn sectorau â thâl cywasgedig fel gofal plant, y gall cynnydd yn y llawr cyflog gael effaith fawr ar weithwyr a delir uwchben y CBC.

[82] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 306 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

4.34 Yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics, cytunodd 40% o ymatebwyr yn gryf y byddai'r CBC yn cynyddu costau eu busnes yn sylweddol[83]. Awgrymwyd y gallai costau cynyddol arwain at gyflogi staff iau ac o bosibl rhai llai cymwys (CGMD, 2017).

*Diwygiadau lles a threthi*

4.35 Gall diwygiadau a gychwynnir gan y llywodraeth ganolog hefyd effeithio ar ddarpariaeth gofal plant ffurfiol yng Nghymru. Mae'r llywodraeth yn uno chwe budd-dâl a chredydau treth prawf modd i mewn i un Credyd Cynhwysol sengl, hefyd cyflwynwyd cynllun Gofal Plant Di-dreth newydd ym mis Ebrill 2017.

4.36 O dan y Credyd Treth Gwaith, gall rhieni sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel gael hyd at 70% o'u costau gofal plant, gydag uchafswm o £175 yr wythnos ar gyfer un plentyn (h.y. gallai rhiant gael hyd at £122.50 yr wythnos ar gyfer gofal plant) a £300 y wythnos ar gyfer 2 neu fwy o blant (h.y. gallai rhiant gael hyd at £210 yr wythnos am ofal plant). I hawlio'r Credyd Treth Gwaith, rhaid i rieni ddefnyddio gofal plant cofrestredig a rhaid gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos.

4.37 Gyda chyflwyno Credyd Cynhwysol, gall teuluoedd sy'n gweithio hawlio hyd at 85% o'u costau gofal plant misol. Mae'r nenfwd elfen gofal plant Credyd Cynhwysol yn £760 y mis ar gyfer un plentyn (h.y. gallai rhiant gael hyd at £646) a £1304 y mis am 2 neu fwy o blant (h.y. gallai rhiant gael hyd at £1108 y mis). Er bod rhaid i rieni fod yn gweithio i gymhwyso, nid oes cyfyngiad ar y nifer o oriau gwaith (fel gyda Chredyd Treth Gwaith).

4.38 Mae'r llywodraeth hefyd wedi cyflwyno cynllun Gofal Plant Di-dreth yn ddiweddar. Bydd y llywodraeth yn talu 20% o gostau gofal plant blynyddol teuluoedd cymwys, hyd at uchafswm o £2,000 y flwyddyn y plentyn, trwy gyfrif ar-lein. Bydd y cynllun ar gael i blant hyd at 12 oed,

[83] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Yn seiliedig ar sampl o 251 o ymatebion i'r datganiad "Bydd y Cyflog Byw Cenedlaethol yn cynyddu costau busnes yn sylweddol" - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

neu 17 ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. I fod yn gymwys rhaid i rieni ennill mwy na £120 yr wythnos (os ydynt dros 21) a llai na £100,000 y flwyddyn yr un. Hefyd dim ond i rieni nad ydynt yn cael cymorth gan gynlluniau talebau gofal plant neu gynlluniau aberthu cyflog eraill y mae ar gael.

4.39 Yn ogystal â'r newidiadau uchod, mae’r talebau gofal plant a ddarperir gan gyflogwyr yn cael eu dirwyn i ben. Bydd rhieni yn gallu cael mynediad i'r cynllun talebau gofal plant presennol tan fis Ebrill 2018 a defnyddio'r cynllun fel arfer, ond ni fydd ymunwyr newydd yn cael eu derbyn ar ôl y dyddiad hwn.

*Brexit*

4.40 Mae’n anodd rhagweld ar hyn o bryd beth fydd effaith ymadawiad y DU o’r Undeb Ewropeaidd ar y sector gofal plant yng Nghymru.

4.41 Wedi dweud hynny, mae dadansoddiad cynnar yn awgrymu bod Brexit yn debygol o gael rhywfaint o effaith ar y gweithlu. Rhagamcanodd Sefydliad Resolution y bydd twf cyflog yn debygol o arafu yng ngoleuni Brexit, ac mae’n amcangyfrif y bydd CBC yn cyrraedd £8.60 yr awr erbyn 2020, yn hytrach na'r rhagamcan o £9 yng nghyllideb 2016 (Clarke and D’Arcy, 2016). Yn ogystal, gall materion sy’n ymwneud â chyfyngu ar symud dinasyddion yr UE greu heriau recriwtio yn y dyfodol. Er enghraifft, mae tua 6% o weithwyr meithrin ar draws y DU yn ddinasyddion yr UE[84].

4.42 Maes allweddol arall yw'r potensial o gael llai o arian ar gyfer cyflogaeth, addysg ac ymchwil. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), sef offeryn ariannol yr Undeb Ewropeaidd, yn cefnogi rhaglenni amrywiol yn ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Er enghraifft, mae'r rhaglen PaCE, a ariennir ar y cyd gan yr ESF a Llywodraeth Cymru, yn cynnwys y gost o ofal plant tra bod y rhieni yn ymgymryd â hyfforddiant, profiad gwaith neu ddatblygiad sgiliau. Yn

[84] Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Ionawr - Rhagfyr 2015.

ogystal, mae'r ESF yn cyd ariannu Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, rhaglen £10.9 miliwn sy'n darparu hyfforddiant i wella sgiliau ymarferwyr y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae.

4.43 Hefyd nododd CGMD y gall Brexit rhoi cyfle i feithrinfeydd eiriol dros newid mewn statws TAW (Parkes, 2016). Ar hyn o bryd, mae lleoliadau gofal plant cofrestredig wedi'u heithrio rhag TAW, sy'n golygu na allant godi na hawlio TAW yn ôl ar unrhyw nwyddau neu wasanaethau.

*Iaith Gymraeg*

4.44 Mae ehangu’r defnydd o'r iaith Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Yn Symud Cymru Ymlaen, gosodwyd nod i gael un filiwn o bobl sy'n siarad Cymraeg erbyn 2050. Mae’r sector blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn tyfu, sy'n cynnwys meithrinfeydd dydd, gofal ar ôl ysgol a Chylchoedd Meithrin cyfrwng Cymraeg. Yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics, roedd tua 33% o'r lleoliadau a ymatebodd yn rhai cyfrwng Cymraeg, 7% yn gyfrwng Cymraeg a Saesneg cyfunol, 46% yn gyfrwng Saesneg gydag elfennau dwyieithog, ac 13% yn gyfrwng Saesneg. Yn ogystal, mae tua 56% o'r ymatebwyr yn disgwyl cynyddu’r cyflenwad o ddarpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd i ddod.[85] Roedd lleoliadau gofal dydd sesiynol a gofal dydd llawn yn fwy tebygol o deimlo'n gryf am ehangu darpariaeth Gymraeg. Mae'r tueddiadau hyn yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y blynyddoedd i ddod.

*Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)*


4.45 Mae cyflwyno'r Mesur Tribiwnlys Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) tua diwedd 2016 yn arwydd o'r ymrwymiad polisi cynyddol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Noda'r

[85] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl - 257 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

Mesur gynigion ar gyfer system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc 0-25 oed sydd ag ADY. Pennir bod plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddynt lawer mwy o anhawster dysgu na'r rhan fwyaf o'u grŵp oedran, neu os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio addysg neu hyfforddiant yn gyffredinol ar gael. Nododd Llywodraeth Cymru bod y ddeddfwriaeth newydd a chanllawiau statudol yn rhan o raglen ehangach sy'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau'r gweithlu i ymateb i ADY, yn ogystal â mynediad i gefnogaeth, gwybodaeth a chyngor arbenigol.

4.46 Adroddwyd yn Arolwg Gofal Plant 2017 gan yr Ymddiriedolaeth Teulu a Gofal Plant nad oedd tua 50% o Awdurdodau Lleol yng Nghymru â ddigon o ofal i blant anabl (Harding et al., 2017).

**Siart 9.** Math o anghenion dysgu ychwanegol a gynhwysir gan y math o ddarparwr gofal plant[86]




[86] DHG 2016 - data cyfanredol. Mae'r data hwn yn cynrychioli 76% o ddarparwyr gofal plant a gwblhaodd y DHG ac mae'n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel. Nid ydym wedi addasu'r rhifau gan y byddai hynny'n anfanwl ar lefel mor fanwl.

4.47 Fel y dangosir gan ddata DHG, mae tua 45% o ddarparwyr gofal dydd llawn a 38% o ofalwyr sesiynol presennol yn darparu ar gyfer anghenion ychwanegol lleferydd ac iaith. Mae cyfran y gwarchodwyr plant sy'n darparu ar gyfer anghenion ychwanegol yn llawer is, gyda dim ond 7% yn cynnwys anawsterau iaith a lleferydd. Mae hyn yn gyson â data a gasglwyd yn ein harolwg, a ganfu nad oedd 84% o'r gwarchodwyr plant a ymatebodd yn gofalu am blant ag anghenion ychwanegol[87]. Mae lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal dydd sesiynol yn gofalu am gyfran uwch o blant ADY ar gyfartaledd.

4.48 Er bod darparwyr yn cydnabod bod costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gofalu am blant ag ADY, dim ond 1% o ymatebwyr yr arolwg a oedd yn codi cyfradd fesul awr wahanol[88]. Roedd tua 40% o ddarparwyr a oedd yn cynnig darpariaeth ADY yn gallu cael mynediad at gymorth ariannol allanol i gyflenwi cymorth i blant ag ADY, ond dim ond 20% o'r ymatebwyr deimlai bod hyn yn ddigonol i gwrdd â'r costau ychwanegol[89].

4.49 Yn ein sgyrsiau â darparwyr gofal plant, codwyd ystod o faterion yn ymwneud â phlant ag ADY. Nododd darparwyr mai’r ddwy brif gost a oedd yn gysylltiedig â chynorthwyo plant ag ADY oedd costau hyfforddi a chostau staffio. Yn aml, roedd angen amser un-i-un rhwng plant ag ADY a staff mewn cyfnodau rhagarweiniol i sicrhau sefydlu a darparu cefnogaeth briodol. Nododd y gwarchodwyr plant a gyfwelwyd yr heriau penodol sy'n gysylltiedig â gofalu am blant ag ADY mewn lleoliad bach, megis ffactoreiddio proffil plant eraill yn eu gofal a neilltuo amser ychwanegol fel unig ofalwr. Canfyddai darparwyr o ystod o leoliadau nad oedd digon o hyfforddiant ymarferol ar anghenion dysgu penodol (e.e. dyspracsia, parlys yr ymennydd) a gwelwyd bod nifer o'r cyrsiau a

[87] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 251 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[88] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 260 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[89] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 260 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

oedd ar gael ar hyn o bryd yn rhy gyffredinol neu fel arall yn rhy ddrud. Mae angen ymchwil pellach i benderfynu beth yw graddfa’r problemau hyn a bylchau hyfforddi penodol yn ôl ardal a math o leoliad. Teimlai tua 40% o warchodwyr plant a ymatebodd i'r arolwg bod ganddynt y sgiliau a gallu iawn i ofalu am blant ag ADY, o’i gymharu â 70% o ddarparwyr gofal sesiynol a 60% o ddarparwyr gofal dydd llawn[90].

4.50 Yn ein cyfweliadau, amlygodd darparwyr gofal plant a dderbyniodd arian gan Dechrau'n Deg werth y rhaglen o ran cynorthwyo darparwyr gofal plant i reoli ADY. Yn benodol, roedd y darparwyr yn gwerthfawrogi'r mynediad i’r cyngor arbenigol, hyfforddiant a mecanweithiau atgyfeirio a ddarperir drwy'r rhaglen. Roedd rhai o'r darparwyr y siaradwyd â hwy yn ei chael yn anodd cael yr un lefel o gefnogaeth i blant y tu allan i'r rhaglen Dechrau'n Deg. Yn benodol, roedd materion dyrchafu a chael yr asesiadau gofynnol yn llawer mwy heriol i blant y tu allan i Dechrau'n Deg oherwydd materion preifatrwydd. Nododd llawer o ddarparwyr bwysigrwydd ymyrraeth gynnar a mynegwyd awydd am ddarpariaeth fwy cyfannol ar gyfer plant ifanc.

*Rheoliadau*

4.51 Rhaid i ddarparwyr gofal plant yng Nghymru gydymffurfio ag ystod o reoliadau ochr yn ochr â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir[91]. Yn ychwanegol at y rheoliadau hyn, mae'n rhaid i ddarparwyr gofal plant sy’n cyflenwi addysg gynnar gydymffurfio â Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, a rhaid i'r rhai sy'n cyflwyno Dechrau'n Deg fodloni safonau penodedig y Rhaglen.

---

[90] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 257 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[91] Gorchymyn Rheoli Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2016; Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010; Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Arolygu a Gwybodaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2010; Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010; Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru); Gorchymyn (Cychwyn Rhif 2, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol) (Diwygio) a (Diwygiad Canlyniadol) 2011; Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010; Rheoliadau Gwarchod a Gofal Dydd Plant (Anghymhwyso) (Cymru) 2010.

4.52 Er y cydnabyddir bod rheoliadau yn rhan annatod o sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, credai bron i hanner ymatebwyr yr arolwg bod y gost o gydymffurfio â'r rheoliadau yn rhy uchel[92]. Yn benodol, gwelwyd y gymhareb plentyn i staff fel y gost uchaf, ac yna'r rheoliadau amgylcheddol a lle. Fel y trafodwyd yn flaenorol, mae rheoliadau amgylchedd a lle yn benodol yn gwneud rhai darparwyr yn betrusgar i ehangu hyd yn oed os yw'r galw yn cynyddu.

4.53 Mae ynysu cost y rheoliadau yn dasg heriol, gan fod y costau fel arfer yn cael eu hintegreiddio i mewn i weithgareddau eraill ac ni ystyrir na'u cofnodi ar wahân gan ddarparwyr. Er mwyn deall yn llawn y gost o weithredu rheoliadau a'r effaith y gall ei chael ar y broses o wneud penderfyniadau y darparwyr gofal plant, mae angen ymchwil mwy manwl.

**Tabl 17.** Ymatebion arolwg ar gostau rheoliadau[93]

| | Cost uchel | Cost canolig | Cost isel | Amh. | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymarebau plentyn i staff | 51% | 22% | 3% | 21% | 3% |
| Rheoliadau amgylchedd a lle | 24% | 41% | 18% | 9% | 8% |
| Rheoliadau gweinyddol | 22% | 42% | 24% | 7% | 6% |
| Arlwyo | 16% | 43% | 25% | 12% | 4% |
| Lleiafswm cymwysterau staff | 14% | 30% | 22% | 26% | 7% |
| Gofal iechyd a hylendid | 14% | 47% | 30% | 4% | 5% |
| Rheoliadau diogelu | 13% | 36% | 41% | 5% | 5% |

4.54 Nododd rhai gwarchodwyr plant yn ein cyfweliadau eu bod yn teimlo bod y gwaith papur dan sylw i gwrdd â'r Safonau Gofynnol

[92] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 255 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[93] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 244 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

Cenedlaethol yn helaeth. Mae'r ymrwymiad amser sy'n gysylltiedig â llenwi gwaith papur yn arbennig o heriol i ddarparwyr sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain, ac yn aml maent angen oriau goramser i ymdopi ag ef. Awgrymwyd y gallai cymorth i ddatblygu systemau awtomataidd i reoli gwaith papur parhaus leihau'r baich amser hwn i warchodwyr plant yn arbennig.

4.55 Mater arall a godwyd yn ein cyfweliadau â darparwyr oedd diffyg eglurder o ran safonau. Mae hyn eto yn fater mwy amlwg i warchodwyr plant, a oedd yn teimlo y gallai safonau amrywio gydag arolygwyr. Credai'r darparwyr gofal dydd a gofal sesiynol y buom yn siarad â hwy bod materion cysondeb wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf, gydag arolygwyr AGGCC yn fwy parod i ddeall y materion a wynebir gan y lleoliadau.

4.56 Roedd darparwyr yn arbennig o gadarnhaol am symudiadau diweddar i gysoni fframweithiau arolygu Estyn ac AGGCC, ac yn credu ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir. I'r darparwyr hyn, mae rheoli cyngor sydd o bryd i'w gilydd yn gwrthdaro ac ymweliadau gan y ddau gorff arolygu yn arbennig o heriol ac yn cynyddu costau gweinyddol.

### Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

4.57 Mae'n debygol mai'r prif ffactor a fydd yn sbarduno newid yn y sector gofal plant yn y blynyddoedd i ddod fydd Cynnig Gofal Plant Cymru, a fydd yn dechrau cael ei gyflwyno'n raddol ym mis Medi 2017. Ar hyn o bryd, mae pob plentyn 3-4 oed â'r hawl i leiafswm o 10 awr yr wythnos yn ystod y tymor o addysg blynyddoedd cynnar. Bydd y Cynnig Gofal Plant Cymru yn cyfuno'r hawl hwn gyda 20 awr ychwanegol o ofal plant yn ystod y tymor i aelwydydd lle mae'r ddau riant yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos. Yn ystod gwyliau'r ysgol, bydd y teuluoedd hyn yn derbyn 30 awr o ofal plant am 9 wythnos. Gan fod y cynnig yn dal i gael ei lunio, mae llawer iawn o ansicrwydd ynghylch ei weithrediad a'i effaith.

4.58 Dywedodd bron i 40% o'r rhai a ymatebodd i Arolwg Gofal Plant Alma Economics nad oeddent yn gwybod sut y byddai'r cynnig yn effeithio ar eu busnes[94]. Roedd tua un rhan o dair o'r gofalwyr sesiynol a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod gan y cynnig y potensial i ddarparu cynnydd i’w busnes, gyda 20% yn credu y byddai'n gynnydd sylweddol. Roedd gwarchodwyr plant yn llawer mwy tebygol o ddweud na fyddai'r cynnig yn effeithio ar eu busnes. Yn wir, credai tua 10% o warchodwyr plant a ymatebodd y byddai'r cynnig yn lleihau eu busnes, am resymau fel llai o alw am wasanaethau y telir amdanynt, oherwydd cynnydd mewn lleoedd a ariennir a'r potensial ar gyfer cyfraddau ariannu isel.

4.59 Roedd llawer o’r darparwyr gofal plant y siaradwyd â hwy ac y cawsom sylwadau ganddynt yn gadarnhaol, os yn ochelgar, ynghylch y cyfleoedd posibl y gall y cynnig ddod yn ei sgil. Teimlai rhai fod y polisi yn gam i’r cyfeiriad cywir er mwyn creu sector gofal plant sy'n canolbwyntio ar ddewis rhieni ac annog datblygiad y sector preifat.

4.60 Yn benodol, y gobaith oedd y byddai'r cynnig yn annog mwy o ALlau i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau nas cynhelir. Teimlai nifer o leoliadau gofal dydd llawn bod y llinell rhwng gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn aneglur, ac yn aml mae eu darpariaeth yn unol â’r Cyfnod Sylfaen, p’un a ydynt yn ddarparwr cofrestredig swyddogol ai peidio. Fodd bynnag, roedd rhai ALlau yn cyfyngu ar leoedd addysg blynyddoedd cynnar a ariennir i leoliadau a gynhelir. Roedd rhai darparwyr a gyfwelwyd ac a roddodd sylwadau ychwanegol drwy'r arolwg yn mynegi rhwystredigaeth gyda diffyg ymgynghori â'r sector preifat yn hyn o beth, yn enwedig mewn rhanbarthau lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei darparu yn bennaf drwy’r sector a gynhelir. Gyda chyflwyniad yr oriau ychwanegol, teimlai rhai lleoliadau nas cynhelir y byddai er lles pennaf y plentyn i annog darparu addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar a ariennir mewn lleoliad sengl, er mwyn osgoi symud plant o gwmpas ac achosi

[94] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 262 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

aflonyddwch. Ar gyfer lleoliadau mewn ardaloedd gwledig, mae hyn yn broblem arbennig, oherwydd y pellteroedd danfon a chasglu plant, sy’n cynyddu costau cludiant a staff.

4.61 Roedd hanner yr ymatebwyr yn credu y gallai Cynnig Gofal Plant Cymru gynnig y cyfle i dyfu busnes.[95] Er enghraifft, nododd un darparwr o ardal y bernir bod ganddi gyfraddau digonolrwydd gofal plant isel, er gwaethaf yr asesiadau hyn, ei bod yn dal yn anodd llenwi lleoedd. Ymddengys bod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y defnydd o ofal plant, gan gynnwys cyfraddau cyflogaeth, cyflogau a phris gofal plant (fel y trafodwyd yn Atodiad 2). Y gobaith yw y byddai darparu oriau am ddim yn caniatáu llenwi’r swyddi gwag presennol, gan gynyddu effeithlonrwydd cost y darparwyr.

4.62 Y prif bryder ynghylch y cynnig oedd y gyfradd ar gyfer yr oriau ychwanegol. Roedd dros 60% o ddarparwyr a ymatebodd i'r arolwg yn bryderus am y gyfradd ariannu[96]. Os yw’r lleoedd yn cael eu hariannu ar gyfradd rhy isel, bydd darparwyr yn ei chael hi'n anodd sicrhau cynaliadwyedd. Os yw'r gyfradd yn is na'r cyfraddau a godir ar hyn o bryd, bydd darparwyr yn y pen draw yn cael yr un costau sefydlog ond incwm is. Roedd hyn hefyd yn broblem ehangach gan y byddai lleoedd yn cael eu colli i leoliadau sy'n cyflwyno lleoedd wedi'u hariannu.

4.63 Er bod rhai o'r darparwyr a gyfwelwyd yn nodi eu bod yn amharod i godi ffioedd ychwanegol ar gyfer pethau ychwanegol megis prydau bwyd a thripiau, roeddent hefyd yn awgrymu y byddai hynny'n cael ei ystyried os oedd y cyfraddau ariannu yn rhy isel. Roedd nifer o ddarparwyr y cawsom sylwadau ganddynt yn nodi na fyddent yn ymrwymo i gyflawni'r oriau a ariennir os nad oedd mecanwaith uwchraddio clir. Roedd pryder y byddai'r gyfradd ariannu yn aros yn ei

[95] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017, maint sampl 149 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[96] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017, maint sampl 243 - dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

hunfan, a chyda costau cynyddol, byddai'n ei gwneud yn anodd i ddarparwyr gynnal cynaliadwyedd a phroffidioldeb.

4.64 Pryder allweddol arall yw a fyddai'r cynnig yn defnyddio darparwyr presennol ynteu lleoliadau newydd. Mae rhan o'r pryder mewn perthynas â hyn yn deillio o weithredu Dechrau'n Deg. Roedd rhai darparwyr mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn nodi bod agor darparwyr penodol Dechrau'n Deg newydd wedi gostwng y galw am eu gwasanaethau hwy. Roedd llawer o ddarparwyr preifat a gwirfoddol a roddodd sylwadau yn nodi os nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei defnyddio, yna bydd yn tanseilio'r sector yn ei gyfanrwydd.

4.65 Mae cydbwyso darparu lleoedd a ariennir ar gyfer plant 2 oed a 3-4 oed yn her arall sy'n dod i'r amlwg. Nododd rhai darparwyr y siaradwyd â hwy eu bod yn aros i weld a fyddai'n fwy proffidiol i ganolbwyntio ar gyflawni Dechrau'n Deg ynteu lleoedd addysg blynyddoedd cynnar. Roedd pryder yn gyffredinol y byddai ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant 3-4 oed yn dod ar draul y Rhaglen Dechrau'n Deg, a oedd yn gyffredinol yn cael ei hystyried yn gadarnhaol gan y darparwyr y siaradwyd â hwy.

4.66 Roedd amrywiaeth o bryderon ynglŷn â sut y byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Nododd y darparwyr broblemau presennol gyda chael gafael ar gyllid drwy dalebau gofal plant, Dechrau’n Deg, lleoedd a ariennir ALI, ayb. Roedd y lleoliadau y buom yn siarad â hwy yn dweud y byddai'n well ganddynt i’r taliadau ddod yn uniongyrchol i ddarparwyr yn hytrach na thrwy rieni, i leihau oedi. Er y gallai lleoliadau mwy gyda ffynonellau ariannu amrywiol yn gyffredinol reoli cael eu talu yn ddiweddarach, ar ôl rhoi’r gwasanaeth, roedd llawer o leoliadau llai gyda ffynonellau ariannu llai amrywiol yn cael trafferth gyda phroblemau llif arian. Roedd amserau prosesu taliadau anghyson ac oedi sylweddol rhwng costau ac ad-dalu yn effeithio ar gapasiti darparwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Dywedodd gwarchodwr plant a oedd yn cael ei dalu ymlaen llaw gan Dechrau'n Deg ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar ei fusnes.

# 5. Costau, refeniw ac effeithlonrwydd

5.1 Ni wnaeth Arolwg Gofal Plant Alma Economics gasglu data o ansawdd digonol ar crèches a darparwyr Chwarae Mynediad Agored, felly mae’r adran hon yn canolwbyntio ar y costau a wynebir gan warchodwyr plant, gofal tu allan i’r ysgol, darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol yng Nghymru. Gan fod crèches a darparwyr Chwarae Mynediad Agored yn cynrychioli tua 1.5% o’r sector gofal plant, nid ydym yn ystyried bod eithrio’r darparwyr hyn yn effeithio’n sylweddol ar ein dadansoddiad. Dylid nodi hefyd ein bod wedi derbyn ymatebion cyfyngedig gan ddarparwyr gofal tu allan i’r ysgol i adran gost yr arolwg, ac felly dylai canfyddiadau yn y maes hwn gael eu dehongli yn ofalus.

5.2 Y ffynhonnell ar gyfer yr holl dablau a ffigyrau yn yr adran hon yw Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017, oni nodir yn wahanol. Am ddisgrifiad o’r set ddata hon a'r broses amcangyfrif a ddefnyddiwyd i gyrraedd ffigyrau cyfanredol lefel sector, gweler yr adran fethodoleg.

## Cyfanswm costau cyffredinol

5.3 O ymatebion yr arolwg[97] amcangyfrifir yn 2015-2016 bod tua £190 miliwn wedi ei wario ar gostau gweithredu (gan gynnwys costau staffio, cyfleustodau, rhent, glanhau, hyfforddiant, arlwyo ac offer) gan y sector gofal plant yng Nghymru. Roedd darparwyr gofal dydd llawn yn cyfrif am oddeutu dwy ran o dair o’r cyfanswm hwn.

[97] Mae’r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

**Tabl 18.** Cyfanswm costau yn ôl math o leoliad (cyfanswm sector) - 2015-2016[98]

| Math o leoliad | Cyfanswm Cost |
|---|---|
| Gwarchodwyr plant | £15,000,000 |
| Gofal dydd llawn | £126,000,000 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | £13,000,000 |
| Gofal sesiynol | £33,000,000 |
| Cyfanswm | £187,000,000 |

5.4 Ceir amrywiaeth helaeth o ran costau blynyddol y darparwyr gofal plant a ymatebodd i'r arolwg[99]. Mae'n arbennig o ddiddorol bod yr ystod o ymatebwyr darparwyr gofal dydd llawn yn fawr iawn - tuag at y pen isaf (25ain canradd), mae'r costau tua £50,000, tra tuag at y pen uchaf (75ed canradd) mae dros £230,000. Mae hyn yn rhoi cipolwg ar amrywiaeth rhwng darparwyr a'r anawsterau a all godi wrth ddod i gasgliadau am garfan mor amrywiol. Gwarchodwyr plant a nododd y costau cyfartalog isaf am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys maint eu gwasanaeth a'r gwahaniaeth yn y strwythur gweithredol o gymharu â busnesau mwy. Mae'n bwysig nodi bod gwarchodwyr plant hefyd yn llai tebygol o gyfrif eu helw eu hunain neu "gyflog" fel rhan o'u costau, felly efallai bod y ffigyrau cyffredinol yn ymddangos yn is nag ydynt mewn gwirionedd. Mae'r ystod ar gyfer gwarchodwyr plant yn llai amlwg, gyda'r darparwr canolrif yn dweud ei fod yn talu tua £6,000 mewn costau, sy'n agos i'r cyfartaledd (£7,000). Mae hefyd yn dweud cyfrolau bod y canolrif ar gyfer darparwyr gofal sesiynol yn weddol isel o gymharu â'r cyfartaledd, felly o ganlyniad mae'n debygol bod nifer o ddarparwyr gyda chostau sylweddol uwch, sy'n ystumio'r cyfartaledd.

[98] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2016. Maint sampl – 151. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[99] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

**Tabl 19.** Costau yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016

| Math o leoliad | Cyfartaledd | Canolrif | 25ain canradd | 75ed canradd |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | £7,096 | £5,889 | £3,000 | £8,335 |
| Gofal dydd llawn | £187,937 | £135,741 | £51,000 | £234,000 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | £32,039 | £15,550 | £14,160 | £49,800 |
| Gofal sesiynol | £42,378 | £23,775 | £15,960 | £50,000 |

**Tabl 20.** Crynodeb o gostau ar gyfartaledd yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016

| Categori Cost | Gwarchodwr plant | Gofal dydd llawn | Gofal Tu Allan i'r Ysgol | Gofal sesiynol |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £1,898 | £132,319 | £20,854 | £28,448 |
| Costau hyfforddiant staff i gwrdd â'r safonau gofynnol cenedlaethol | £50 | £1,103 | £265 | £201 |
| Costau hyfforddiant staff ar gyfer datblygiad proffesiynol | £48 | £1,149 | £150 | £251 |
| Costau prydau ac arlwyo | £1,567 | £6,907 | £1,773 | £600 |
| Rhent/eiddo | £644 | £16,459 | £3,061 | £2,434 |
| Glanhau | £411 | £3,250 | £568 | £597 |
| Offer a deunyddiau | £1,138 | £5,517 | £1,666 | £1,453 |
| Cyfleustodau | £475 | £4,958 | £2,000 | £6,321 |
| Yswiriant | £124 | £1,709 | £396 | £365 |
| Arall[100] | £741 | £14,567 | £1,305 | £1,709 |
| Cyfanswm | £7,096 | £187,937 | £32,039 | £42,378 |

[100] Nid yw'r costau eraill penodol wedi'u dadgyfuno ond disgwylir i gostau cludiant fod yn elfen gost bwysig.

**Tabl 21.** Crynodeb o gostau canolrif yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016

| Categori Cost | Gwarchodwr plant | Gofal dydd llawn | Gofal Tu Allan i'r Ysgol | Gofal sesiynol |
|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £0 | £115,000 | £17,550 | £18,814 |
| Costau hyfforddiant staff i gwrdd â'r safonau gofynnol cenedlaethol | £10 | £689 | £200 | £104 |
| Costau hyfforddiant staff ar gyfer datblygiad proffesiynol | £0 | £575 | £150 | £150 |
| Costau prydau ac arlwyo | £1,000 | £6,000 | £750 | £400 |
| Rhent/eiddo | £0 | £9,043 | £2,600 | £1,586 |
| Glanhau | £100 | £2,500 | £200 | £300 |
| Offer a deunyddiau | £623 | £3,482 | £750 | £1,000 |
| Cyfleustodau | £397 | £3,600 | £2,000 | £1,040 |
| Yswiriant | £87 | £1,105 | £314 | £243 |
| Arall | £0 | £12,300 | £1,075 | £700 |
| Cyfanswm | £5,889 | £135,741 | £15,550 | £23,775 |

## Costau staff

5.5 Dengys yr arolwg[101] mai costau staff sy'n tueddu i fod y gost fwyaf amlwg i leoliadau gofal plant. Mae costau staff yn cyfrif am tua 70% o gyfanswm y costau cyfartalog ar gyfer darparwyr gofal dydd llawn a gofal dydd sesiynol. Y costau canolrif staff i ddarparwyr gofal dydd llawn yw £115,000, gyda'r cyfartaledd ychydig yn uwch, ar ychydig dros £130,000. Mae amrywiad sylweddol rhwng darparwyr - er enghraifft, adroddodd darparwr gofal dydd llawn 25ain canradd gostau staff ychydig dros £40,000, tra'r adroddodd darparwyr 75ed canradd eu bod yn wynebu costau staffio o ychydig o dan £190,000.

[101] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

5.6 Mae'n bwysig nodi nad yw'r rhan fwyaf o warchodwyr plant yn cyflogi staff, ac felly mae costau cyflog gwarchodwr plant canolrif yn sero. Yn ôl y data DHG, mae tua 10% o warchodwyr plant yn cyflogi cynorthwywyr neu gymorth, er yn ein dadansoddiad adroddodd y darparwr 75ed canradd rai costau staffio (isel iawn) - ac felly mae'n ymddangos bod y gyfran o warchodwyr plant sy'n defnyddio staff - hyd yn oed os ydynt yn rhai dros dro/anaml - rywfaint yn uwch.

**Tabl 22.** Costau staff yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016[102]

| Math o ddarparwr | Cyfartaledd | Canolrif | 25ain canradd | 75ed canradd |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | £1,898 | £0 | £0 | £100 |
| Gofal dydd llawn | £132,319 | £115,000 | £42,321 | £188,000 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | £20,854 | £17,550 | £12,000 | £31,366 |
| Gofal sesiynol | £28,448 | £18,814 | £12,200 | £38,500 |

5.7 Disgwylir i gyflwyniad y CBC gael effaith ddwys ar gweithlu gofal plant yng Nghymru. Mae'r CGMD (2017) yn amcangyfrif bod y CBC wedi cynyddu costau cyflogres cyfartalog o 8% rhwng 2016-2017 mewn lleoliadau gofal dydd llawn yng Nghymru. Mae'r cynllun pensiwn cofrestru awtomatig yn gost newydd posibl arall ar gyfer busnesau bach yng Nghymru. O dan y gyfraith a gyflwynwyd yn 2012, mae'n ofynnol i bob cyflogwr gynnig cynllun pensiwn gweithle. Mae'r rhan fwyaf o fusnesau bach (gyda 30 neu lai o weithwyr) wedi cael dyddiadau cyflwyno ar gyfer y cynllun rhwng 2016 ac 2017. Cyfanswm y cyfraniad lleiaf i'r cynllun gan gyflogwyr yw 1% o enillion cymwys (mae enillion cyn treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn cael eu didynnu rhwng terfyn enillion uchaf ac isaf). Ar ben hynny, nododd

[102] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2016. Maint sampl – 164 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

darparwyr gofal plant gynnydd mewn costau gweinyddol yn y flwyddyn ddiwethaf wrth iddynt sefydlu'r cynllun.

**Costau yn ymwneud ag eiddo**

5.8 Hefyd nodwyd yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics[103] bod costau rhent ac eiddo yn draul sylweddol ar leoliadau gofal plant yng Nghymru, yn cyfrif ar gyfartaledd am tua 10% o’r holl gostau i leoliadau gofal dydd llawn a gofal tu allan i’r ysgol, a 5% i ddarparwyr gofal sesiynol. Dywedodd darparwyr gofal sesiynol bod rhannu gofod cyffredin, er yn cyfyngu ar eu capasiti i ehangu, yn caniatáu talu llai o rent a chostau cysylltiedig ag eiddo. Gan fod lleoliadau gofal dydd wedi eu lleoli amlaf mewn eiddo annibynnol neu eiddo nad yw’n cael ei rannu, roedd y costau cyfartalog yn uwch.

5.9 Dywedodd y rhan fwyaf o warchodwyr plant a ymatebodd i Arolwg Gofal Plant Alma Economics nad oedd ganddynt unrhyw gostau rhent – oherwydd eu bod mewn llawer o achosion yn gweithredu allan o eiddo y maent yn berchen arno yn hytrach na’i rentu, neu oherwydd eu bod yn meddwl am rent fel traul personol, yn hytrach na thraul busnes. Felly, fel yn achos costau staffio, mae'r ffigyrau a adroddwyd ar gyfer gwarchodwyr plant yn tanddatgan gwir gost adnoddau i ddarparu gwasanaethau.

[103] Mae’r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

**Tabl 23.** Costau rhent/eiddo yn ôl math o leoliad - Ebrill 2015 – Mawrth 2016[104]

| Math o leoliad | Cyfartaledd | Canolrif | 25ain canradd | 75ed canradd |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | £644 | £0 | £0 | £0 |
| Gofal dydd llawn | £16,459 | £9,043 | £5,500 | £19,000 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | £3,061 | £2,600 | £1,500 | £4,700 |
| Gofal sesiynol | £2,434 | £1,586 | £1,000 | £3,000 |

5.10 Mater allweddol arall a godwyd drwy ein sgyrsiau gyda darparwyr oedd trethi busnes. Trethi busnes yw'r trethi a delir gan berchnogion busnes am eu heiddo. Ail-werthuswyd trethi busnes yng Nghymru yn Ebrill 2017, a chyflwynwyd cyfraddau newydd. Er bod gan Llywodraeth Cymru becynnau rhyddhad i fusnesau bach (mae safleoedd gofal plant cofrestredig yn cael rhyddhad o 50% os yw eu gwerth ardrethol yn llai na £12,000), mae busnesau mwy wedi tynnu sylw at y cyfraddau cynyddol fel pryder. Mewn arolwg a gynhaliwyd gan CGMD yng Nghymru (2017), nododd oddeutu 23% o leoliadau gofal diwrnod llawn eu bod wedi gweld cynnydd mewn cyfraddau busnes, gyda'r bil trethi busnes ar gyfartaledd yn cyrraedd £9,534 ar werth ardrethol cyfartalog o £19,441. Teimlai rhai darparwyr preifat fod trethi busnes yn eu hatal rhag darparu gwasanaethau cystadleuol. Mae'n werth nodi nad yw'n glir p'un a ddosbarthwyd trethi busnes fel "treuliau eraill" ynteu eu cyfuno â chostau rhent ac eiddo mewn ymatebion i'r arolwg.

## Costau prydau ac arlwyo

5.11 Amcangyfrifa Arolwg Gofal Plant Alma Economics[105] bod costau prydau ac arlwyo yn draul sylweddol i leoliadau sy'n cynnig darpariaeth

[104] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2016. Maint sampl – 140. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[105] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

gofal dydd llawn, fel gwarchodwyr plant a gwasanaethau gofal dydd llawn. Gan fod darparwyr gofal sesiynol yn cynnig sesiynau byrrach sydd ddim angen darparu prydau sylweddol, mae'r costau yn gymharol isel. Yn ein sgyrsiau â darparwyr, nodwyd heblaw am y gost fod lefel yr ymdrech a oedd ei hangen i baratoi prydau maethlon yn arbennig o feichus i leoliadau llai, fel gwarchodwyr plant.

**Tabl 24.** Costau prydau ac arlwyo yn ôl math o leoliad[106]

| | Cyfartaledd | Canolrif | 25ain canradd | 75ed canradd |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | £1,567 | £1,000 | £250 | £2,572 |
| Gofal dydd llawn | £6,907 | £6,000 | £2,300 | £10,147 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | £1,773 | £750 | £700 | £2,000 |
| Gofal sesiynol | £600 | £400 | £205 | £616 |

5.12 Er bod rhai darparwyr ar hyn o bryd yn codi ffioedd ychwanegol i dalu cost prydau, nid dyna'r norm. Yn seiliedig ar yr Arolwg Gofal Plant Alma Economics[107], rydym yn amcangyfrif mai dim ond 1 o bob 7 o ddarparwyr sy'n codi tâl am brydau bwyd ar ben eu cyfradd safonol. Ymhellach, mae darparwyr gofal sesiynol a gwarchodwyr plant yn fwy tebygol o godi tâl am brydau bwyd ar wahân o gymharu â lleoliadau gofal dydd llawn a gofal tu allan i'r ysgol. Mae'n debyg bod hyn oherwydd y canfyddiad bod gwasanaethau gofal dydd llawn yn cynnwys prydau bwyd, ond bod prydau bwyd yn ddewisol mewn sesiynau gofal byrrach. Mewn sgyrsiau gyda darparwyr, nododd llawer bod codi tâl am brydau yn cyflwyno cymhlethdod gweinyddol ar wahân, ac nad oedd rhieni yn hoff ohono.

[106] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2016. Maint sampl – 148. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[107] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

## Hyfforddiant

5.13 Dim ond cyfran fach iawn o gyfanswm y costau ar gyfer darparwyr gofal plant yw costau hyfforddi staff, yn ôl yr ymatebion i'r arolwg. Mae hefyd werth nodi, er y gofynnwyd i ymatebwyr adrodd ar hyfforddiant staff ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant i fodloni safonau gofynnol cenedlaethol ar wahân, mae'n debygol y bydd rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y categorïau cost.

**Tabl 25.** Costau hyfforddiant staff[108]

| | *Costau hyfforddiant staff i gwrdd â'r safonau gofynnol cenedlaethol* | | *Costau hyfforddiant staff ar gyfer datblygiad proffesiynol* | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfartaledd | Canolrif | Cyfartaledd | Canolrif |
| Gwarchodwr plant | £50 | £10 | £48 | £0 |
| Gofal dydd llawn | £1,103 | £689 | £1,149 | £575 |
| Gofal Tu Allan i'r Ysgol | £265 | £200 | £150 | £150 |
| Gofal sesiynol | £201 | £104 | £251 | £150 |

5.14 Mewn sgyrsiau gyda darparwyr gofal plant, gwelwyd bod rhai materion yn codi eu pen fwy nag unwaith. Nododd gwarchodwyr plant yn arbennig bod hyfforddiant ar gyfer datblygiad proffesiynol yn aml naill ai'n rhy gyffredinol neu'n rhy ddrud. Pellter a sicrhau amser i fynychu hyfforddiant oedd rhai o'r rhwystrau eraill. Nid oedd gan y mwyafrif o leoliadau yn yr arolwg gyllideb hyfforddiant benodol.

5.15 Dangosodd Arolwg Gweithlu Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar 2016 yng Nghymru bod galw penodol am hyfforddiant mewn amddiffyn plant/ diogelu, iechyd a diogelwch, bwyd a hylendid, a chymorth cyntaf (CWLWM, 2017).

[108] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2016. Maint sampl datblygiad proffesiynol – 134 responses, staff training maint sampl – 149. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

## Offer a deunyddiau

5.16 Mae amcangyfrifon Arolwg Gofal Plant Alma Economics[109] yn awgrymu bod offer a deunydd yn gostau arbennig o uchel i warchodwyr plant mewn cymhariaeth â chostau eraill. Nododd rhai darparwyr eu bod yn gallu rheoli costau sy'n gysylltiedig ag offer a deunyddiau drwy gael gafael ar grantiau a/neu lyfrgelloedd adnoddau gan eu hawdurdod lleol neu Dechrau'n Deg.

## Costau eraill

5.17 Mae costau eraill a nodwyd yn yr arolwg yn cynnwys glanhau, cyfleustodau ac yswiriant. Mae costau cyfleustodau a glanhau yn gymharol uwch i warchodwyr plant na darparwyr eraill. Roedd rhai gwarchodwyr plant yn arbennig o bryderus am bris cynyddol nwy a thrydan. Mae 4 o 6 phrif gyflenwyr trydan wedi cyhoeddi cynnydd o rhwng 8% -15% eleni (Newyddion BBC, 2017).

5.18 O ran costau eraill na nodwyd fesul eitem yn unigol yn yr arolwg, nododd rhai darparwyr y gall costau cludiant fod yn sylweddol, yn enwedig ar gyfer lleoliadau yng nghefn gwlad.

## Dyfodol costau

5.19 Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant a ymatebodd i'r arolwg yn disgwyl cynnydd sylweddol mewn costau, gyda chynnydd mwy cymedrol mewn incwm dros y ddwy flynedd nesaf[110]. Disgwyliai tua hanner yr ymatebwyr i gostau godi o 10% neu fwy, gyda 37% yn disgwyl cynnydd o 10% -30%. Roedd darparwyr gofal sesiynol a gofal dydd llawn yn arbennig yn disgwyl cynnydd sylweddol mewn costau. Ar y llaw arall, dim ond 14% o ddarparwyr oedd yn disgwyl i incwm godi o 10%, gyda 39% o ymatebwyr yn disgwyl cynnydd o lai na 5%.

---

[109] Mae'r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[110] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2016. Maint sampl – 230. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

5.20 Dengys y tablau isod ein rhagamcaniadau cost manwl ar gyfer costau cyfartalog yn y sector. Mae'r rhain yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:

a) Costau heblaw cyflog: Rydym wedi cymryd yn ganiataol y bydd y costau hyn yn tyfu yn unol â GDP enwol, gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yn rhagweld twf cyfartalog yn 2017-2021 o tua 3.6%.

b) Rhagamcan costau cyflog: Yn seiliedig ar Arolwg Gofal Plant Alma Economics, mae tua 1 o bob 5 o weithwyr yn y sector yn cael eu talu ar hyn o bryd o dan y raddfa CBC, tra ar y pen arall ychydig iawn sy'n cael eu talu'n sylweddol fwy (ymddengys bod llai na 30% o weithwyr yn ennill mwy na £8 y awr, a dim ond tua 10% yn ennill mwy na £9 yr awr).

Wrth i raddfa'r CBC gynyddu, bydd y sector yn addasu y tu hwnt i uwchraddio cyfraddau cyflog y staff a effeithir yn uniongyrchol i fodloni gofynion y CBC: bydd cyflogau ar y pen uchaf, er enghraifft, yn debygol hefyd o gynyddu i ryw raddau i gadw rhywfaint o dâl gwahaniaethol rhwng gweithwyr uwch a gweithwyr iau (Comisiwn Cyflogau Isel 2016). Ar yr un pryd, efallai y bydd y sector yn gwneud addasiadau eraill i ostwng effaith y newidiadau - er enghraifft, yn ceisio cynyddu'r gyfran o bobl dan 25 oed ymysg y staff (neu leihau nifer y staff yn fwy cyffredinol) fel nad yw'r CBC yn rhwymol, a gall y costau gael eu gostwng. Mae'r OBR yn cynhyrchu rhagolwg swyddogol ar gyfer y cynnydd a ddisgwylir yn y CBC a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (ICC) ym mhob un o'r blynyddoedd rhwng 2017 a 2021, gyda'r disgwyl y bydd y cynnydd yn 5% (ar gyfartaledd) i drothwy CBC, a 3.4% i drothwy ICC.

5.21 Ar gyfer ein dadansoddiad, a chan ystyried y gyfran cymharol o weithwyr sy'n ennill cyflog yn y gwahanol fandiau-cyflog a'r ffaith y gall y newidiadau arwain at newidiadau yng nghyfansoddiad cymharol y gweithlu gofal plant, rydym yn tybio y bydd cyflogau yn y sector yn tyfu o tua 4.2% y flwyddyn ar gyfartaledd - ar bwynt canol rhwng twf ICC a CBC. Noder nad ydym wedi modelu'n benodol effaith y cynnydd yn y ddarpariaeth gofal plant yn sgil y cynnig, gan nad yw manylion y polisi

wedi eu cwblhau eto, ac y gallent effeithio'n sylweddol ar strwythur y sector ac esblygiad costau.

**Tabl 26.** Gwarchodwyr plant: Amcanestyniad costau cyfartalog 2016-2021

| Categori Cost | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £1,898 | £1,987 | £2,068 | £2,156 | £2,250 | £2,339 |
| Costau hyfforddiant staff i gwrdd â’r safonau gofynnol cenedlaethol | £50 | £52 | £54 | £55 | £57 | £60 |
| Costau hyfforddiant staff ar gyfer datblygiad proffesiynol | £48 | £50 | £52 | £53 | £55 | £58 |
| Costau prydau ac arlwyo | £1,567 | £1,626 | £1,677 | £1,734 | £1,800 | £1,872 |
| Rhent/eiddo | £644 | £669 | £690 | £713 | £740 | £770 |
| Glanhau | £411 | £427 | £440 | £455 | £472 | £491 |
| Offer a deunyddiau | £1,138 | £1,181 | £1,218 | £1,259 | £1,307 | £1,359 |
| Cyfleustodau | £475 | £493 | £508 | £525 | £545 | £567 |
| Yswiriant | £124 | £128 | £132 | £137 | £142 | £148 |
| Arall | £741 | £770 | £793 | £820 | £852 | £886 |
| Cyfanswm | £7,096 | £7,383 | £7,631 | £7,908 | £8,221 | £8,548 |

**Tabl 27.** Darparwyr gofal dydd llawn: Amcanestyniad costau cyfartalog 2016-2021

| Categori Cost | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £132,319 | £138,532 | £144,191 | £150,328 | £156,908 | £163,083 |
| Costau hyfforddiant staff i gwrdd â'r safonau gofynnol cenedlaethol | £1,103 | £1,144 | £1,180 | £1,220 | £1,266 | £1,317 |
| Costau hyfforddiant staff ar gyfer datblygiad proffesiynol | £1,149 | £1,192 | £1,229 | £1,271 | £1,319 | £1,372 |
| Costau prydau ac arlwyo | £6,907 | £7,169 | £7,391 | £7,643 | £7,933 | £8,250 |
| Rhent/eiddo | £16,459 | £17,085 | £17,614 | £18,213 | £18,905 | £19,661 |
| Glanhau | £3,250 | £3,373 | £3,478 | £3,596 | £3,732 | £3,882 |
| Offer a deunyddiau | £5,517 | £5,727 | £5,904 | £6,105 | £6,337 | £6,590 |
| Cyfleustodau | £4,958 | £5,147 | £5,306 | £5,487 | £5,695 | £5,923 |
| Yswiriant | £1,709 | £1,774 | £1,829 | £1,891 | £1,963 | £2,041 |
| Arall | £14,567 | £15,121 | £15,590 | £16,120 | £16,732 | £17,402 |
| Cyfanswm | £187,937 | £196,263 | £203,712 | £211,872 | £220,792 | £229,522 |

**Tabl 28.** Darparwyr gofal tu allan i'r ysgol: Amcanestyniad costau cyfartalog 2016-2021

| Categori Cost | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £20,854 | £21,833 | £22,725 | £23,692 | £24,730 | £25,703 |
| Costau hyfforddiant staff i gwrdd â'r safonau gofynnol cenedlaethol | £265 | £275 | £284 | £293 | £305 | £317 |
| Costau hyfforddiant staff ar gyfer datblygiad proffesiynol | £150 | £156 | £161 | £166 | £172 | £179 |
| Costau prydau ac arlwyo | £1,773 | £1,840 | £1,897 | £1,962 | £2,036 | £2,118 |
| Rhent/eiddo | £3,061 | £3,178 | £3,276 | £3,388 | £3,516 | £3,657 |
| Glanhau | £568 | £590 | £608 | £629 | £653 | £679 |
| Offer a deunyddiau | £1,666 | £1,729 | £1,783 | £1,844 | £1,914 | £1,990 |
| Cyfleustodau | £2,000 | £2,076 | £2,140 | £2,213 | £2,297 | £2,389 |
| Yswiriant | £396 | £411 | £424 | £438 | £455 | £473 |
| Arall | £1,305 | £1,354 | £1,396 | £1,444 | £1,499 | £1,559 |
| Cyfanswm | £32,039 | £33,443 | £34,695 | £36,069 | £37,576 | £39,063 |

**Tabl 29.** Darparwyr gofal sesiynol: Amcanestyniad costau cyfartalog 2016-2021

| Categori Cost | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau staff | £28,448 | £29,784 | £31,000 | £32,320 | £33,735 | £35,062 |
| Costau hyfforddiant staff i gwrdd â’r safonau gofynnol cenedlaethol | £201 | £209 | £215 | £223 | £231 | £241 |
| Costau hyfforddiant staff ar gyfer datblygiad proffesiynol | £251 | £260 | £268 | £277 | £288 | £299 |
| Costau prydau ac arlwyo | £600 | £623 | £642 | £664 | £689 | £717 |
| Rhent/eiddo | £2,434 | £2,526 | £2,604 | £2,693 | £2,795 | £2,907 |
| Glanhau | £597 | £619 | £638 | £660 | £685 | £713 |
| Offer a deunyddiau | £1,453 | £1,508 | £1,555 | £1,607 | £1,668 | £1,735 |
| Cyfleustodau | £6,321 | £6,561 | £6,765 | £6,995 | £7,260 | £7,551 |
| Yswiriant | £365 | £379 | £391 | £404 | £419 | £436 |
| Arall | £1,709 | £1,774 | £1,829 | £1,891 | £1,963 | £2,041 |
| Cyfanswm | £42,378 | £44,243 | £45,908 | £47,734 | £49,734 | £51,702 |

## Incwm

5.22 O gymharu â chostau, cawsom lai o ymatebion i Arolwg Gofal Plant Alma Economics ynglŷn ag incwm. Ni chasglwyd data o ansawdd digonol ar ddarparwyr gofal tu allan i’r ysgol, crèches a darparwyr chwarae mynediad agored i roi dadansoddiadau manwl – o’u cyfuno, mae’r lleoliadau hyn yn cyfrif am tua 12% o'r sector.

5.23 Oherwydd cyfyngiadau ansawdd data, mae'n anodd amcangyfrif cyfanswm yr incwm a dderbynnir gan ddarparwyr gofal plant yng Nghymru yn fanwl gywir. Fodd bynnag, gallwn amcangyfrif bod gwarchodwyr plant, lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal sesiynol wedi derbyn tua £195 miliwn yn 2015-2016[111].

5.24 Roedd tua 93% o gyfanswm yr incwm a enillwyd gan warchodwyr plant yn cynnwys ffioedd gofal plant a delir gan rieni, gyda'r ffigwr cyfatebol ar gyfer lleoliadau gofal dydd llawn yn 88%. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod y rhan fwyaf o warchodwyr plant a darparwyr gofal dydd llawn yn derbyn incwm yn gyfan gwbl o ffioedd a delir gan rieni, ac nad oedd ganddynt ffynhonnell arall. Ar y llaw arall, adroddodd lleoliadau gofal sesiynol eu bod yn derbyn 47% o'u hincwm o leoedd a ariennir yn gyhoeddus, gyda ffioedd a delir gan rieni yn 41%.

**Tabl 30.** Ffynonellau incwm yn ôl math o leoliad[112]

| Ffynhonnell incwm | *Gwarchodwr plant* | | *Gofal dydd llawn* | | *Gofal sesiynol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfartaledd | Canolrif | Cyfartaledd | Canolrif | Cyfartaledd | Canolrif |
| Lleoedd a ariennir gan y Llywodraeth | £432 | £0 | £9,912 | £0 | £13,375 | £6,285 |
| Ffioedd gofal plant (rhieni) | £13,273 | £12,000 | £167,995 | £111,471 | £11,826 | £6,215 |
| Grantiau | £490 | £0 | £3,945 | £0 | £1,433 | £0 |
| Rhoddion a chodi arian | £0 | £0 | £2,401 | £0 | £1,635 | £1,000 |
| Arall | £125 | £0 | £6,182 | £0 | £469 | £0 |

[111] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys incwm amcangyfrifedig gwarchodwyr plant, darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol. Maint sampl – 160. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

[112] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl – 160. Dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

5.25 Mae lleoedd ariennir gan y Llywodraeth yn cyfeirio at ystod o wahanol ffynonellau ariannu, gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i Dechrau'n Deg, cyllid blynyddoedd cynnar, cyllid Awdurdod Lleol ar gyfer gofal seibiant a Phlant sy'n Derbyn Gofal a lleoedd a ariennir gan PaCE. Mae lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal dydd sesiynol yn derbyn incwm llawer uwch o leoedd a ariennir yn gyhoeddus. Er enghraifft, dengys data unigol DHG o blith y lleoliadau sy'n cael cyllid Dechrau'n Deg, bod tua 49% yn rhai gofal sesiynol dydd, 36% yn ofal dydd llawn a dim ond 14% yn warchodwyr plant. O ran y rhai sy'n derbyn cyllid blynyddoedd cynnar, mae 40% yn lleoliadau gofal dydd llawn a 60% yn lleoliadau gofal dydd sesiynol.

5.26 Yn achos grantiau, mae ystod o ddewisiadau ar gael i ddarparwyr gofal plant, yn dibynnu ar eu maint a'u hawdurdod lleol. I roi enghraifft, mae rhai ALlau yn rhoi grantiau dechrau busnes ar raddfa fach i warchodwyr plant i dalu am offer hanfodol. Hefyd mae grantiau cynaliadwyedd ar raddfa fwy neu grantiau uwchraddio seilwaith ar gael mewn rhai ardaloedd. Ymddengys fod amrywiaeth helaeth ar draws ALlau o ran argaeledd a maint y grantiau hyn. Mewn rhai o'n sgyrsiau gyda darparwyr gofal sesiynol, nodwyd y gall y mathau hyn o grantiau gynorthwyo darparwyr i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac uwchraddio seilwaith.

**Proffidioldeb**

5.27 Yn yr adran hon, edrychir yn fanylach ar broffidioldeb yn y sector gofal plant. Mae tuedd gynhenid yn y canlyniadau ynghylch proffidioldeb oherwydd na chofnodir gwybodaeth am ddarparwyr sydd wedi gadael y sector - yr hyn a elwir yn "rhagfarn goroeswyr". Yn ogystal, gall elw a cholledion amrywio'n fawr o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar benderfyniadau busnes amrywiol neu dreuliau unwaith ac am byth, megis uwchraddio seilwaith.

5.28 Elw cymharol isel a gaiff y mwyafrif o ddarparwyr gofal plant. Yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics[113] amcangyfrifir yn 2016-2017 bod tua chwarter y darparwyr yn disgwyl gweithredu ar golled, sy’n gyson â data o’r ddwy flynedd ariannol flaenorol. Roedd lleoliadau gofal dydd sesiynol a lleoliadau gofal dydd llawn yn fwy tebygol o adrodd colled na gwarchodwyr plant – sydd ddim yn synod, o gofio nad yw gwarchodwyr plant fel rheol yn tynnu cyflog (a fyddai’n cael ei gofnodi fel cost). Mae'r arolwg yn amcangyfrif bod tua 40% o ddarparwyr gofal sesiynol a 35% o leoliadau gofal dydd llawn wedi adrodd colledion yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Ar gyfartaledd, darparwyr gofal sesiynol yw'r rhai lleiaf proffidiol, gyda gostyngiad arbennig o ddramatig mewn proffidioldeb yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Hefyd mae lefelau elw yn y sector gofal dydd llawn wedi gostwng yn y 3 blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae elw wedi cynyddu i warchodwyr plant a darparwyr gofal tu allan i’r ysgol. O ystyried y newidiadau cyfyngedig o ran proffidioldeb a maint cymharol fach y sampl, noder y dylai'r *newidiadau* amcangyfrifiedig i broffidioldeb cyfartalog gael eu trin yn weddol ofalus.

**Tabl 31.** Elw yn ôl math o leoliad[114]

| Blwyddyn ariannol | *Gwarchodwr plant* | | *Gofal dydd llawn* | | *Gofal tu allan i’r ysgol* | | *Gofal sesiynol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfartaledd | Canolrif | Cyfartaledd | Canolrif | Cyfartaledd | Canolrif | Cyfartaledd | Canolrif |
| 2014-2015 | £6,655 | £5,250 | £14,686 | £9,000 | £2,724 | £590 | £1,334 | £206 |
| 2015-2016 | £8,117 | £6,169 | £11,859 | £6,958 | £3,304 | £185 | £1,967 | £844 |
| 2016-2017 | £8,014 | £8,000 | £10,360 | £2,820 | £3,728 | £200 | £344 | £400 |

113 Mae’r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

114 Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. 2014-2015 maint sampl -131, 2015-2016 maint sampl -153, 2016-2017 maint sampl – 130. Dangosol yn unig yw’r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

## Effeithlonrwydd

5.29 Yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics, gofynnwyd i ddarparwyr ynghylch y nifer o oriau-plant yr oeddent yn eu cyflenwi mewn wythnos gyfartalog, yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau ysgol. Er enghraifft, petai darparwr yn gofalu am 10 o blant am 10 awr yr un, byddai hynny'n 100 o oriau-plant. Yna allosodwyd yr oriau ar gyfer y tymor (38 wythnos y flwyddyn) ac amser gwyliau (10 wythnos y flwyddyn) er mwyn cael ffigwr i gyfanswm yr oriau-plant sy'n cael eu darparu mewn blwyddyn. Yn olaf, rhannwyd cyfanswm y costau a gyflenwyd ar gyfer 2015-2016 gan y nifer o oriau-plant mewn blwyddyn i gyrraedd y gost fesul oriau-plant i bob darparwr.

**Tabl 32.** Cost fesul oriau-plant[115]

| Math o leoliad | Cyfartaledd | 25ain canradd | Canolrif | 75ed canradd |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | £1.90 | £0.82 | £1.22 | £2.00 |
| Gofal dydd llawn | £6.34 | £1.61 | £2.62 | £5.28 |
| Gofal tu allan i'r ysgol | £5.21 | £1.47 | £1.82 | £2.73 |
| Gofal sesiynol | £5.96 | £2.15 | £2.63 | £3.84 |

5.30 Lleoliadau gofal tu allan i'r ysgol a gwarchodwyr plant a adroddodd y gost isaf fesul oriau-plant. I ryw raddau gall hyn gael ei briodoli i'w cyfartaledd cymarebau staffio isel, a drafodir yn fanylach ar y dudalen nesaf. Hefyd, dylid nodi ei bod yn debygol y bydd y gost gyfartalog fesul awr gwarchodwyr plant yn ymddangos yn is oherwydd eithrio cyflog/elw o gyfanswm cyfrifiadau cost, fel y trafodwyd yn gynharach. Lleoliadau gofal dydd llawn a adroddodd y gost gyfartalog uchaf o ran cost oriau-plant.

[115] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl - 136 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

5.31 I bob math o ddarparwyr a ymatebodd i'r arolwg ac eithrio gwarchodwyr plant, nododd y darparwyr canolrif a hyd yn oed y darparwr 75ed canradd gostau is o ran oriau-plant na'r cyfartaledd - mewn geiriau eraill, mae nifer cymharol fach o ddarparwyr yn ymddangos fel petaent â chostau sylweddol uwch, sy’n gyrru i fyny’r cyfartaledd. Er ein bod wedi defnyddio nifer o wiriadau a chywiriadau i ymatebion unigol er mwyn lleihau'r potensial y bydd ymatebion gwallus yn gyrru’r canlyniadau, mae'n bosibl bod y costau cyfartalog a adroddir yn y tabl uchod yn oramcangyfrif i ryw raddau o’r cyfartaledd gwirioneddol.

5.32 Mae'n bwysig nodi bod ystod o ffactorau yn dylanwadu ar y gost fesul oriau-plant ar gyfer lleoliad, gan gynnwys lleoliad daearyddol, oriau agor gwyliau ac oedran y plant sy'n derbyn gofal. Nid oes data o ansawdd digonol i archwilio'r ffactorau hyn yn fwy manwl.

5.33 Yn seiliedig ar ein dadansoddiad cynharach o esblygiad tebygol y cyfanswm costau, dengys y tabl isod y gost ddisgwyliedig fesul oriau-plant ym mhob blwyddyn hyd at 2021[116].

**Tabl 33.** Cost fesul amcanestyniad oriau-plant - 2016-2021

| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | £1.90 | £1.97 | £2.04 | £2.11 | £2.20 | £2.28 |
| Gofal dydd llawn | £6.34 | £6.62 | £6.87 | £7.14 | £7.44 | £7.74 |
| Gofal tu allan i’r ysgol | £5.21 | £5.44 | £5.64 | £5.87 | £6.11 | £6.35 |
| Gofal sesiynol | £5.96 | £6.22 | £6.45 | £6.71 | £6.99 | £7.27 |

116 Cymerir y bydd y gost fesul awr-plant yn cynyddu ar yr un raddfa â’r cyfanswm costau cyfartalog.

## Cymarebau staffio

5.34 Edrychwyd hefyd ar y cymarebau staffio cyfartalog ar gyfer gwahanol leoliadau er mwyn deall strwythur cyflogaeth y darparwyr. Ar gyfartaledd, mewn lleoliadau gofal dydd llawn y ceir y nifer uchaf o weithwyr fesul lleoliad, ac yna crèches a darpariaeth chwarae mynediad agored[117]. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y gwasanaethau a ddarperir a chymarebau staffio mandadol[118]. Er y gall cymhareb uwch staff i le cofrestredig awgrymu bod y lleoliad yn gofalu am blant iau, mae hefyd ffactorau eraill i'w hystyried. Er enghraifft, ni all darparwyr gofal dydd llawn sydd wedi cofrestru i ofalu am 20 neu fwy o blant gynnwys rheolwyr yn eu cymarebau staffio, sy'n debygol o fod yn cyfrannu at eu niferoedd staff cyfartalog cymharol uwch (Llywodraeth Cymru, 2016b).

[117] DHG 2016 - Lefel data unigolion

[118] Yng Nghymru, gall gwarchodwr plant ofalu am ddeg o blant hyd at 10 oed; o'r rheini, ni chaiff ddim mwy na chwech fod o dan at 8 oed; o’r 6 hwnnw, ni chaiff mwy na thri fod dan 5 mlwydd oed; o'r tri hwnnw, ni chaiff ddim mwy na dau fel rheol fod o dan 18 mis oed, er y gellir gwneud eithriadau ar gyfer brodyr a chwiorydd. Ar gyfer gofal dydd, y cymarebau staffio yw: un oedolyn i dri o blant o dan 2 oed; un oedolyn i bedwar o blant 2 oed; un oedolyn i wyth o blant 3 - 7 oed; un oedolyn i ddeg o blant rhwng 8 - 12 oed. Mewn lleoliadau gofal dydd llawn cofrestredig ar gyfer 20 neu fwy o blant, ni ddylai'r rheolwr gael ei gynnwys mewn unrhyw gyfrifo cymarebau staffio. Ar gyfer chwarae mynediad agored, y gymhareb staffio yn 1:13 ar gyfer plant o dan 8 oed. Nid yw plant o dan 5 yn gyffredinol yn mynychu darpariaeth o'r fath ac efallai y bydd angen i gymarebau fod yn uwch ar gyfer cynlluniau sy'n gweithredu mewn parciau cyhoeddus. (Llywodraeth Cymru, 2016b)

**Tabl 34.** Cymarebau staffio cyfartalog i ddarparwyr gofal plant yng Nghymru [119]

| Math o leoliad | Cyfartaledd y nifer o blant a gofrestrwyd i ofalu amdanynt | Cyfartaledd nifer o staff | Cyfartaledd cymhareb staff i blentyn |
|---|---|---|---|
| Crèche | 30.00 | 6.25 | 1:5 |
| Gofal dydd llawn | 44.22 | 11.91 | 1:4 |
| Gwarchodwr plant | 7.39 | 1.12 | 1:7 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 72.50 | 7.75 | 1:9 |
| Gofal tu allan i'r ysgol | 35.96 | 5.38 | 1:7 |
| Gofal dydd sesiynol | 23.03 | 4.22 | 1:5 |

5.35 Cafwyd ymateb cymysg gan ddarparwyr o ran p'un a fyddai'n bosibl gwella effeithlonrwydd drwy arbedion maint. Yn Arolwg Gofal Plant Alma Economics, cytunai chwarter o'r ymatebwyr bod lle i rannu gwasanaethau gweinyddol a chefnogol gyda darparwyr gofal plant eraill, ond roedd tua 20% yn anghytuno'n gryf[120]. Roedd y darparwyr y buom ni'n siarad â hwy drwy gyfrwng cyfweliadau yn ymddangos yn fwy tebygol o gyflawni arbedion maint drwy weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau gofal cymdeithasol heblaw gofal plant. Er enghraifft, trafododd un darparwr gwirfoddol rannu adeiladau a gwasanaethau cymorth gweinyddol gyda grŵp cymunedol er mwyn lleihau costau sefydlog. Roedd llawer mwy o betruster i gydweithio â darparwyr gofal plant eraill yn y modd hwn oherwydd materion yn ymwneud â phreifatrwydd a chystadleuaeth.

[119] DHG 2016 - Lefel data unigolion.

[120] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017. Maint sampl - 252 - dangosol yn unig yw'r ffigyrau ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

## 6. Casgliad

Gan gydnabod bod gofal plant yn galluogi rhieni i weithio, yn cefnogi twf economaidd, ac yn helpu i ymdrin â thlodi ac anghydraddoldeb, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gofal plant hyblyg, fforddiadwy o ansawdd uchel yn flaenoriaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae'r sector gofal plant yn chwarae rhan ganolog yn economi Cymru drwy gefnogi rhieni i weithio a darparu cyflogaeth i nifer sylweddol o unigolion. Amcangyfrifir bod tua 17,300 o unigolion yn gweithio yn y sector gofal plant, sef tua 1.2% o'r gweithlu gweithredol yng Nghymru[121]. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr yn gweithio o dan 35 awr yr wythnos am gyflog isel[122]. Er bod lefelau cymwysterau yn cynyddu, nid yw'n ymddangos fel petai hyn wedi trosi i fod yn gynnydd sylweddol mewn cyflogau cyfartalog.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad sy'n defnyddio'r Arolwg o Adnoddau Teulu, amcangyfrifir bod cyfanswm incwm o gyflogaeth a hunangyflogaeth bob blwyddyn y rhiant sy'n ennill y cyflog isaf ar aelwydydd â phlant dibynnol 0-19 oed sy'n cael mynediad at ryw fath o ofal plant ffurfiol tua £1.2 biliwn yn 2015-16.

Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae'r farchnad gofal plant wedi newid yn sylweddol ac erbyn hyn mae dros 18,000 o leoedd gofal plant yn cael eu darparu ar draws Cymru gan tua 4,000 o ddarparwyr gofal plant cofrestredig. Gwarchodwyr plant yw'r rhan fwyaf o ddarparwyr gofal plant (52%). Cyflenwir y gweddill o'r ddarpariaeth gofal plant gan leoliadau gofal dydd sesiynol (20%), lleoliadau gofal dydd llawn (17%), leoliadau gofal tu allan i'r ysgol (10%), darpariaeth chwarae mynediad agored (1%) a crèches (0.5%)[123]. Dengys archwiliad o restrau aros a galw ledled Cymru yr amrywiaeth yn y sector, a'r heriau penodol a wynebir mewn ardaloedd penodol. Mae'n debyg y bydd newidiadau polisi - fel Cynnig Gofal Plant Cymru, y cynnydd mewn Cyflog Byw Cenedlaethol, ffocws cynyddol ar anghenion dysgu ychwanegol,

[121] DHG 2016 – data lefel cyfanredol

[122] Arolwg Gofal Plant Alma Economics 2017

[123] Cyfeiriadur AGGCC o leoliadau gofal dydd plant cofrestredig – Rhagfyr 2016

ac ehangu defnydd o'r Gymraeg - yn creu ystod o gyfleoedd a heriau y mae angen eu rheoli'n ofalus.

Yn 2015-2016, amcangyfrifa Arolwg Gofal Plant Alma Economics[124] bod gwarchodwyr plant, lleoliadau gofal tu allan i’r ysgol, gofal dydd llawn a gofal sesiynol wedi gwario £190 miliwn ar gostau gweithredol. Tuedda costau staff i fod y traul trymaf ar draws pob math o leoliad. O ran incwm, rydym yn amcangyfrif bod gwarchodwyr plant, lleoliadau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal sesiynol wedi derbyn tua £195 miliwn yn 2015-2016. Awgryma canfyddiadau'r arolwg bod tua 93% o gyfanswm yr incwm a enillwyd gan warchodwyr plant yn cynnwys ffioedd gofal plant a delir gan rieni, gyda'r ffigwr cyfatebol ar gyfer lleoliadau gofal dydd llawn yn 88%. Yn 2016-2017, amcangyfrifir bod tua chwarter y darparwyr yn disgwyl gweithredu ar golled.

Mae gan Gynnig Gofal Plant i Gymru y potensial i greu galw newydd ond rhaid rheoli’n ofalus y risgiau sy’n gysylltiedig â newid sylweddol o’r fath er mwyn annog ehangu cynaliadwy o’r sector.

## Argymhellion

### *Ymchwil pellach*

Mae'r adroddiad hwn wedi datgelu meysydd posibl ar gyfer ymchwil pellach:

1) Mae angen rhagor o ymchwil manwl er mwyn deall sut y gall y Cyflog Byw Cenedlaethol effeithio ar y sector gofal plant yng Nghymru, yn enwedig o ran cyflog, cymwysterau, oriau gwaith a datblygiad gyrfa. Bu tandaliad gweithwyr gofal plant yn broblem yn Lloegr; byddai hefyd werth archwilio p’un a yw'n berthnasol i gyd-destun Cymru hefyd.

2) Oherwydd yr amserlen gyfyngedig a chwmpas eang y gwaith hwn, ni fu’n bosibl cynnal ymchwiliad manwl i effaith rheoliadau penodol ar ddarpariaeth gwasanaethau. Er mwyn deall y gost o reoliadau a sut y

[124] Mae’r ffigyrau o Arolwg Alma Economics yn ddangosol yn unig ac ni ddylid eu defnyddio i wneud cymariaethau dros amser.

gallent effeithio ar ymddygiad darparwyr gofal plant, mae angen ymchwil wedi’i dargedu, efallai’n seiliedig ar astudiaethau achos manwl.

3) Bydd yn bwysig monitro’r gwersi a ddysgwyd o weithredu'r rhaglen beilot yn Lloegr. Efallai y bydd y gwerthusiad o'r cynlluniau peilot yn rhoi canllawiau i lunwyr polisi yng Nghymru. Ar ben hynny, wrth i’r rhaglenni peilot ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru gael eu cyflwyno, bydd yn bwysig monitro’r effaith ar y ddarpariaeth o leoedd eraill a ariennir, fel Dechrau'n Deg.

4) Er mwyn deall yn llawn werth posibl y sector gofal plant yng Nghymru, mae angen ymchwilio ymhellach i ddeall y nifer o bobl sy’n cael eu rhwystro rhag gweithio oherwydd diffyg mynediad digonol i ofal plant yng Nghymru.

5) Byddai asesiad anghenion manwl o ofynion hyfforddiant arbenigol sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynorthwyo rhwydweithiau cefnogi i gyflenwi rhaglenni hyfforddiant wedi'u teilwra a chymorth i gynyddu ansawdd y ddarpariaeth gofal plant.

## Cyfeiriadau


BBC News, 2017. SSE to raise electricity prices next month [WWW Document]. BBC News. URL http://www.bbc.co.uk/news/business-39253699

Blau, D.M., Hagy, A.P., 1998. The Demand for Quality in Child Care. Journal of Political Economy 106, 104–146. doi:10.1086/250004

Blau, D.M., Robins, P.K., 1998. A Dynamic Analysis of Turnover in Employment and Child Care. Demography 35, 83. doi:10.2307/3004029

Brewer, M., Cattan, S., Crawford, C., Rabe, B., 2016. Free Childcare and Parents' Labour Supply: Is More Better? IFS Working Paper W16/22

Butler, A., Rutter, J., 2016. Creating an anti-poverty childcare system. Joseph Rowntree Foundation.

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2016. Gwasnaethau a lleoedd a reoleddir gan yr AGGCC ar 31 Mawrth 2016.

Cyngor Gofal Cymru, 2014. Arolwg Llafurlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae 2014. BMG Research, Birmingham.

Cyngor Gofal Cymru, 2010. Llafurlu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru: 2010. Cyngor Gofal Cymru, Caerdydd.

Chevalier, A., Viitanen, T.K., 2004. The supply of childcare in Britain: Do mothers queue for childcare.

Children, Young People and Education, 2016. Evidence paper for Draft Budget Allocations 2017-18 – Children & Communities MEG.

Clarke, S., D'Arcy, C., 2016. Low Pay Britain 2016. Resolution Foundation, London.

CWLWM, 2017. Childcare and Early Years Workforce Survey 2016.

Dallimore, D., 2014. Disadvantaged by poverty and inequality The Formal Childcare Market in Wales.

Dallimore, D., 2013. Disadvantaged by poverty and inequality The Formal Childcare Market in Wales. WISERD, Bangor.

Duncan, A., Paull, G., Taylor, J., others, 2001. Price and quality in the UK childcare market. Institute for Fiscal Studies.

Estyn, 2015. Effaith athrawon ymgynghorol ar leoliadau nas cynhelir a ariennir.

Evans, D., Taylor, C., Rhys, M., 2016. Evaluation of the Foundation Phase Flexibility Pilot Scheme: Final Report 2016 (No. 80/2016). Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods (WISERD), Cardiff.

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Caerdydd, 2017. Drafft o Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant - Caerdydd. Caerdydd.

Harding, C., Wheaton, B., Butler, A., 2017. Chidcare survey 2017. Family and Childcare Trust

Irwin, L., Siddiqi, A., Hertzman, C., 2007. Early Child Development: A Powerful Equalizer. The Human Early Learning Partnership for the World Health Organization, Vancouver.

Jarvie, M., 2017. One in ten nursery workers paid below the minimum wage [WWW Document]. Family and Childcare Trust. URL https://www.familyandchildcaretrust.org/one-ten-nursery-workers-paid-below-minimum-wage (accessed 5.31.17).

Jenkins, S.P., Symons, E.J., 2001. Child Care Costs and Lone Mothers' Employment Rates: UK Evidence. The Manchester School 69, 121–147. doi:10.1111/1467-9957.00238

Joesch, J.M., Hiedemann, B.G., 2002. The demand for nonrelative child care among families with infants and toddlers: A double-hurdle approach. Journal of Population Economics 15, 495–526.

Kimmel, J., 1998. Child care costs as a barrier to employment for single and married mothers. Review of Economics and Statistics 80, 287–299.

Low Pay Commission, 2016. National Minimum Wage: Low Pay Commission autumn report 2016. Crown copyright, London.

Marmot, M., 2010. Fair society, healthy lives: the Marmot review. Marmot Review, London.

Michalopoulos, C., Robins, P.K., Garfinkel, I., 1992. A Structural Model of Labor Supply and Child Care Demand. The Journal of Human Resources 27, 166. doi:10.2307/145916

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, 2016. Arolwg Meithrinfeydd Blynyddol 2016 - Cymru. Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, Sir Ddinbych.

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, 2017. Arolwg Meithrinfeydd Blynyddol 2017 - Cymru. CGMD, Huddersfield.

Parkes, J., 2016. How will early years be affected by Brexit? [WWW Document]. Nurseryworld. URL http://www.nurseryworld.co.uk/nursery-

world/news/1158136/how-will-early-years-be-affected-by-brexit (cyrchwyd 7.7.17).

Paull, G., Xu, X., 2015. Childcare Policy Options for Wales. Public Policy Institute for Wales, Cardiff.

Ribar, D.C., 1992. Child Care and the Labor Supply of Married Women: Reduced Form Evidence. The Journal of Human Resources 27, 134–165. doi:10.2307/145915

Rutter, J., 2016. Childcare Survey. Family and Childcare Trust.

Ystadegau Cymru, 2017. Dechrau'n Deg, Ystadegau Cryno 2016-17.

Tekin, E., 2007. Childcare subsidies, wages, and employment of single mothers. Journal of Human Resources 42, 453–487.

Llywodraeth Cymru, 2016a. Symud Cymru Ymlaen: 2016-2021. Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2016b. Safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed.

Llywodraeth Cymru, 2014. Cynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Hawlfraint y Goron, Caerdydd.

Llywodraeth Cymru, 2013. Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Hawlfraint y Goron, Caerdydd.

Viitanen, T.K., 2005. Cost of Childcare and Female Employment in the UK. Labour 19, 149–170. doi:10.1111/j.1467-9914.2005.00325.x

# Atodiad 1 Mathau o ddarparwyr gofal plant

## Gwarchod plant

Dyma ofal plant a ddarperir gan un neu fwy o bobl i blant o enedigaeth hyd at 12 oed mewn adeiladau domestig nad ydynt yn gartref i'r plentyn ei hun, am fwy na 2 awr y dydd yn gyfnewid am daliad neu wobr. Gall gwarchodwyr plant gynnig gofal dydd llawn neu ofal rhan amser, gan gynnwys darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol. Gosodir eu taliadau yn ôl y gwasanaeth(au) y maent yn eu cynnig a'r galw gan rieni. Fel rhan o'r gwasanaeth hyblyg, mae rhai gwarchodwyr plant yn mynd â phlant i'r ysgol a'u casglu oddi yno, tra bod rhai yn cynnig darpariaeth y tu allan i oriau safonol, er enghraifft gyda'r nos ar benwythnosau yn ogystal â darparu gofal yn ystod gwyliau ysgol. Yn gyffredinol, rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu gweithredu fel gwarchodwr plant fod wedi cofrestru gydag AGGCC oni bai eu bod yn cael eu heithrio rhag cofrestru oherwydd, er enghraifft, eu bod yn gweithredu am lai na 2 awr y dydd, dim ond yn gofalu am blant dros 12 oed, neu os yw'r gofal rhwng ffrindiau heb unrhyw daliad yn cael ei wneud ar gyfer y gwasanaeth. Mae rhai gwarchodwyr plant yn rhan o rwydweithiau lleol (mae rhai rhwydweithiau yn fwy ffurfiol nag eraill), lle mae cymorth a hyfforddiant ar gael a lle y gallant ymuno â grwpiau eraill am weithgareddau a rennir.

## Gofal dydd

Darperir gofal dydd ar safleoedd annomestig ac yn gyffredinol mae'n rhaid ei gofrestru gyda'r AGGCC os yw'r darparwr yn gofalu am blant hyd at 12 oed am fwy na dwy awr y dydd. Gall gofal dydd gael ei ddarparu i blant dros 12 oed, neu am lai na 2 awr y dydd, ond byddai'r darparwyr hyn gael eu heithrio o'r broses gofrestru. Mae'n ymdrin ag ystod o wahanol fathau o ddarpariaethau:

*Gofal dydd llawn*

Mae gofal dydd llawn ar gyfer plant o'u genedigaeth hyd at 12 oed, a ddarperir am gyfnod di-dor o 4 neu fwy o oriau mewn unrhyw ddiwrnod. Gall gynnwys meithrinfeydd dydd, yn cynnig gofal amser llawn neu ran-amser, gan gynnwys darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, gofal yn y gwyliau a gofal cofleidiol (darpariaeth sy’n cefnogi rhieni lle mae plant yn derbyn y lleoedd addysg a ariennir).

Gall hefyd gwmpasu lleoliadau sy’n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gofal sesiynol drwy gydol y diwrnod hwnnw, a all gynnwys grwpiau chwarae cyfrwng Saesneg a Chymraeg, Cylch Meithrin, gofal cofleidiol, lleoedd addysg a ariennir a lleoedd gofal plant am ddim.

*Gofal sesiynol*

Mae gofal sesiynol ar gyfer plant o 2 oed ymlaen, am gyfnod parhaus o lai na 4 awr mewn unrhyw un diwrnod. Defnyddir y gwasanaeth yn bennaf gan blant rhwng 3 a 5 oed yn hytrach na babanod neu blant bach, er y gall rhai gymryd plant 2 oed. Gall gofal sesiynol gynnig darpariaeth cylch chwarae, lleoedd addysg a ariennir mewn Cylch Meithrin, a lleoedd gofal plant am ddim.

*Gofal plant tu allan i’r ysgol*

Mae gofal plant tu allan i’r ysgol yn cyfeirio at ofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol llawn amser y plentyn ac mae’n cynnwys gofal a ddarperir cyn ysgol, ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Nid yw'n cynnwys gofal cofleidiol a chynllun brecwast am ddim Llywodraeth Cymru mewn ysgolion cynradd. Os yw cyfanswm y gofal ar gyfer plant hyd at 12 oed yn fwy na dwy awr mewn unrhyw un diwrnod ac am fwy na phum niwrnod y flwyddyn, rhaid i'r ddarpariaeth gael ei chofrestru gydag AGGCC.

*Crèches*

Mae crèches yn cynnig gofal dydd achlysurol i blant o enedigaeth hyd at 12 oed ar safleoedd annomestig. Mae angen iddynt fod wedi'u cofrestru gyda'r

AGGCC, os ydynt yn rhedeg am fwy na dwy awr y dydd a mwy na phum diwrnod y flwyddyn, hyd yn oed lle mae plant unigol yn mynychu am gyfnodau byrrach. Mae rhai mewn adeiladau parhaol ac yn gofalu am blant tra bo'u rhieni yn cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol (e.e. hyfforddiant, siopa neu chwaraeon). Mae eraill yn cael eu sefydlu ar sail dros dro i ofalu am blant tra bo'u rhieni yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd â therfyn amser (e.e. cynhadledd neu arddangosfa).

*Darpariaeth chwarae mynediad agored*

Gall darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio sy'n gweithredu am dros 2 awr y dydd i blant hyd at 12 oed fod yn ddarpariaeth barhaol neu dros dro, a'i lleoli mewn amrywiaeth o leoliadau, gyda neu heb adeiladau, a gall gynnwys cynlluniau chwarae yn y gwyliau. Mae'r ddarpariaeth hon fel arfer yn darparu ar gyfer ystod oedran eang o blant, fel arfer 5 oed a throsodd. Y diben yw darparu cyfleoedd chwarae i blant yng nghwmni staff, fel arfer yn absenoldeb eu rhieni. Nid yw plant yn cael eu cyfyngu yn eu symudiadau, ac eithrio pan yn ymwneud â materion diogelwch, ac nid ydynt yn cael eu rhwystro rhag mynd a dod fel a phan y dymunant.

# Atodiad 2 Adolygiad llenyddol

## Cefndir polisi

Mae tystiolaeth helaeth yn dangos y gall ymyriadau plentyndod cynnar, gan gynnwys addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, effeithio yn gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd, addysg a chyflogaeth yn y tymor hir a rhoi elw economaidd sylweddol i lywodraethau.

Hefyd mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu bod gofal plant o ansawdd uchel sy’n hygyrch a fforddiadwy yn helpu i leihau tlodi ac anghydraddoldeb. Rhwng 2013-14 a 2015-16, roedd oddeutu 23 y cant o boblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi incwm cymharol (h.y. yn byw ar aelwyd lle’r oedd cyfanswm incwm yr aelwyd ar ôl costau tai 60% yn llai nag incwm aelwyd canolrif y DU)[125]. Mae plant sydd â chanlyniadau datblygu plentyndod cynnar cadarnhaol yn fwy tebygol o gael eu diogelu rhag effeithiau niweidiol tlodi a chael canlyniadau addysg a chyflogaeth uwch (Irwin et al., 2007; Marmot, 2010; Llywodraeth Cymru, 2013).

Fel gweinyddiaeth ddatganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau ychwanegol o ran gweithredu polisïau sy'n ymwneud â gofal plant. Yn aml mae llywodraethau rhyngwladol yn ceisio gwella fforddiadwyedd a mynediad i ofal plant drwy ymyriadau ar yr ochr gyflenwi (e.e. drwy roi cymhorthdal i ddarparwyr i gyflenwi gwasanaethau am ddim) neu ochr alw’r farchnad (e.e. drwy roi cymhorthdal i gostau drwy gredydau treth ayb.) (Rutter, 2016a). Gan fod y llywodraeth ganolog yn cadw’i phŵer dros feysydd polisi allweddol, yn enwedig mewn perthynas â budd-daliadau a threthi, mae Llywodraeth Cymru yn cael ei chyfyngu o ran ei gallu i ddeddfu ymyriadau ar yr ochr alw. Fel y nododd Dallimore (2014), “…rhaid i bolisi gofal plant Llywodraeth Cymru gael ei ysgrifennu gydag un llaw wedi’i chlymu y tu ôl i'w chefn.” Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, dylid nodi bod rhai trethi, fel treth tir y dreth stamp, wedi cael eu datganoli, ac mae cynlluniau ar gyfer datganoli treth incwm yn

[125] Yr Adran Gwaith a Phensiynau - Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog, Mehefin 2017

rhannol o Ebrill 2019[126]. Gall Llywodraeth Cymru ddal i ymyrryd ar ochr gyflenwi'r farchnad drwy reoliadau rheolaethol, cynyddu'r ddarpariaeth o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y wladwriaeth, a darparu grantiau bach (Dallimore, 2014).

Yn 2013, nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad clir i ddull cydlynol aml-sectoraidd o ymdrin â'r blynyddoedd cynnar drwy ei dogfen bolisi *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant*. Mae gan y cynllun ffocws cryf ar leihau anghydraddoldeb a thlodi. Ar adeg cyhoeddi, roedd tua un o bob tri o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru, gyda 20% yn byw mewn tlodi absoliwt (Llywodraeth Cymru, 2013). Yn sgil Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair, cychwynnodd Llywodraeth Cymru ar ystod o ddiwygiadau a strategaethau i wella'r sector gofal plant yn ei gyfanrwydd. Yn benodol, yn 2014 dechreuodd ymgynghoriadau ar ddrafft cynllun 10 mlynedd ar y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae yng Nghymru. Mae'r cynllun arfaethedig yn canolbwyntio ar wella arweinyddiaeth, gan ddenu ymgeiswyr newydd o ansawdd uchel a gwella sgiliau a safonau yn y gweithlu presennol. Hefyd ym mis Ebrill 2016, ar ôl ymgynghori helaeth, cyflwynwyd ystod o ddiwygiadau i reoliadau gofal plant a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant ffurfiol. Ymhlith mesurau eraill, roedd y diwygiadau yn cynyddu'r terfyn oedran ar gyfer cofrestru o 8 i 12 oed, yn cyflwyno fframweithiau arolygu newydd, a chymarebau staffio diwygiedig.

## Cyflenwad a'r galw am ofal plant

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfranogiad y gweithlu a'r galw am ofal plant yn tueddu i leihau wrth i bris gofal plant gynyddu, ac yn tueddu i gynyddu wrth i gyflogau godi. Yn ogystal, mae tystiolaeth yn dangos efallai nad yw'r galw mor ymatebol ag y disgwylir i gymhellion ariannol oherwydd dewisiadau rhieni (Joesch a Hiedemann, 2002). Awgryma'r llenyddiaeth nad cymhellion ariannol yn unig (h.y. cyflogau, cymorthdaliadau gofal plant, cyflogadwyedd, ayb) sy'n effeithio ar y galw am ofal plant a chyfranogiad mamau yn y gweithlu, ond hefyd dewisiadau personol, credoau a nodweddion (e.e. crefydd, ethnigrwydd,

[126] Ceir mwy o wybodaeth yn: http://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/

addysg ayb). Mae'r amnewidiadwyedd rhwng gofal plant ffurfiol ac anffurfiol ac ymatebolrwydd y cyflenwad gofal plant i newidiadau yn y galw hefyd yn bwysig i ddeall defnydd ac effaith cymhellion ariannol sy'n gysylltiedig â gofal plant (e.e. cymorthdaliadau, credydau treth, ayb.)[127].

Yn yr adran hon, rydym yn trafod y cysyniad o *elastigedd galw*, sy'n cyfeirio at yr effaith y gall rhai newidiadau eu cael ar y galw. Mae dau fath o *elastigedd galw* yn cael eu trafod - elastigedd pris ac elastigedd cyflog. Mae elastigedd cyflog y galw yn mesur effaith cynnydd o 1% mewn cyflogau ar y galw. Mae elastigedd pris y galw yn mesur y newid yn y galw am gynnyrch neu wasanaeth oherwydd cynnydd o 1% yn ei bris. Mae astudiaethau sy’n defnyddio data y DU yn darparu tystiolaeth am elastigedd galw pris gofal plant o rhwng -0.46 i -0.26, tra bod tystiolaeth o’r Unol Daleithiau a Chanada yn darparu ystod lawer ehangach, o -1.48 i -0.15.

**Perthynas rhwng pris a gofal plant (DU)**

Darperir tystiolaeth gan Viitanen (2005) am sut mae costau gofal plant yn effeithio ar y penderfyniadau a wneir gan famau plant cyn-oed ysgol i gymryd rhan yn y farchnad lafur a’u defnydd o ofal ffurfiol y telir amdano. Mae'r astudiaeth yn awgrymu bod cynnydd yn y gost gofal plant yn cael effaith negyddol cryf ar ddefnyddio gofal plant. Yn wir, amcangyfrifir bod yr elastigedd pris yn -0.46, sy'n golygu y byddai gostyngiad o 10% yn y gost o ofal plant yn cynyddu’r defnydd o ofal plant o 4.6%. Yn seiliedig ar y canlyniadau hyn, datblygodd Viitanen (2005) efelychiadau cymhorthdal gofal plant, a oedd yn dangos y byddai cymhorthdal o 25% yn cael effaith gymedrol ar y defnydd o ofal plant ffurfiol a chyfranogiad yn y gweithlu, gyda chynnydd o ddim ond tri phwynt canran yr un. Hyd yn oed ar y lefel uchaf o gymorthdal (50%), ni fyddai pob mam a gyflogir yn defnyddio gofal plant ffurfiol. Mae'n

[127] Mae gofal plant anffurfiol yn gyffredinol yn cyfeirio at ofal plant sydd heb ei gofrestru (e.e. gofal a ddarperir gan deulu, ffrindiau, gwarchodwyr tymor byr) tra bod gofal plant ffurfiol yn ymwneud â gwarchod plant cofrestredig neu ofal dydd a darpariaeth chwarae mynediad agored.

well gan lawer o deuluoedd ofal anffurfiol gan berthnasau, hyd yn oed pan fo'r gofal plant ffurfiol yn cael cymhorthdal sylweddol.

Mae Duncan et al. (2001) yn darparu tystiolaeth ychwanegol trwy ddefnyddio pum mlynedd o ddata AAT o 1994/5 i 1998/9. Mae'r sampl yn cynnwys mamau priod sy'n gweithio, ac mae eu methodoleg yn rhagamcan prisiau gofal plant ar gyfer plant cyn-oed ysgol, wedi eu rheoli ar gyfer effeithiau ansawdd a maint. Yna, caiff y prisiau a ragwelir eu defnyddio mewn modelau probit ac atchweliad i werthuso effaith y pris ar y tebygolrwydd o ddefnyddio gofal plant ffurfiol, a faint fydd y galw. Mae'r elastigedd pris canlynol yn amrywio o -0.26 i -0.46. Roedd gan y model a oedd yn cynnwys yr holl gyfuniadau gwahanol o oriau a rheolaeth ansawdd elastigedd pris o -0.32.

Hefyd edrychodd Duncan et al. (2001) ar effaith newid prisiau ar yr oriau o ofal plant a fynnir. Dengys eu hastudiaeth nad yw pris gofal plant yn cael effaith ar yr oriau o ofal a fynnir. Ar ben hynny, astudiwyd effaith prisiau gofal plant ar ansawdd y gofal plant a brynwyd a gwelwyd mewn ardaloedd lle mae'r pris yn uwch, tueddir i ddewis gofal o ansawdd is (o'i fesur yn ôl y lefel o wariant gofal plant sy'n gysylltiedig â phris). Fodd bynnag, bychan yw'r effaith amcangyfrifedig; awgryma'r canlyniadau mewn ardaloedd lle mae'r pris 10% yn uwch na'r cyfartaledd, bod ansawdd y lefel gofal plant a ddewisir 0.7% yn is na'r cyfartaledd.

Astudiaeth gan Chevalier a Viitanen (2004) yw un o'r ychydig nad yw'n tybio bod y cyflenwad o ofal plant yn gwbl ystwyth, ac felly'n ymatebol i newidiadau yn y galw. Mae eu model hwy'n astudio'r posibilrwydd o diffyg cydbwysedd rhwng y galw a'r cyflenwad o ofal plant a allai arwain at giw (h.y. mamau yn gofyn ond ddim yn cael gofal i'w plant). I ddechrau, mae'r astudiaeth yn amcangyfrif model ciw a model heb giw, ond mae'r model heb giw yn cael ei wrthod gan brawf cymhareb tebygolrwydd, gan gadarnhau'r posibilrwydd o gyflenwad heb fod yn berffaith ymatebol, a bodolaeth ciw. Yn ôl y canlyniadau, mae prisiau dau fath o ddarparwyr, gwarchodwyr plant a meithrinfeydd, yn cael effaith negyddol ar y galw. Mae'n werth nodi bod y galw am ofal plant tua 10 gwaith yn fwy sensitif i bris gwarchodwyr plant na meithrinfeydd/ cylchoedd chwarae.

Yn olaf, mae Chevalier a Viitanen (2004) yn perfformio rhai efelychiadau o bolisïau posibl sy'n targedu prisiau ac argaeledd. Mae'r efelychiadau yn archwilio gostyngiad o 10% ym mhris cyfartalog gofal plant ALl, cynnydd o 10% yn y ddarpariaeth ysgol, cynnydd o 10% yn y gyfran o ddarparwyr am ddim ALl, a newid y cyflenwad o un cwintel. Roedd yr effeithiau yn unol â'r disgwyl – byddai prisiau is ac argaeledd ehangach yn cynyddu'r tebygolrwydd o alw am ofal plant a lleihau'r tebygolrwydd y byddai darparwr yn rhoi plentyn ar restr aros. Fodd bynnag, cymedrol yw maint yr effeithiau. Yn wir, roedd y newidiadau mwyaf (a ganfuwyd yn y senario lle'r oedd yr holl bolisïau yn cael eu cymhwyso) yn dangos cynnydd o 1.3 pwynt canran yn y galw am ofal plant, cynnydd o 3.4 pwynt canran yn y gyfradd dderbyn (os oes galw am ofal plant) a gostyngiad o 1.1 pwynt canran yn y gyfradd wrthod.

**Effaith gofal plant am ddim**

Edrychodd Brewer et. al (2016) ar effaith yr oriau ychwanegol o ofal plant am ddim ar ddefnydd a chanlyniadau marchnad lafur i famau a thadau yn Lloegr. Archwiliodd yr awduron y newidiadau wrth i blant symud o hawl i 15 awr o ofal plant am ddim bob wythnos mewn lleoliad meithrin i 30 awr mewn lleoliad addysg. Canfu'r astudiaeth mai effaith gyfyngedig a gafwyd ar batrymau gwaith. Roedd mamau plant oedd â hawl i'w plentyn ieuengaf gael gofal amser-llawn tua 3.5 pwynt canran yn fwy tebygol o fod yn gweithio o gymharu â mamau yr oedd eu plentyn ieuengaf tua diwedd eu hawl rhan-amser. Yn ogystal, awgrymai'r astudiaeth bod y defnydd gofal plant yn cynyddu gydag oriau ychwanegol am ddim, ond dim ond o ychydig.

Awgrymodd astudiaeth gan Pettit a Hook (2005) bod perthynas bositif rhwng y lefelau cofrestru ar gyfer gofal plant a ariennir yn gyhoeddus a chyflogaeth mamau. Canfuwyd y byddai cynnydd o bwynt canran ar gyfartaledd yng nghyfran y plant a oedd wedi cofrestru mewn gofal plant a ariennir yn gyhoeddus hyd at 2 oed yn arwain at gynnydd o 2.9% mewn cyflogaeth mamau plant ifanc, gan reoli ar gyfer addysg, oedran, perthynas a nodweddion eraill. Mae rhywfaint o amrywiaeth yn y llenyddiaeth ynghylch y

graddau y mae gofal plant am ddim yn gysylltiedig â chynnydd mewn cyflogaeth mamau.

**Perthynas rhwng pris a gofal plant (UD a Canada)**

Mae astudiaethau o'r Unol Daleithiau yn darparu ystod ehangach o dystiolaeth, gan ganiatáu ar gyfer cymariaethau â chanlyniadau'r DU, a darparu rhagamcanwyr ar gyfer elastigedd cyflog o'r galw am ofal plant, sydd yn anghyffredin yn llenyddiaeth y DU.

Datblygodd ac amcangyfrifodd Tekin (2007) fodel ymddygiadol i astudio'r berthynas rhwng cyflogaeth ran-amser a llawn-amser a'r penderfyniad i dalu am ofal plant. Roedd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio'n llwyr ar famau sengl gydag o leiaf un plentyn a oedd dan 13 oed. Amcangyfrifodd Tekin ar y cyd fodel logit lluosonomaidd ac hafaliad pris ar gyfer gofal plant a chyflog mamau, gan ddefnyddio data o'r 'National Survey of America's Families' (NSAF) 1997. Dangosodd y canlyniadau fod gostyngiad ym mhris gofal plant yn cynyddu'r defnydd o ofal plant y telir amdano. Yn wir, amcangyfrifwyd bod yr elastigedd pris cyffredinol o dalu am ofal yn -0.15. Mae'r amcangyfrif hwn yn disgyn ym mhen isaf yr ystod o elastigedd yr adroddwyd amdano mewn astudiaethau yn yr Unol Daleithiau sy'n ddefnyddio methodoleg debyg. Er enghraifft, roedd Blau a Hagy (1998) yn amcangyfrif elastigedd o -0.34 ar gyfer sampl mamau priod a sengl, tra canfu Michalopoulos et al. (1992) ei fod yn -0.30 i famau sengl.

Adroddodd Tekin (2007) effaith gadarnhaol cyflogau ar y galw am ofal plant. Mae ei astudiaeth yn amcangyfrif elastigedd o 0.71 ar gyfer cyflogau llawn amser a 0.11 ar gyfer cyflogau rhan-amser. Gan ddefnyddio'r canlyniadau hyn, asesodd effeithiau gwahanol bolisïau ar gyflogaeth a'r galw am ofal plant a oedd yn dangos y byddai gostyngiad o $1 yn y pris fesul awr am ofal plant yn cynyddu'r tebygolrwydd o dalu am ofal plant 4 pwynt canran (9.3 y cant). Yn yr un ffordd, byddai cymhorthdal cyflog o $1 yr awr yn arwain at gynnydd o 5.7 pwynt canran (13.3 y cant) yn y defnydd o ofal plant y telir amdano ar gyfer cyflogau llawn amser a 0.8 pwynt canran (1.9 y cant) ar gyfer cyflogau rhan-amser.

Archwiliodd Joesch a Hiedemann (2002) wahanol yrrwyr o benderfyniad rhieni i ddefnyddio gofal plant a'r nifer o oriau gofal plant a ddefnyddir ganddynt. Dangosodd yr astudiaeth nad yw incwm a phris gofal plant yn effeithio ar y penderfyniad i ddefnyddio gofal plant o gwbl. Dim ond ar y nifer o oriau a fynnir y mae'n effeithio, unwaith y bo rhieni'n penderfynu mynd i mewn i'r farchnad. Mae'r canfyddiadau hyn yn wahanol i dystiolaeth rhai astudiaethau o'r DU (Duncan et al., 2001). Dangosodd Joesch a Hiedemann bod gostyngiad o $1 yr awr ym mhris gofal yn cael ei gysylltu â 2 i 2.5 awr o ofal ychwanegol yr wythnos. O ran cyflogau mamau, canfuwyd bod doler ychwanegol o enillion yr awr yn gysylltiedig â chynnydd mewn gofal a oedd yn amrywio o 32 munud/ yr wythnos i 69 munud/ yr wythnos.

Archwiliodd Joesch a Hiedemann (2002) y galw am ofal heblaw gan berthnasau yn yr UD, gan ddefnyddio data o Arolwg Gofal plant Cenedlaethol 1990 a Phroffil Lleoliadau Gofal Plant 1990. Mae eu hastudiaeth yn edrych ar y ffaith bod llawer o rieni yn yr Unol Daleithiau yn gofalu am eu plant eu hunain, hyd yn oed pan maent mewn cyflogaeth. Y rhesymau posibl a brofwyd yw'r ateb cornel a heterogenedd dewis. Cadarnhaodd y modelau a grëwyd gan yr awduron fod rhai rhieni yn ymateb i gymhellion ariannol, ond na fyddai eraill fyth yn defnyddio gofal oni bai ei fod yn cael ei gyflenwi gan berthnasau, waeth beth fo'r gost na'r incwm.

Yn ôl y dystiolaeth, effeithir yn gryf ar y galw gan gymhellion ariannol. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau cymedrol a gynhyrchir gan unrhyw lefel o gymhorthdal yn yr efelychiadau polisi yn creu rhywfaint o amheuaeth (Chevalier a Viitanen, 2004; Tekin, 2007).

**Ffactorau eraill**

Mae penderfyniadau gofal plant yn dibynnu ar nodweddion teuluol a rhieni. Dangosodd Chevalier a Viitanen (2004) bod oedran ac addysg mamau, yn ogystal ag incwm y teulu ac oedran y plentyn ieuengaf, i gyd yn gallu effeithio ar y galw am ofal plant.

Nododd Joesch a Hiedemann (2002) hefyd bod lefel addysgol a chredoau crefyddol y mamau, oedran y plant, maint y teulu a phresenoldeb rhoddwyr gofal amgen hefyd yn ffactorau cyfrannol.

Archwiliodd Duncan et al. (2001) y berthynas rhwng ansawdd a gwahanol nodweddion mamau. Awgrymodd eu canfyddiadau fod tuedd i famau sy'n meddu ar lefel ganol o addysg (h.y. y rhai a adawodd addysg yn 17-21 oed) i ddewis gofal plant o ansawdd uwch. Hefyd, mae incwm y mamau yn gysylltiedig yn bositif â dewis ansawdd, tra bod nifer y brodyr a chwiorydd yn cysylltu’n negyddol â’r ansawdd a ddewisir.

### Amnewidiadwyedd rhwng gofal plant ffurfiol ac anffurfiol

Edrychodd Chevalier a Viitanen (2004) ar famau a oedd yn disgwyl am ofal ffurfiol yn y DU. Byddai'n well gan y mwyafrif o famau nad ydynt wedi cael mynediad i ofal plant ffurfiol ofalu am eu plant eu hunain na dibynnu ar ofal anffurfiol.

Yn ddiddorol, canfu Brewer et al (2016) bod plant yn treulio llai o oriau mewn gofal anffurfiol wrth iddynt ddod yn gymwys i ofal ffurfiol am ddim.

### Cyflenwad gofal plant

Mae dealltwriaeth o’r ffactorau sy'n effeithio ar gyflenwad hefyd yn angenrheidiol i hwyluso’r cynnydd mewn galw am ofal plant a chyfranogiad merched yn y llafurlu. Os na fydd y cyflenwad yn ymateb i newidiadau yn y galw, gallai cymhellion arwain at giwiau.

Astudiodd Chevalier a Viitanen (2002) p’un a oedd y farchnad ar gyfer darparu gofal plant yn ymateb i'r newidiadau mewn galw drwy ddefnyddio data’r DU am y cyfnod rhwng 1992-1999. Trwy archwilio cyfranogiad mamau plant ifanc yn y gweithlu (gan ddefnyddio hwn fel procsi ar gyfer y galw am ofal plant), daethant i'r casgliad nad yw cyflenwad gofal plant yn ymateb i newidiadau yn y galw. Gallai hyn fod o ganlyniad i reoliadau yn creu heriau i fynediadau newydd ar yr ochr gyflenwi. Dylai'r canfyddiadau hyn yn cael eu

trin yn ofalus gan fod sawl cyfyngiad ar eu methodoleg, gan gynnwys cyfnod byr o amser, y newidyn a ddefnyddir i fesur cyflenwad gofal plant (cyfran y gweithwyr gofal plant yn y gweithlu) a'r newidyn a ddefnyddir i fesur y galw (cyfranogiad mamau plant ifanc yn y gweithlu).

O ran bodolaeth ciw, dadansoddodd Chevalier a Viitanen (2004) sampl o famau Prydeinig gydag o leiaf un plentyn cyn-oed ysgol a gweld y byddai 50.3% o'r mamau hyn yn hoffi defnyddio gofal plant ffurfiol; fodd bynnag, dim ond 47.3% o'r galwadau hyn oedd yn cael eu bodloni.

**Tueddiadau cyflenwad yng Nghymru**

Mae'r dystiolaeth sy'n benodol i Gymru yn gyfyngedig iawn. Archwiliodd Dallimore (2014) newidiadau yn y ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru o 2007 i 2013. Awgryma Dallimore (2014) nad yw lefel gyffredinol y gofal plant yng Nghymru wedi newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, a bod sector gofal plant yng Nghymru, o gymharu â'r un yn Lloegr, wedi dangos gwydnwch annisgwyl i'r dirwasgiad economaidd.

Canfu'r astudiaeth fod nifer y lleoliadau gofal dydd llawn (meithrinfeydd dydd yn bennaf), wedi cynyddu yn yr ardaloedd mwyaf cefnog, tra bod nifer y lleoliadau gofal dydd sesiynol (e.e. cylchoedd chwarae cyn-ysgol, ayb), gwarchodwyr plant a chlybiau tu allan i'r ysgol wedi gostwng. Mae hyn i'w ragweld, gan fod lleoliadau bach yn fwy agored i risgiau sy'n gysylltiedig â dirwasgiad. Nodir hefyd y gall ffactorau fel aeddfedu'r farchnad, gostyngiad mewn genedigaethau a newidiadau mewn patrymau gweithio gyfrannu at y tueddiadau hyn.

Ar ben hynny, mae'r astudiaeth yn dod i'r casgliad bod amddifadedd, yn ogystal â rhai ffactorau eraill cysylltiedig (e.e. nifer y rhieni sengl), yn cael eu cysylltu'n agos â lefelau cyflenwad gofal plant. Profodd Dallimore newidiadau mewn lleoedd gofal plant ym mhob awdurdod lleol yn erbyn ystod o ffactorau allanol gan gynnwys lefelau amddifadedd plant, dwysedd swyddi a natur wledig. Nid oedd unrhyw gydberthynas rhwng newidiadau mewn cyflogaeth a newidiadau yn nifer y lleoedd gofal plant rhwng 2008 a 2013. Hefyd nid oedd

unrhyw gyswllt sylweddol rhwng diweithdra mewn aelwydydd gyda phlant dibynnol a newidiadau yn y cyflenwad gofal plant.

Rhoddwyd prawf ar y berthynas rhwng y gwahanol ffactorau posibl a'r galw a chyflenwad gofal plant terfynol o ran eu harwyddocâd, gan ddefnyddio cyfernodau cydberthyniad yn unig. Nid oedd y fethodoleg, ynghyd â'r ffaith bod y data a ddefnyddiwyd wedi ei gronni yn ôl ALlau, yn caniatáu i'r awdur archwilio effaith pob ffactor ar y cyflenwad neu alw. O ganlyniad, mae'r canlyniadau yn hynod ddefnyddiol ar gyfer arsylwi ar y tueddiadau yng Nghymru, ond nid ar gyfer sefydlu perthnasau ac amcangyfrifwyr cadarn o effaith pob ffactor. Ar ben hynny, rhaid cydnabod mai dim ond rhan o'r sector gofal plant ehangach yng Nghymru yw gofal plant cofrestredig, gan yr amcangyfrifir bod dros 40% o'r rhieni yn defnyddio gofal plant heb ei gofrestru (naill ai’n anghyfreithlon neu heb gydymffurfio â'r rheoliadau a ddarperir) a gofal plant anffurfiol (Dallimore, 2014).

**Effaith gofal plant ar gyflogaeth**

Gall gofal plant fforddiadwy roi opsiwn i famau o fynd i mewn neu barhau yn y gweithlu a'r cyfle i gynyddu eu henillion. Drwy hwyluso cyflogaeth a lefelau incwm uwch ar gyfer teuluoedd, gall gofal plant effeithio'n gadarnhaol ar economi.

Canolbwyntiodd Chevalier a Viitanen (2004) ar amcangyfrif p’un a oedd argaeledd gofal plant ffurfiol yn effeithio ar gyflogaeth merched. Defnyddiasant data’r DU o’r Arolwg Chwarterol o’r Llafurlu i fesur y cyflenwad llafur benywaidd a chyflenwad gofal plant. Mae'r canlyniadau yn cefnogi'r farn bod y diffyg cyfleusterau gofal plant yn cyfyngu ar y cyflenwad o lafur benywaidd a bod newidiadau o ran hygyrchedd (gan gyfeirio naill ai at bris neu argaeledd) yn effeithio ar lefelau cyflogaeth, ac o ganlyniad yn cael effaith ar yr economi.

Dangosodd Viitanen (2005), drwy ddefnyddio sampl o famau priod/cyd-fyw plant cyn-ysgol, bod cyflogau yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogaeth, tra bod prisiau gofal plant yn cael effaith negyddol. Yr elastigedd amcangyfrifiedig yw

0.42 a -0.14, yn y drefn honno. O ganlyniad, byddai cynnydd o 10% mewn cyflogau yn arwain at gynnydd o 4.2% mewn cyfranogiad o famau plant cyn-oed ysgol yn y gweithlu, er y byddai gostyngiad o 10% mewn prisiau gofal plant yn arwain at gynnydd o 1.4% yn y tebygolrwydd o gyflogaeth mamau.

Yn gyffredinol, mae llenyddiaeth o’r Unol Daleithiau yn cefnogi'r dystiolaeth uchod ond yn rhoi mwy o fanylion am gyflogaeth ran-amser a chyflogaeth lawn-amser. Dangosodd Tekin (2007) drwy ddefnyddio sampl o’r Unol Daleithiau o famau sengl gydag o leiaf un plentyn dan 13, bod gostyngiad yn y pris gofal plant yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyflogaeth. Hefyd amcangyfrifodd Tekin mai elastigedd pris gofal plant o gyflogaeth lawn-amser a chyflogaeth ran-amser oedd -0.14 a -0.07, yn y drefn honno, tra bod yr elastigedd pris cyffredinol o dalu am ofal yn -0.15.

Dangosodd efelychiadau Tekin (2007), yn seiliedig ar yr elastigedd a nodwyd uchod, y byddai gostyngiad o $1 ym mhris gofal plant fesul awr, yn cynyddu cyflogaeth lawn-amser o 6.1%, cyflogaeth ran-amser o 2.7%, a chyflogaeth yn gyffredinol o 5.2%. Hefyd cyfrifodd gost-effeithlonrwydd cyflog a chymhorthdal gofal plant, fel y'u mesurir gan y nifer ychwanegol o oriau o waith a gynhyrchir am bob doler o wariant y llywodraeth. Dangosodd y canlyniadau mai cymhorthdal o 50% oedd fwyaf effeithlon o ran cost, gan ei fod yn cynhyrchu tua 0.08 o oriau ychwanegol o waith am bob doler. Ar y llaw arall, byddai cymhorthdal cyflog llawn amser yn cynhyrchu 0.07 awr am bob doler ac ni fyddai'r cyflog rhan-amser yn cynhyrchu ond 0.001 awr am bob doler.

O ran elastigedd pris gofal plant cyflogaeth gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth o’r Unol Daleithiau yn awgrymu elastigedd negyddol, fel arfer yn yr ystod o -0.40 i -0.09. Er enghraifft, mae Ribar (1992), Blau a Robins (1998), Michalopoulos et al. (1992), a Blau a Hagy (1998), gyda chymorth model dewis lluosnomaidd yn rhoi amcangyfrifon elastigedd o 0.09, -0.38, -0.16 a -0.20, yn y drefn honno.

Yn gyffredinol, mae gofal plant yn ymddangos fel petai’n cael effaith gref ar gyflogaeth ac felly yr economi yn ei gyfanrwydd; mae pris is o ran gofal plant yn cynyddu cyfranogiad mamau yn y gweithlu, gyda'r effaith yn amrywio o -

0.14 i -0.09 yn y DU, ac o -0.92 i -0.09 yn yr Unol Daleithiau (ar gyfer cyflogaeth yn gyffredinol). Mae cyflogaeth lawn-amser yn gyson yn fwy elastig na chyflogaeth ran-amser ac mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod mamau priod yn fwy ymatebol i newidiadau mewn prisiau o safbwynt penderfyniadau cyflogaeth (Jenkins a Symons, 2001; Kimmel, 1998; Viitanen, 2005).